# Cyfiawnder trwy ein Dewrder

Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig

Gwynedd 2024

Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru
Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig:

Cyfiawnder trwy ein Dewrder, 2024

Dyddiad cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd: 21 Gorffennaf 2025

**Amlinelliad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad**

## Cyd-destun Cyfreithiol

Comisiynwyd yr Adolygiad Ymarfer Plant (AYP) Estynedig hwn gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru, ar argymhelliad yr Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant, yn dilyn derbyn atgyfeiriad ar y cyd gan ALI1 a Heddlu Gogledd Cymru. Mae hyn yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Amlasiantaeth[1]. Mae'r meini prawf ar gyfer yr Adolygiad hwn yn cael eu bodloni gan fanylion yr achos:

## Yr amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

Ar 6 Medi 2023, dangosodd disgybl yn Ysgol Friars, ysgol yng ngogledd Cymru, ddelweddau a negeseuon ar ei ffôn i aelod staff. Roedd hi'n honni bod y rhain wedi dod gan y Pennaeth, Neil Foden. Gwiriwyd y rhif ffôn a chadarnhawyd mai rhif ffôn y Pennaeth oedd hwn.  Roedd cynnwys nifer o'r negeseuon o natur rywiol iawn ac roedd y delweddau yn dangos y disgybl yng nghar Foden. Yn yr atgyfeiriad gan yr aelod staff a dderbyniodd y datgeliad, dywedir bod y disgybl wedi dweud ei bod wedi bod mewn '*perthynas ramantus*' gyda Foden am nifer o fisoedd cyn y datgeliad.

Cafodd Foden ei arestio'n ddiweddarach yr un diwrnod a'i gadw yn y ddalfa. Yn dilyn hyn, daeth dioddefwyr eraill ymlaen i wneud datgeliadau o natur rywiol. Aeth yr achos troseddol i'r llys ym mis Ebrill 2024 a dedfrydwyd Foden ar 1 Gorffennaf 2024. Cafwyd Foden yn euog o 19 cyhuddiad yn erbyn pedwar disgybl benywaidd yn yr ysgol lle'r oedd yn Bennaeth, gan gynnwys 12 achos o weithgarwch rhywiol gyda phlentyn a dau achos o weithgarwch rhywiol gyda phlentyn tra'r oedd mewn swydd gyfrifol. Fe'i cafwyd yn ddieuog o gyhuddiadau oedd yn ymwneud ag un plentyn arall. Cafodd Foden ei ddedfrydu i 17 mlynedd o garchar ac mae'n treulio ei ddedfryd yn y carchar ar hyn o bryd. Cydnabu'r barnwr wrth grynhoi'r achos y gallai mwy o gyhuddiadau fod wedi cael eu dwyn yn erbyn Foden.

[1] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-2-adolygiadau-ymarfer-plant.pdf

Cynhaliodd Cadeirydd yr AYP gyfweliad â Foden ar ddau achlysur ym mis Gorffennaf 2025.

## At ddibenion yr adroddiad hwn, defnyddir y byrfoddau hyn i sicrhau nad oes unrhyw un yn cael eu henwi:

| **Dioddefwyr / Goroeswyr** |
|---|
| Plant sydd wedi dioddef/goroesi cam-drin rhywiol Foden A, B, C, D, E, F, G, S |
| Plant sydd wedi dioddef/goroesi prosesau cyfyngol/ atal Foden H, I, J, M |

| **Oedolion** | **Wedi'u talfyrru i:** |
|---|---|
| Pennaeth Ysgol Friars/Cyflawnwr | Foden |
| Cyn Unigolyn Diogelu Dynodedig Ysgol Friars | UDD1 |
| Uwch Dîm Rheoli - grŵp ehangach o arweinwyr ysgol y tu allan i'r UDRh Craidd | UDRh |
| Aelod o'r Uwch Dîm Rheoli Craidd, Ysgol Friars | UDRh Craidd 1 |
| Aelod o'r Uwch Dîm Rheoli Craidd ac Unigolyn Diogelu Dynodedig, Ysgol Friars | UDD2 (hefyd yn aelod o'r UDRh Craidd) |
| Aelod o'r Uwch Dîm Rheoli Craidd, Ysgol Friars | UDRh Craidd 3 |
| Dirprwy Unigolyn Diogelu Dynodedig, Ysgol Friars | DUDD |
| Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Friars | Cadeirydd y Llywodraethwyr |
| Dirprwy Gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Friars | Llyw2 |
| Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol 2 | Llyw3 |
| Unigolyn Diogelu Dynodedig, Ysgol 2 *(penodwyd Foden yn Bennaeth Gweithredol/ Strategol yn Ysgol 2 dros dro)* | Dirprwy Bennaeth UDD Ysgol 2 |
| Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol | Ymarferydd Gwasanaethau Plant ALl2 |
| Prif Weithredwr Awdurdod Lleol 1 | Prif Weithredwr ALl1 |
| Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Awdurdod Lleol 1 | GPaTh ALl1 |
| Adran Addysg Awdurdod Lleol 1 | Add ALl1 |
| (Cyn) Gyfarwyddwr Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Awdurdod Lleol 1 | Cyfarwyddwr GPaTh ALl1 |
| Pennaeth Gwasanaethau Plant Awdurdod Lleol 1 | Pennaeth GPaTh ALl1 |
| Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant Awdurdod Lleol 1, Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer Diogelu Plant | Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) |
| Arweinydd Tîm Awdurdod Lleol 1, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | Arweinydd Tîm GPaTh ALl1 |

| | |
|---|---|
| Pennaeth Addysg Awdurdod Lleol 1 | Pennaeth Addysg 1 ALI1 |
| Pennaeth Adran, Addysg, Awdurdod Lleol 1, yn ddiweddarach Pennaeth Addysg | Uwch Reolwr Add2 ALI1, yn ddiweddarach Pennaeth Addysg 2 |
| Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu Plant mewn Addysg | Add3 ALI1 |
| Swyddog Cyfreithiol, Awdurdod Lleol 1 | Swyddog Cyfreithiol ALI1 |
| Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, Awdurdod Lleol 1 | Cyf Stat GC ALI1 |
| (Cyn) Gyfarwyddwr Corfforaethol Awdurdod Lleol 1 | Cyn Gyf Cor ALI1 |
| Swyddog Cyswllt Heddlu Gogledd Cymru i Ysgolion | SCHGC i Ysgolion |

| **Arall** | |
|---|---|
| Awdurdod Lleol 1 | ALI1 |
| Awdurdodau Lleol Cyfagos | ALI2, ALI3 |
| Heddlu Gogledd Cymru | HGC |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | BIPBC |
| Cyd-bwyllgor Addysg Cymru | CBAC |

Mae'r holl acronymau a ddefnyddir yn nhestun prif gorff yr adroddiad wedi'u rhestru yn atodiad 1.

## Y Cyfnod Amser sy'n Cael ei Adolygu a Pham

Yn ystod cyfarfod cychwynnol y Panel Adolygiad Ymarfer Plant, cytunwyd mai'r cyfnod a fyddai'n cael ei adolygu fyddai o fis Ionawr 2017 (yn seiliedig ar y digwyddiad cyntaf i gael ei gofnodi) tan 6 Medi 2023, sef diwrnod yr arestiad.  Fodd bynnag, yn unol â'r canllawiau, cytunodd y Panel yn unfrydol ym mis Mai 2025 y byddai'r llinell amser yn cael ei hymestyn tan 30 Medi 2023 er mwyn galluogi adolygiad o'r camau a gymerwyd ar ddiwrnod y datgeliad a'r diwrnodau dilynol, ac er mwyn nodi unrhyw wersi a ddysgwyd o ymatebion yr asiantaethau.

Rhannodd Heddlu Gogledd Cymru (HGC) wybodaeth am faterion ychwanegol, nad oeddent yn rhai diweddar, a oedd yn peri pryder o ran Foden. Rhoddodd y cefndir hwn gipolwg defnyddiol i'r Adolygwyr ar gyd-destun ehangach ei ymddygiad troseddol. Mae'r rhain wedi'u hystyried wrth lunio'r damcaniaethau a'r argymhellion.

Ers euogfarn Foden ym mis Gorffennaf 2024, mae mwy o ddioddefwyr wedi camu ymlaen. Yr achos cynharaf o gamdriniaeth rywiol honedig oedd ym 1979, pan oedd Foden newydd gymhwyso fel athro ac yn ei swydd gyntaf. O ystyried y newidiadau sylweddol yn nealltwriaeth cymdeithas o gam-drin plant yn rhywiol, ni fyddai adolygu arferion a oedd ar waith bryd hynny yn cynyddu'r hyn y gallwn ni ei ddysgu heddiw. Mae'r dioddefwr o 1979 yn cytuno â hyn.

Cyflwynwyd llinellau amser, cronolegau a dadansoddiadau gan 14 asiantaeth yn y tri awdurdod lleol - Awdurdod Lleol 1, Awdurdod Lleol 2 ac Awdurdod Lleol 3 - a ddaeth i

gyswllt â'r ysgol yn rhinwedd y ffaith fod rhai disgyblion a oedd yn mynychu Ysgol Friars yn byw y tu allan i ffin ALl1.

| Asiantaeth | Cronoleg | Dadansoddiad |
| --- | --- | --- |
| Addysg Awdurdod Lleol 1 | x | x |
| Ysgol Friars | Gofynnwyd amdani droeon - heb ei darparu | |
| Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Awdurdod Lleol 1 | x | x |
| NSPCC | x | x |
| SARC | x | |
| Heddlu Gogledd Cymru | x | x |
| Cofnodion ysbyty BIPBC | x | |
| Cofnodion Meddyg Teulu BIPBC | x | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol ALl3 | x | |
| Addysg ALl3 | x | |
| Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ALl2 | x | |
| CAMHS BIPBC | x | |
| Cofnodion Iechyd Plant BIPBC | x | |

Cafodd y wybodaeth ei chyfuno'n un gronoleg gyffredinol a gyflwynwyd i'r Adolygwyr. Ni lwyddodd Ysgol Friars i gyflwyno cronoleg o ddigwyddiadau i'r AYP, er ei bod wedi cael cais i wneud hynny. Oherwydd diffyg arweinyddiaeth gadarn yn yr ysgol o ran Prifathrawiaeth a Llywodraethu, newidiadau aml o ran rolau a chyfrifoldebau yn Adran Addysg ALl1, ynghyd â phrinder cofnodion cyfoes yn y ddau sefydliad, ni lwyddodd yr Adolygiad i ffurfio cronoleg ôl-weithredol. Nid oedd yr un o Ddirprwy Benaethiaid Foden (UDRh 1 ac UDD2) wedi sicrhau eu bod ar gael i siarad â'r Adolygiad ar ôl y cyflwyniadau cychwynnol yn ystod yr ymweliadau cyntaf â'r ysgol ym mis Gorffennaf a Hydref 2024, er bod tîm yr AYP wedi rhoi gwybod i UDRh 1 ALl1 ym mis Gorffennaf 2024 eu bod yn gwneud Atgyfeiriad Diogelu i GPaTh ALl1 am aelod staff.

Mae hwn yn achos cymhleth sy'n rhychwantu ychydig llai na 7 mlynedd ac sy'n ymwneud â throseddwr rhyw cyson a niweidiodd nifer o blant. Mae'r Adolygiad hwn yn unigryw o ran ei faint a'i raddfa ac mae'n dadansoddi deg gwaith yn fwy o wybodaeth nag a gaiff ei hadolygu mewn AYP fel arfer. Er gwaethaf hyn, roedd yr Adolygwyr yn ymwybodol bod y dioddefwyr/goroeswyr a'r rhai a oedd yn eu cefnogi eisoes wedi goddef cyfnod sylweddol rhwng arestio Foden a'i euogfarn, a phenodi'r tîm AYP a'r Panel. Felly penderfynwyd y dylid ceisio cwblhau'r Adolygiad mewn cyfnod cyn agosed ag sy'n bosibl at flwyddyn.

Roedd Foden yn ffigwr pwerus yn y gymuned Addysg yng Nghymru, gyda phroffil uchel gydag undebau, cysylltiad â CBAC a bu'n rhoi cyflwyniadau i Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Mae'n bosibl bod nifer o'r rhai nad oeddent wedi'i gyfarfod wedi bod yn ymwybodol o'i enw drwg pellgyrhaeddol fel bwli.

Roedd Foden yn canlyn y cyfryngau - fel y mae'r sylw a roddwyd iddo yn y wasg genedlaethol oherwydd y sgandal arian cinio ar ddiwedd 2021 yn ei ddangos - ac roedd hefyd yn destun negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys fideos, a rhai ohonynt wedi'u rhannu gan ddisgyblion.

## Yr Adolygwyr a'r Panel

Cafodd yr achos gryn dipyn o sylw yn y cyfryngau. Roedd yn cynnwys nifer o awdurdodau lleol ac asiantaethau'r sector cyhoeddus, ac felly roedd yn hanfodol bod yr Adolygwyr yn annibynnol. Er mwyn sicrhau annibyniaeth, nid oedd Cadeirydd yr Adolygiad Ymarfer Plant na'r Adolygwyr a ddewiswyd wedi gweithio i unrhyw un o'r asiantaethau dan sylw yng ngogledd Cymru o'r blaen. Mae Cadeirydd yr Adolygiad Ymarfer Plant yn Weithiwr Cymdeithasol Cofrestredig â chefndir ym maes Cyfiawnder Troseddol a Cham-drin Plant yn Rhywiol. Mae un Adolygydd yn siaradwr Cymraeg rhugl gyda chefndir diweddar ym maes Addysg, ac wedi gweithio ar wella effeithiolrwydd darparu gwasanaethau cyhoeddus amlasiantaeth yn y gorffennol. Mae gan yr Adolygydd arall brofiad ym maes Addysg a Gofal Cymdeithasol i Blant, mae wedi bod mewn rôl LADO yn Llundain ac wedi gweithio mewn amgylchedd amlasiantaeth ar draws 33 Bwrdeistref yn Llundain. Roedd darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gael ym mhob un o gyfarfodydd y Panel.

Roedd yn bwysig nad oedd gan yr un aelod o'r tîm AYP gysylltiadau proffesiynol na theuluol â gogledd Cymru. Cadarnhaodd pob aelod a nodwyd o'r Panel nad oedd unrhyw wrthdaro buddiannau â deunydd yr achos a nodwyd (cafodd hyn ei adolygu'n barhaus trwy gydol y broses). Safodd un aelod o'r tîm Adolygu cychwynnol i lawr ym mis Hydref 2024 pan ddaeth i'r amlwg fod aelod o'i deulu estynedig wedi gweithio yn ALl1 yn y gorffennol, ar adeg y tu allan i'r cylch gorchwyl.

Wrth i'r broses Adolygu ddechrau, ym mis Gorffennaf 2024, roedd Ysgol Friars ar fin cau dros wyliau'r haf. Roedd proses ailstrwythuro wedi mynd rhagddi hefyd, a arweiniodd at golli swyddi. Roedd hyn yn golygu bod angen i'r Adolygwyr sicrhau eu bod ar gael yn yr ysgol ar unwaith, er mwyn clywed yn uniongyrchol gan staff. Felly aeth yr Adolygwyr draw i'r ysgol ym mis Gorffennaf 2024. Dyma'r cyntaf o gyfanswm o naw diwrnod a dreuliwyd ar y safle, yn cwrdd â dros 80 aelod staff a chyfweld 60 arall. Cysylltodd aelodau staff a oedd wedi ymddeol, rhai a oedd ar gyfnod mamolaeth a rhai eraill a oedd yn absennol o'r ysgol â'r Adolygwyr. Bodlonwyd pob cais i gwrdd â'r Adolygwyr. Rhoddwyd gwybod i rieni, gan rannu cyfeiriad e-bost yr Adolygiad â nhw a rhoi cyfle iddynt gysylltu â Chadeirydd yr AYP a'r Adolygwyr a chwrdd â nhw. Cydnabu'r Panel Adolygu fod rhai yn wynebu rhwystrau o ran ymgysylltu â'r broses hon, gan gynnwys materion hyder, neu fod angen cymorth ychwanegol arnynt i gael mynediad at y broses Adolygu. Gwnaed trefniadau i'w galluogi i gyfrannu ac i'w llais gael ei glywed, fel yr amlinellir yn 9 nodwedd warchodedig *Deddf Cydraddoldeb (2010)*[2].

Dros ddeuddeg mis yr Adolygiad, mae'r Adolygwyr wedi cwrdd a siarad â 140 o unigolion sy'n cynrychioli pob grŵp ac asiantaeth berthnasol. Roedd angen amser ar rai ohonynt cyn camu ymlaen. Mae'r Cadeirydd, yr Adolygwyr a'r Panel yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi eu dewrder wrth wneud hynny.

[2] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents

Y dioddefwyr/goroeswyr a gafodd eu niweidio'n uniongyrchol gan Foden sydd wrth wraidd yr Adolygiad. Cysylltodd Cadeirydd yr AYP â nhw trwy'r unigolion a oedd yn gyfrifol am eu cefnogi, gan gynnig cwrdd â nhw ar amser o'u dewis, mewn lle o'u dewis, yng nghwmni eu teuluoedd neu eu heiriolwyr. Roedd rhai o'r dioddefwyr/goroeswyr yn teimlo y gallent gymryd rhan yn yr Adolygiad, ac adroddodd Cadeirydd yr AYP yn ôl wrthynt am broses yr AYP a'r argymhellion drafft er mwyn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed a bod modd iddynt gyfrannu at yr argymhellion.

**Hoffai'r Adolygwyr a Phanel yr AYP gydnabod eu dewrder a'u cryfder wrth ddewis cyfrannu at yr Adolygiad hwn yn eu dymuniad i amddiffyn pobl eraill yn well yn y dyfodol, er eu bod eisoes wedi bod yn rhan o daith hir yr achos trwy'r System Cyfiawnder Troseddol. Mae dyled yr Adolygwyr yn fawr iddynt.**

Mae proses yr AYP yn caniatáu i'r Adolygwyr adolygu'r holl wybodaeth sydd ar gael er mwyn datblygu damcaniaethau am yr hyn a'i gwnaeth yn bosib i'r niwed gael ei achosi. Cafodd y damcaniaethau eu hadolygu yna eu cymeradwyo gan y Panel, a'u mireinio ymhellach mewn Digwyddiadau Dysgu a oedd yn agored i staff rheng flaen a oedd yn ymwneud â'r achos. Oherwydd graddfa'r Adolygiad hwn, cynhaliwyd pum Digwyddiad Dysgu amlasiantaeth yn ystod hanner cyntaf 2025 - pedwar i ymarferwyr ac un i reolwyr. Mae'r cyfraniadau a wnaed i'r digwyddiadau hyn wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad hwn. Mae'r damcaniaethau'n ffurfio asgwrn cefn yr adroddiad hwn a'r sail ar gyfer yr argymhellion. Y nod yw ei gwneud yn llai tebygol i gamdriniaeth ddigwydd eto.

Mae Cadeirydd yr AYP wedi parhau i gwrdd â dioddefwyr a'u teuluoedd (pan fo'n briodol) trwy gydol yr Adolygiad. Rhoddodd Tîm yr AYP sesiwn friffio i'r Corff Llywodraethu presennol yn yr ysgol i sicrhau bod modd gweithredu ar yr hyn a ddysgwyd ar y cyfle cyntaf, yn hytrach nag aros i'r Adolygiad gael ei gyhoeddi. Yn yr un modd, cafodd unrhyw gyfleoedd i wella darpariaeth gwasanaeth ar unwaith eu nodi a'u cyfeirio at asiantaethau perthnasol, fel nad oedd gwelliannau yn cael eu rhwystro wrth aros i broses yr AYP gael ei chwblhau.

## Cefndir

Ymunodd Foden ag Ysgol Friars fel athro Saesneg ym 1988 a chafodd ddyrchafiad i fod yn Ddirprwy Bennaeth cyn dod yn Bennaeth ym 1997. Disgrifiwyd Foden i'r Panel fel '*cawr o ddyn*' - o ran corffolaeth a phresenoldeb - roedd yn adnabyddus am y ffordd yr oedd yn rhedeg yr ysgol. Roedd Foden yn adnabyddus yn y gymuned leol a'r Awdurdod Lleol a byddai'r wasg leol a chenedlaethol yn aml yn cyfeirio ato. Cyfeiriodd y BBC ato fel yr unigolyn y byddent yn cysylltu ag ef pe bai angen barn am fater dadleuol, neu pan fyddai Penaethiaid eraill yng Nghymru yn gyndyn o ymgysylltu.

Roedd Foden yn ffigwr blaenllaw yn yr undeb addysg a gaiff ei adnabod fel yr Undeb Addysg Cenedlaethol (UAC) bellach, ac yn 2018, fe'i cafwyd yn euog gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) o fwlio aelod o'i staff ei hun, a gafodd iawndal yn dilyn hynny. Roedd llawer o'r rhai a gafodd eu cyfweld yn cydnabod bod Foden yn fwli. Roedd yr ymddygiad hwn yn gysylltiedig â mater a oedd wedi arwain at gyflwyno cwyn amdano i'r bwrdd arholi (CBAC) am ffugio canlyniadau arholiadau. Cafodd y gŵyn hon ei chynnal hefyd.

Yn 2018, yn dilyn marwolaeth sydyn y Dirprwy Bennaeth a'r Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD1), penododd Foden ei hun yn Arweinydd Bugeiliol yn yr ysgol a chymerodd rôl goruchwylio materion diogelu, gyda chefnogaeth Rheolwr Swyddfa'r Ysgol. Bryd hynny, rhoddodd Foden newid ar waith o ran strwythur y tîm bugeiliol hefyd, gan ddisodli staff addysgu proffesiynol gyda staff nad oeddent yn addysgu mewn rolau Penaethiaid Blwyddyn. Ar ddiwedd 2018, penodwyd Dirprwy Bennaeth ac Unigolyn Diogelu Dynodedig newydd i rôl UDD (UDD2) yn Ysgol Friars, er nad oedd gan yr unigolyn hwnnw unrhyw brofiad diogelu o bwys. Roedd UDD2 yn cael cefnogaeth gan Reolwr Swyddfa'r Ysgol, nad oedd wedi cael hyfforddiant ac nad oedd yn meddu ar brofiad diogelu.

Yn 2018, codwyd y pryder cyntaf am ryngweithio Foden gyda disgybl benywaidd. Yn fuan wedyn, codwyd cyfres o gwynion a phryderon eraill gydag Adran Addysg (Add ALI1) a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (GPaTh ALI1) ALI1.

Yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu, codwyd nifer o bryderon am Foden. Ceir crynodeb o'r rhain yn y tabl isod.  Mae'r pwyntiau bwled coch yn dangos yr adegau yr honnir y siaradwyd â Foden am ei ymddygiad.

Cyn iddo gael ei arestio ym mis Medi 2023, nid oedd unrhyw euogfarnau troseddol wedi'u cofnodi yn erbyn Foden. Ar ôl iddo gael ei ddedfrydu ym mis Gorffennaf 2024, camodd dioddefwr arall ymlaen a chysylltu â'r Adolygwyr yn honni bod Foden wedi ymosod yn rhywiol arni hi pan oedd yn blentyn, felly mae'r tîm yn ei thrin fel dioddefwr.

## Llinell amser

Oherwydd cymhlethdod a maint yr AYP, mae llinell amser gryno wedi'i hychwanegu isod fel trosolwg/cyflwyniad i'r achos.

Mae'r pwyntiau bwled coch yn y golofn ar y dde yn cyfeirio at gyfeiriadau a gofnodwyd bod swyddogion neu gydweithwyr wedi siarad â Foden am yr angen i newid ei ymddygiad. Nid oes unrhyw gofnodion ysgrifenedig o gynnwys y trafodaethau hyn, nac o ymateb Foden.

Roedd pob un o ddioddefwyr cam-drin rhywiol Foden yn fenywaidd.
Roedd pob un a ddioddefodd rym gormodol wrth atal gan Foden yn wrywaidd.

| Dyddiad | Digwyddiad | |
|---|---|---|
| **1979** | | |
| | Honiad o ymosodiad rhywiol ar blentyn – datgeliad gan y dioddefwr yn 2023 | |
| **1997** | | |
| | Foden yn cael ei benodi'n Bennaeth Ysgol Friars | |
| **2017** | | |
| | Foden yn wynebu tribiwnlys am fwlio staff | |
| | Cwyn i'r bwrdd arholi am ffugio canlyniadau arholiadau | |
| **2018** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Foden yn anfon negeseuon ar lein at Blentyn C yn hwyr y nos | | |
| | Plentyn C yn cael ei gweld yn swyddfa Foden, yn cysgu gyda'i phen ar y ddesg | | |
| Gorffennaf | Plentyn A yn rhoi gwybod am bryder am berthynas Foden gyda Phlentyn C. Yr Adran Addysg yn siarad â Foden. Rhoi gwybod i GPaTh ALl1 a HGC | | |
| Gorffennaf | Rheolwr hostel yn rhoi gwybod i GPaTh ALl1 am bryder am berthynas rhwng Foden a Phlentyn C | | |
| Awst | Foden yn cymryd rôl arweiniol fugeiliol ar ôl marwolaeth UDD1 | | |
| **2019** | | | |
| Ionawr | Foden yn ailstrwythuro tîm bugeiliol yr ysgol | | |
| Ionawr/ Chwefror | Plentyn A - Foden yn mynychu cyfarfod Amddiffyn Plant yn ALl2 ac yn mynd gyda hi i gyfweliad gyda'r Heddlu | | |
| Mawrth | Foden yn mynd gyda Phlentyn A i apwyntiad meddyg teulu, heb yn wybod i'w rhieni | • | |
| | Asiantaethau'n nodi bod gan Blentyn A gyfeiriad e-bost Foden | | |
| | Foden yn mynd gyda Phlentyn A i'r SARC | | |
| | UDRh Craidd 1 yn siarad â Foden am fod ar ei ben ei hun gyda disgyblion benywaidd diamddiffyn, gan y gallai fod yn agored i honiadau ffug | • | |
| Ebrill | Foden yn mynd gyda Phlentyn A i apwyntiad gynecolegol yn yr ysbyty | | |
| | UDRh Craidd 1 yn siarad â Phennaeth Addysg 1 am bryderon fod Foden yn cael cyswllt 1:1 gyda Phlentyn A a Phlentyn C | | |
| | Cyfarfod uwch swyddogion ALl1 i drafod – y canlyniad oedd y byddai Pennaeth Addysg 1 yn siarad â Foden am ffiniau | • | |
| Mai | Foden yn mynd gyda Phlentyn A i ail apwyntiad gynecolegol a'r llythyr canlyniadau meddygol yn cael ei anfon d/o Foden i gyfeiriad yr ysgol | • | |
| Mehefin | Mewn cyfarfod Rhan 4 yn ALl2 am Blentyn A, Foden yn dweud ei bod wedi gwneud honiad yn ei erbyn o'r blaen. Ni chafodd hyn ei herio | | |
| Gorffennaf | Ymarferydd Gwasanaethau Plant ALl2 yn rhoi gwybod am bryder am y berthynas rhwng Foden a Phlentyn A | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mam Plentyn A yn rhoi gwybod i Ymarferydd Gwasanaethau Plant ALl2 am ei phryder am y berthynas rhwng Foden a Phlentyn A | • | |
| | Y ddau bryder yn cael eu hatgyfeirio at GPaTh ALl1 | | |
| | Mam Plentyn A yn ailadrodd ei phryderon | • | |
| | Uwch swyddogion yng Ngwasanaethau Plant ALl2 yn gofyn i'r mater gael ei drafod gyda'r Heddlu – GPaTh ALl1 yn gwrthod | • | |
| **2020** | | | |
| Chwefror | NSPCC yn gwneud atgyfeiriad at GPaTh ALl1 am berthynas Foden gyda Phlentyn A | | |
| | SARC yn gwneud atgyfeiriad tebyg at GPaTh ALl1 am berthynas Foden gyda Phlentyn A | | |
| Mawrth | GPaTh ALl1 yn penderfynu nad yw'r trothwy wedi'i gyrraedd ar gyfer ymchwiliad Adran 4 | | |
| | Yr Ysgol yn cau oherwydd COVID | | |
| Ebrill | Mae'n hysbys bod Foden wedi bod gyda Phlentyn A a Phlentyn C yn yr ysgol yn ystod cyfnod clo Covid | | |
| | UDRh Craidd 1 a 3 yn yr ysgol yn cyfnewid negeseuon fod Foden yn rhoi ei hun mewn perygl o honiadau maleisus | | |
| Mai | Plentyn S yn cwyno wrth staff yr ysgol fod Foden yn rhy agos ati yn gorfforol | | |
| Hydref | CGA yn canfod Foden yn euog o gamymddwyn proffesiynol a rhoi cyfnod ceryddu o 2 flynedd iddo | | |
| **2021** | | | |
| Mai | Honiad o arfer cyfyngol amhriodol gan Foden yn erbyn Plentyn I | | |
| Mehefin | Foden yn cael ei benodi'n Bennaeth Gweithredol/ Strategol yn Ysgol 2 | | |
| Medi | Honiad o arfer cyfyngol amhriodol Plentyn I - cyfarfod Adran 5 yn cael ei gynnal | | |
| Hydref | Atgyfeiriad gan Ysgol 2 am ryngweithio Foden gyda Phlentyn G | | |
| | Atgyfeiriad ar wahân gan asiantaeth Gofal Iechyd Meddwl am ryngweithio Foden gyda Phlentyn G | | |
| | Ymchwiliad adran 47 yn cael ei gynnal gan GPaTh ALl1 am Blentyn G | | |
| Tachwedd | Foden yn y penawdau cenedlaethol am fater cinio ysgol | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyfarfod Amddiffyn Plant am arferion cyfyngol Plentyn I | | |
| | Trafodaeth Strategaeth Broffesiynol Adran 5 am ymddygiad gyda Phlentyn G | • | |
| | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ALI1 yn argymell bod Foden yn cael ei atal o'i waith dros dro, sy'n arwain at Gadeirydd y Llywodraethwyr yn dweud wrth Foden am weithio gartref - nid yw'n cael ei atal o'i waith dros dro | • | |
| | Digwyddiad grym afresymol, Plentyn J | • | |
| **2022** | | | |
| Ionawr | Foden yn dychwelyd i weithio yn y ddwy ysgol | | |
| | Pryderon pellach yn cael eu codi am Blentyn G | | |
| | Cyfarfod Adran 5 am Blentyn I | • | |
| Chwefror | Achos o ddefnyddio grym afresymol yn cael ei atgyfeirio am Blentyn H. Trafodaethau Adran 5 ac adran 47 yn cael eu cynnal | | |
| Hydref | Pryderon yn cael eu codi fod Foden ar ei ben ei hun yn ei ystafell gyda Phlentyn F | • | |
| Tachwedd | Honiad bod Foden wedi ymosod yn rhywiol ar oedolyn benywaidd ar dir yr ysgol | | |
| **2023** | | | |
| Mawrth | UDRh Craidd 1 a 3 ac UDD2 yn trafod pryderon fod Foden yn cwrdd â disgyblion benywaidd ar ei ben ei hun yn ei ystafell | | |
| | UDD2 yn ysgrifennu at Foden i egluro pryderon yr UDRh Craidd ac yn gofyn iddo gynnal cyfarfodydd gyda phlant yn y dyfodol gyda'r drws ar agor, y goleuadau ymlaen a'r bleinds ar agor | • | |
| Mehefin | Aelod staff yn codi pryderon gydag UDRh Craidd 1 a 3 ac UDD2 am ryngweithio Foden gyda Phlentyn F | | |
| Gorffennaf | Gofalwr Plentyn F yn codi pryderon am berthynas Foden gyda Phlentyn F | | |
| | Mewn cyfarfod gyda Gweithiwr Cymdeithasol, Plentyn F yn datgelu bod Foden wedi ei chofleidio heb ei chaniatâd | | |
| | Gweithiwr Cymdeithasol yn atgyfeirio pryderon am Blentyn F at GPaTh ALI1 | | |
| Medi | Plentyn D yn datgelu camdriniaeth rywiol gan Foden | | |
| | Foden yn cael ei arestio | | |
| | Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | Cyfarfod Uwch Swyddogion | |
| | Cyfarfod Eithriadol y Corff Llywodraethu | |

## Digwyddiadau allweddol a chysylltiad asiantaethau

Ym mis Ebrill 2017, cynhaliwyd cyfarfod diogelu mewn perthynas â Phlentyn A, a oedd wedi ymuno â'r ysgol yn ddiweddar. Yn y cyfarfod hwn, trafodwyd cynllun diogelwch a chytunwyd y dylai Plentyn A ymgysylltu â'r Dirprwy Unigolyn Diogelu Dynodedig (DUDD) benywaidd i gael cymorth. Rhoddwyd nodyn ar y System Rheoli Gwybodaeth Ysgol (SIMS) ac mewn lle amlwg yn yr Ystafell Staff i ddweud na ddylai hi fod ar ei phen ei hun gydag aelodau staff gwrywaidd.

Ar ddechrau 2018, dangosodd tystiolaeth ar y system ysgol fod Foden yn anfon negeseuon yn aml at Blentyn C, gan ddefnyddio ei chyfeiriad e-bost personol. Roedd negeseuon yn aml yn cael eu hanfon y tu allan i oriau ysgol ac yn hwyr y nos. Ni nodwyd hyn fel achos pryder ar y pryd.

Roedd y Rheolwr Swyddfa ar y pryd (a benodwyd yn DUDD yn ddiweddarach) yn gwybod bod Plentyn C yn treulio amser yn swyddfa Foden, er enghraifft, yn cysgu gyda'i phen ar ei ddesg.

Ar 9 Gorffennaf 2018, rhoddodd Plentyn A wybod i Swyddog Cyswllt Heddlu Gogledd Cymru i Ysgolion am ei phryderon am ddisgybl arall (nid oedd Plentyn A yn ei hadnabod ar y pryd), yr oedd hi wedi'i gweld yn cerdded ar ei phen ei hun gyda Foden dros yr wythnosau diwethaf ar safle'r ysgol ac yn mynd i mewn i'w gar. Cafodd y plentyn ei hadnabod gan yr ysgol fel Plentyn C. Atgyfeiriodd HGC y pryder at UDD1, a lwyddodd i adnabod y disgybl yn syth fel Plentyn C. Disgrifiodd UDD1 Blentyn C fel plentyn diamddiffyn ac eglurodd fod angen lifft adref arni oherwydd ei fod yn credu na fyddai hi wedi bod yn ddiogel ar gludiant cyhoeddus. Derbyniodd HGC a GPaTh ALl1 yr eglurhad hwn. Ni siaradwyd â Phlentyn A na Phlentyn C am hyn, ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach. Nid oes tystiolaeth i ddangos bod Cadeirydd y Llywodraethwyr wedi cael gwybod am y pryderon am Foden.

Nododd yr Adolygiad mai 9 Gorffennaf 2018 oedd y tro cyntaf y dylai'r Awdurdod Lleol fod wedi cael rhybudd am bryderon yn ymwneud â Foden a'i ryngweithio â phlant.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Lai na phythefnos yn ddiweddarach, ar 24 Gorffennaf 2018, rhoddodd Rheolwr yr hostel lle'r oedd Plentyn C yn aros wybod i HGC eu bod wedi atgyfeirio pryderon at Wasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion ALl2 lle'r oedd Plentyn C yn byw. Ar y pryd, roedd Plentyn C yn 18 oed ac yn paratoi i sefyll ei harholiadau Lefel A.

Dywedodd Rheolwr yr hostel fod Plentyn C yn aml ar ei phen ei hun gyda Foden yn ei ystafell yn yr ysgol a'i bod yn cael lifft yn ei gar hefyd. Gofynnodd y Rheolwr am asesiad gwrthrychol o'r risgiau i bob parti.

Rhannwyd y wybodaeth gyda GPaTh ALI1 ac Add ALI1. Roedd y penderfyniad dilynol a wnaed i beidio â chymryd camau pellach yn seiliedig ar y gred nad oedd angen unrhyw gamau pellach oherwydd na chyrhaeddwyd trothwy troseddol. Ni ystyriodd yr asiantaethau *addasrwydd* (gweler atodiad 1) ymddygiad Foden yn cael cyswllt a rhyngweithio mor agos â Phlentyn C o ran ei swydd broffesiynol.

Nid oes tystiolaeth fod cyswllt wedi'i wneud rhwng y pryder a godwyd ar 24 Gorffennaf 2018 a'r atgyfeiriad a wnaed lai na phythefnos cyn hynny, a oedd yn ymwneud â'r un plentyn. Ni siaradwyd â Phlentyn C y tro hwn, ac ni roddwyd gwybod i Gadeirydd y Llywodraethwyr, er mai hwn oedd yr ail atgyfeiriad o fewn pythefnos am Foden a Phlentyn C. Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach o ran y naill achos na'r llall.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Ar 15 Awst 2018, bu farw UDD1, a chymerodd Foden ei rôl fel arweinydd diogelu a bugeiliol, er nad oedd ganddo unrhyw gymwysterau, arbenigedd na phrofiad yn y maes hwn. Nid yw'r Adolygwyr wedi gweld unrhyw dystiolaeth o oruchwyliaeth reoli gan Gadeirydd y Llywodraethwyr na Phennaeth Addysg 1 ALI1 o ran y ffaith iddo fabwysiadu'r rôl hon *de-facto*.

Rhwng mis Awst 2018 a mis Ionawr 2019, cymerodd y Rheolwr Swyddfa rôl DUDD dan reolaeth Foden. Nid oedd ganddynt brofiad o ddiogelu ar y pryd, ar wahân i gefnogi'r diweddar UDD1. Er nad oeddent wedi cael hyfforddiant, rhoddodd Foden sicrwydd i'r DUDD y gallent droi ato ef, '*fel arbenigwr'*, i gael cefnogaeth ac arweiniad.

Ym mis Ionawr 2019, dechreuodd y Dirprwy Bennaeth Bugeiliol newydd (UDD2) yn ei swydd. Daeth o swydd fugeiliol Cyfnod Allweddol 3 mewn ysgol annibynnol i ferched yn Lloegr, heb lawer o brofiad o drefniadau diogelu yng Nghymru a heb lawer o hyfforddiant diogelu. Cydnabu Foden hyn a chytunodd i barhau i oruchwylio'r swyddogaeth ddiogelu nes yr oedd UDD2 yn gallu cael lefel briodol o hyfforddiant diogelu. Ni allai'r Adolygiad ganfod tystiolaeth bod UDD2 wedi cael hyfforddiant diogelu blaenorol, ar wahân i'r hyfforddiant sylfaenol a ddarperir i bob athro/athrawes fel mater o drefn. Roedd y diffyg arbenigedd diogelu hwn yn arbennig o arwyddocaol oherwydd maint Friars, ysgol â 1400 o blant, a gofynion y rôl.

Ym mis Ionawr 2019, gwnaeth Plentyn A ddatgeliad i Foden ac aelod o'r staff bugeiliol yn nodi pryderon diogelu a oedd yn ymwneud â gweithiwr proffesiynol a oedd yn cael ei gyflogi mewn asiantaeth statudol. O ganlyniad, cynhaliodd ALI2 gyfres o gyfarfodydd dan Ran 4 AWCPP 2008 (gweler atodiad 1). Mae cofnodion y cyfarfodydd yn dangos bod Foden yn bresennol.

Ar 31 Ionawr 2019, cytunwyd y byddai Plentyn A yn mynychu cyfweliad ABE (gweler atodiad 1) mewn perthynas â'r honiad hwnnw. Byddai angen i oedolyn cyfrifol fynd gyda Phlentyn A i'r cyfweliad, gan fod amgylchiadau'r teulu yn golygu nad oedd hi'n dymuno i'w

mam fynd gyda hi. Gwirfoddolodd Foden i fynd gyda hi i'r cyfweliad hwn, a oedd yn dasg anarferol i Bennaeth, yn enwedig mewn ysgol o'r maint hwn.

Ar 2 Chwefror 2019, nodwyd yn yr ail Gyfarfod Rhan 4 fod gan Blentyn A gyfeiriad e-bost gwaith Foden, a bod Foden wedi mynd â hi i apwyntiad meddyg teulu. Roedd hyn yn anarferol hefyd ond ni wnaed sylw amdano. Roedd Plentyn A yn 15 oed ar y pryd.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Ar 11 Mawrth 2019, aeth Foden gyda Phlentyn A i apwyntiad yn y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) (atodiad 1).

Dywedwyd wrth yr Adolygiad fod UDRh Craidd 1 wedi siarad â Foden tua'r adeg hon i'w gynghori i beidio â chael cyswllt 1:1 gyda disgyblion benywaidd ar ei ben ei hun yn ei ystafell, gan ei atgoffa am ffiniau proffesiynol a bod hyn yn ei wneud yn agored i honiadau.

Ar 4 Ebrill 2019, aeth Foden gyda Phlentyn A i apwyntiad gynecolegol yn yr ysbyty, heb yn wybod i'w rhieni.

Ar 12 Ebrill 2019, cysylltodd UDRh Craidd 1 â Phennaeth Addysg 1 ALl1 i ofyn am gyfarfod brys *wyneb yn wyneb*. Yn y cyfarfod hwn, mynegodd UDRh Craidd 1 ei bryder fod Foden yn treulio amser ar ei ben ei hun gyda dau ddisgybl benywaidd diamddiffyn, a allai olygu ei fod yn rhoi ei hun mewn man gwan ac yn agored i honiadau. Yn y cyfarfod, nodwyd mai Plentyn A a Phlentyn C oedd y disgyblion. Ni wnaeth yr un o'r ddau unrhyw gofnod ysgrifenedig o'r cyfarfod.

Anfonodd Pennaeth GPaTh ALl1 neges e-bost at Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) yn gofyn am gyfarfod ynglŷn â '*Mater Diogelu Brys- Cyfrinachol'*.

Ar 15 Ebrill 2019, cynhaliwyd cyfarfod rhwng pedwar Uwch Swyddog ALl1 o Adran Addysg ALl1, GPaTh ALl1 ac Adran Gyfreithiol ALl1, i ystyried y wybodaeth a rannwyd gan UDRh Craidd 1 gyda Phennaeth Addysg 1 ALl1. Ni chymerwyd cofnodion ffurfiol yn y cyfarfod hwn, ond mae'r Adolygwyr wedi gweld trawsgrifiadau o nodiadau a gymerwyd â llaw ar y pryd gan ddau fynychwr. Ni wahoddwyd UDRh Craidd 1 i'r cyfarfod i roi rhagor o wybodaeth. Barnwyd nad oedd hwn yn gyfarfod amddiffyn plant, ond yn hytrach, yn gyfarfod i ystyried '*mater proffesiynol'*.

Yn y cyfarfod, cafodd y ddau ddisgybl diamddiffyn eu henwi fel Plentyn A a Phlentyn C, a nodwyd sawl ffactor risg, gan gynnwys y canlynol:

- Roedd y disgyblion ar eu pennau eu hunain gyda Foden yn ei ystafell am gyfnodau hir
- Gwelwyd disgybl benywaidd gyda'i phen ar ysgwydd Foden
- Roedd Foden yn gafael yn un plentyn gerfydd ei dwy law
- Roedd Foden yn mynd â'r disgyblion hyn adref yn [ei] gar, ar eu pennau eu hunain
- Roedd gan y disgyblion rif ffôn personol Foden
- Roedd UDRh Craidd 1 wedi siarad â Foden (dros y Pasg) i ddweud wrtho am '*gymryd cam yn ôl'*
- Roedd aelodau staff eraill yn pryderu am y cyfarfodydd hyn hefyd

Ni wnaed unrhyw nodyn o'r ffaith bod un o'r disgyblion benywaidd a enwyd, Plentyn C, yn destun dau atgyfeiriad a oedd yn ymwneud â Foden yn 2018 (un a wnaed gan yr ail ddisgybl, Plentyn A, a enwyd yn y cyfarfod hefyd). Ni siaradwyd gyda'r un o'r ddau ddisgybl yn 2018. Nodwyd bod yr ail ddisgybl yn ddiamddiffyn. Byddai Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) wedi gwybod am hyn, ond ni wnaed unrhyw gysylltiad rhwng y ddau ddigwyddiad. Roedd Uwch Reolwr Add2 ALl1, yn ddiweddarach Pennaeth Addysg 2, yn bresennol yn y cyfarfod yn 2018. Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos y byddai Pennaeth Addysg 1 ALl1 wedi cael gwybod am gynnwys y cyfarfod a gynhaliwyd yn 2018 na bod y cynnwys wedi cael ei adolygu yn y cyfarfod yn 2019.

Yn ogystal, roedd Plentyn A yn destun Gweithdrefnau Amddiffyn Plant yn ALl2 ar y pryd. Pe bai unrhyw ymholiadau newydd wedi'u gwneud gydag ALl2, byddai'r wybodaeth fod Foden yn mynd gyda hi i apwyntiadau meddygol wedi dod i'r amlwg. Ni siaradwyd gyda'r un o'r disgyblion am y pryderon hyn a gwnaed penderfyniad yn y pen draw i beidio â pharhau i Ran 4 AWCPP 2008, ar y sail mai mater *proffesiynol* yn hytrach na mater diogelu oedd hwn.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Mae'n debyg bod cytundeb y byddai Pennaeth Addysg 1 ALl1 yn siarad â Foden i'w atgoffa am ffiniau. Nid oes cofnod o'r sgwrs hon nac o ymateb Foden. Fodd bynnag, mae'n debygol iawn bod y sgwrs hon wedi digwydd, oherwydd pan gafodd Foden wybod mai UDRh Craidd 1 oedd wedi codi'r pryder, dywedwyd y bu Foden yn oeraidd tuag ato am nifer o fisoedd.

Ar 1 Mai 2019, aeth Foden gyda Phlentyn A i apwyntiad ysbyty arall. Ysgrifennodd y clinigwr at Iechyd 3 ar 16 Mai 2019 gan nodi bod Foden yn bresennol *eto*. Siaradodd y clinigwr â'r tîm diogelu Iechyd.

Mae llythyr a anfonwyd gan y meddyg ymgynghorol ganol fis Mai 2019 yn cynnwys dealltwriaeth y meddyg ymgynghorol fod Plentyn A *yn treulio llawer o amser gyda Foden yn ei ystafell* a dywedodd fod Plentyn A yn cael sesiynau cwnsela gan Foden. Anfonwyd y llythyr at Blentyn A trwy'r ysgol â chyfeiriad Foden arno, eto, heb gytundeb y rhieni a heb yn wybod iddynt. Daeth yr Adolygwyr o hyd i'r llythyr mewn cabinet heb ei gloi yn hen swyddfa Foden ym mis Awst 2024 – dros bum mlynedd yn ddiweddarach.

Mae UDRh Craidd 1 yn credu iddo godi pryderon ym mis Mai 2019 bod ymddygiad Foden wedi ailgychwyn, gan y nodwyd bod Plentyn A yn swyddfa Foden eto, ond ni chadwyd unrhyw gofnod ysgrifenedig o unrhyw gyfarfod. Yn y pen draw, gadawyd i'r mater ei '*ddatrys ei hun'* gan y deallwyd bod Plentyn A yn gadael yr ysgol ar ddiwedd y flwyddyn academaidd; y rhagdybiaeth oedd na fyddai unrhyw risg o honiadau ffug yn erbyn Foden pe na bai Plentyn A yn yr ysgol. Nid oes unrhyw dystiolaeth y rhoddwyd ystyriaeth i'r risg i Blentyn A.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Ar 6 Mehefin 2019, yn dilyn y cyfarfod terfynol Rhan 4 a gynhaliwyd yn ALl2 mewn perthynas â datgeliad Plentyn A am gamdriniaeth gan weithiwr proffesiynol a oedd wedi'i gyflogi mewn asiantaeth statudol arall, dywedodd Foden- heb ei gymell- fod Plentyn A wedi gwneud honiad yn ei erbyn ef yn ddiweddar, a dywedodd *nad oedd sail* i'r honiad hwnnw. Eglurodd Foden fod Plentyn A '*wedi camddehongli rhywbeth'*. Ni chafodd y datganiad hwn ei herio gan LADO ALl2 a oedd yn cadeirio'r cyfarfod, ac ni wnaed unrhyw ymholiadau dilynol, nac unrhyw ymdrech i groesgyfeirio'r datganiad â'r hyn yr oedd GPaTh ALl1 yn ei wybod am Foden.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Ar 4 Gorffennaf 2019, roedd neges e-bost oddi wrth Ymarferydd Gwasanaethau Plant ALl2 at eu Huwch Reolwr yn nodi pryderon a godwyd gan fam Plentyn A, sef bod ymddygiad Foden yn debyg i ymddygiad y cyflawnwr (o asiantaeth arall) y cyfeiriwyd ato yn y cyfarfodydd Rhan 4 uchod. Dywedodd y fam fod Plentyn A yn treulio'r rhan fwyaf o'i hamser, yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol, gyda Foden, a oedd fel pe bai'n or-gyfeillgar a gor-gyfarwydd. Dywedodd y fam y bu dau achlysur pan nad oedd Foden wedi dod â [Phlentyn A] adref tan ar ôl 9.30pm, oherwydd eu bod yn ôl pob sôn wedi bod mewn noson pobi cacennau, neu noson agored. Dywedodd y fam hefyd fod [Plentyn A] a Foden '*bron yn rhy gyfarwydd â'i gilydd, o ran y modd y maent yn cyfarch ei gilydd neu'n gwneud jôc o'u sefyllfa'*. Nid oedd y fam yn siŵr beth i'w wneud na sut i ddelio â'r mater.

Cytunodd Ymarferydd Gwasanaethau Plant ALl2 i siarad am hyn gyda'u rheolwr. Roedd ail Ymarferydd Gwasanaethau Plant ALl2 wedi cwrdd â Phlentyn A ym mhresenoldeb Foden hefyd, ac roeddent hwy wedi nodi bod y berthynas yn '*rhy anffurfiol'* hefyd a bod Foden wedi mynd â Phlentyn A i apwyntiadau meddygol heb yn wybod i'r naill riant na'r llall. Trafodwyd y ddau fater gyda'r Uwch Reolwr yn ALl2.

Ar 5 Gorffennaf 2019, rhannodd Uwch Reolwr yn ALl2 y wybodaeth gan Ymarferydd Gwasanaethau Plant ALl2 gydag Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO), a gadarnhaodd fod Pennaeth Addysg 1 ALl1 wedi siarad â Foden am ffiniau o'r blaen mewn cyd-destun tebyg. Yna rhannwyd atgyfeiriad HGC a oedd yn ymwneud â phryder mis Gorffennaf 2018 gydag ALl2, gan nodi mai Plentyn A oedd wedi codi'r pryder yn yr achos hwnnw, yn hytrach na bod yn destun y pryder; roedd Plentyn A wedi codi'r pryder gyda SCHGC i Ysgolion a atgyfeiriodd y mater at GPaTh ALl1 a HGC.

Yn dilyn yr atgyfeiriad gan ALl2, roedd llawer iawn o negeseuon e-bost yn ôl ac ymlaen yn ymwneud â'r achos, a dyma oedd casgliad Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO)

> *'Nid yw'r mater ar ei ben ei hun fel pe bai'n cyrraedd y trothwy ar gyfer Adran 4, ond mae'r ymddygiad yn fater o bylu ffiniau/gor-ddibyniaeth ac mae'n gadael Foden yn agored i feirniadaeth. Byddaf yn anfon neges at Bennaeth Addysg 1 ALl1 i holi lle mae'r broblem arni bellach'.*

Mae'r llythyr hwn yn cyfeirio at y pryderon a godwyd ym mis Ebrill 2019, a'r cais i Bennaeth Addysg 1 ALl1 drafod y mater gyda Foden.

Ar 8 Gorffennaf 2019, cynhaliodd HGC a GPaTh ALl1 Drafodaeth Strategaeth Adran 3, ac mae'r cofnod yn nodi bod HGC

> *'yn cytuno bod y wybodaeth a nodwyd yn codi pryderon am ymddygiad honedig Foden, o ran ei fod fel pe bai'n or-gyfarwydd â'r disgybl hwn, a bod ei gyswllt â hi fel pe bai'n mynd y tu hwnt i'r hyn a fyddai'n ddisgwyliedig yn ei rôl broffesiynol'*.

Cofnodwyd y canlynol:

> *'Nodwyd pryderon tebyg o'r blaen mewn perthynas â disgybl benywaidd arall, lle'r oedd Foden yn treulio llawer iawn o amser ar ei ben ei hun gyda'r disgybl, a oedd yn ddiamddiffyn, a bod Foden yn dal i ddweud ei fod yn cynnig cefnogaeth ychwanegol mewn rôl fugeiliol*, ac *nad oes unrhyw dystiolaeth o gamdriniaeth uniongyrchol tuag at y person ifanc, nid oes unrhyw gŵyn wedi'i gwneud'.*

Penderfynwyd nad oedd digon o wybodaeth ar gael i gyfiawnhau trafodaeth strategaeth ffurfiol nac ystyriaeth dan Ran 4 AWCPP 2008 (gweler atodiad 1) gan nad oedd honiad penodol am gamdriniaeth, ac y dylid atgyfeirio'r mater yn ôl at Add ALl1 er mwyn i gamau pellach gael eu cymryd o ran ffiniau proffesiynol ac addasrwydd ymddygiad o'r fath. Mae'r Adolygiad o'r farn nad oedd unrhyw gyfeiriad at y meini prawf addasrwydd a amlinellir yn AWCPP 2008 (gweler tudalennau 65 a 158).

Nid oes unrhyw dystiolaeth fod unrhyw un wedi siarad â Phlentyn A na'i mam i egluro'r pryderon a godwyd yn benodol yn yr atgyfeiriad hwn.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Ar 11 Gorffennaf 2019, gofynnodd ALl2 am drafodaeth bellach gyda Phennaeth Addysg 1 ALl1, a ddywedodd ei fod wedi cael *sgwrs rybuddio* gyda Foden o'r blaen. Dywedodd ALl2 wrth Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) y byddai cyfarfod wedi'i drefnu dan Ran 4 AWCPP 2008 pe bai Foden wedi bod yn weithiwr proffesiynol yn ALl2.

Ar 18 Gorffennaf 2019, mynegodd mam Plentyn A ei phryderon unwaith eto wrth Ymarferydd Gwasanaethau Plant ALl2. Lluniwyd adroddiad arall ac fe'i trafodwyd rhwng GPaTh ALl1, Pennaeth Addysg ALl2, Pennaeth Addysg 1 ALl1 a Phennaeth Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ALl2. Y penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod oedd na fyddai Ymarferydd Gwasanaethau Plant ALl2 yn cwrdd â Phlentyn A yn yr ysgol eto, a fyddai'n golygu na fyddai Foden yn bresennol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Ar y pryd, tybiwyd na fyddai Plentyn A yn dychwelyd i Ysgol Friars i fynd i'r 6ed dosbarth, ac y byddai'r pryder yn datrys ei hun os na fyddai hi yn yr ysgol. Roedd pryderon o ran yswiriant hefyd pe bai Ymarferydd Gwasanaethau Plant ALl2 yn mynychu cyfarfodydd yn yr ysgol yn ystod gwyliau'r haf, a gwnaed trefniadau i gwrdd yn rhywle arall. Er bod pryderon eisoes wedi'u codi am faint o amser roedd Foden yn ei dreulio gyda Phlentyn A y tu allan i'r ysgol, ni roddwyd ystyriaeth i'r posibilrwydd y byddai'n cwrdd â hi yn ystod gwyliau'r ysgol.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Ar 19 Gorffennaf 2019, gofynnodd y Rheolwr Gwasanaeth yn ALl2 i'r mater gael ei drafod gyda HGC, gyda'r bwriad o drefnu cyfarfod Rhan 4. Gwrthododd Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) y cais hwn i ddechrau, ond cafodd ei berswadio, yn groes i'r graen, 2 ddiwrnod yn ddiweddarach.

Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) wrth Uwch Reolwr yn ALl2:

> *'Felly, rydw i'n ystyried eich bod yn dweud eich bod chi o'r farn bod trothwy yma, a'ch bod yn credu y dylem gynnal Trafodaeth Strategaeth gyda'r Heddlu. Mi wna' i ofyn i'r Tîm Cyfeiriadau Plant wneud hynny yr wythnos nesaf. Yn fy marn i, cafwyd dwy drafodaeth yn barod am faterion yr oedd angen eu hystyried mewn Trafodaeth Strategaeth, ond nid oes unrhyw wybodaeth newydd yma sy'n awgrymu bod honiad neu wybodaeth newydd o bwys. Er fy mod i'n fodlon gofyn iddyn nhw wirio hyn a'r Heddlu o ran y trothwy, rydw i'n nodi bod y trothwy ar y materion blaenorol eisoes wedi cael ei ystyried er mwyn osgoi ailystyried gwybodaeth a brofwyd yn barod. Yn amlwg, os bydd camau gweithredu pellach, mi wna' i adael i chi wybod.*
>
> *Fe wnaethoch chi ofyn – ydych chi eisiau i mi ei atgyfeirio at [GPaTh ALI1]? Nac oes. Mi wna' i hynny i chi.*
>
> *Y rheswm pam fy mod i'n delio gyda'r mater fel hyn yw nad ydw i'n fodlon bod mewn sefyllfa lle mae Cyngor arall (ALl2) yn awgrymu ein bod yn siarad â'r Heddlu, a'n bod ninnau'n gwrthod y cais hwnnw. Pe bai adolygiad yn cael ei gynnal yn nes ymlaen, byddai'n amhosib amddiffyn ein sefyllfa, yn enwedig gan fod anghytuno rhyngoch chi a'r Adran Addysg am yr hyn rydych chi'n ei feddwl y dylent ei wneud am y mater yma. Nid wyf eisiau bod yn rhan o hynny'.*

Ni chynhaliwyd cyfarfodydd pellach rhwng Ymarferydd Gwasanaethau Plant ALl2 a Phlentyn A yn yr ysgol. Mewn cyfarfod ym mis Awst 2019, dywedodd Plentyn A nad oedd hi [Plentyn A] yn cael ei chosbi am lawer o bethau y byddai eraill yn cael eu cosbi amdanynt, oherwydd pa mor agos oedd hi at Foden.

Roedd yr NSPCC wedi bod yn gweithio mewn rôl gefnogol gyda Phlentyn A ers mis Ebrill 2019 hefyd. Ym mis Tachwedd 2019, mae nodiadau goruchwylio yn cofnodi bod rhywfaint o bryder wedi bod o ran ffiniau proffesiynol Foden wrth iddo ryngweithio â Phlentyn A. Roedd y rhain yn cynnwys ateb negeseuon e-bost Plentyn A y tu allan i oriau ysgol, y ffaith fod gan Blentyn A rif ffôn symudol Foden, a'r ffaith fod Plentyn A wedi ffonio ymarferydd NSPCC oddi ar y ffôn hwnnw ar un achlysur.

Ar 6 Chwefror 2020, dri mis ar ôl nodi'r pryderon blaenorol hyn mewn sesiynau goruchwylio, gwnaeth yr NSPCC atgyfeiriad Amddiffyn Plant mewn cysylltiad â'r

> *'pryderon uchod a phryderon eraill am ymddygiad Foden, a oedd yn dangos ffiniau proffesiynol amhriodol'.*

Anfonwyd yr atgyfeiriad at GPaTh ALI1 fel yr awdurdod cyflogi, ac ALl2 fel awdurdod cartref y plentyn. Fodd bynnag, ymateb Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) oedd

> *'roedd hwn i'w weld yn fater sy'n ymwneud â ffiniau proffesiynol yn hytrach na honiad o gamdriniaeth ac felly nid oedd yn cyd-fynd â diffiniad AWCPP 2008, ond*

*gyda lansiad disgwyliedig gweithdrefnau 2020* (gweler atodiad 1), *gallai gyd-fynd pan fydd y gweithdrefnau hynny'n dod yn weithredol'*.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Ym mis Medi 2019, rhoddodd Pennaeth 6ed Dosbarth Ysgol Friars wybod i UDD2 eu bod wedi cael cyfarwyddyd gan Foden i dderbyn Plentyn A yn ôl i'r ysgol i astudio Lefel A, yn groes i'r hyn a ddeallwyd ym mis Gorffennaf- na fyddai'n dychwelyd i'r Chweched. Roedd UDD2 yn bryderus am hyn a dywedodd mewn adroddiad a welwyd gan yr Adolygiad hwn ei fod wedi siarad wedyn â Phennaeth Addysg 1 ALI1 i fynegi ei bryder. Nid chadwyd cofnod ysgrifenedig o'r cyswllt hwn, ac nid oes gan Bennaeth Addysg 1 ALI1 unrhyw gof o hyn.

Ar 28 Chwefror 2020, cafodd pryderon tebyg am y berthynas rhwng Foden a Phlentyn A eu hatgyfeirio at GPaTh ALI1 gan SARC (gweler atodiad 1), gan nodi '*bod eu perthynas yn or-gyfarwydd'*, cyfeirio at ei oedran, a nodi bod *llawer o gellwair* rhyngddynt.

Ar 9 Mawrth 2020, yr ymateb gan Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) oedd '*bod AWCPP 2008 yn dal i fod yn weithredol, ac mai dyna'r sail dros beidio â chynnal cyfarfod Rhan 4'*. Nododd Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) fod yr NSPCC wedi tynnu eu hatgyfeiriad yn ôl, ond mae'r NSPCC yn gwadu hyn. Ar yr un diwrnod, ysgrifennodd Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) at Bennaeth Addysg 1 ALI1 gan ddweud

> *'Hoffwn nodi fy mod wedi codi'r un materion o'r blaen am yr un ymddygiad sy'n gysylltiedig â'r un disgybl'*.

Ymatebodd Pennaeth Addysg 1 ALI1 gan ddweud y byddai'n gofyn am gyngor gan AD a'i bod yn bosibl y byddai angen ffurfioli'r mater. Nid yw'r Adolygiad yn ymwybodol o unrhyw gofnodion a gadwyd i ddangos bod unrhyw gyngor pellach wedi'i geisio na'i ddarparu. Mae hyn yn dystiolaeth o gydnabyddiaeth fod **patrwm** o ymddygiad amhriodol yn parhau, er y siaradwyd â Foden.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd i adolygu ac ymyrryd

**Yn fuan wedyn, daeth cyfnod clo Covid, a gyda hyn, bron dros nos, gwelwyd y newid mwyaf mewn degawdau i'r model o ddarparu addysg.**

I'r rhan fwyaf o blant a theuluoedd, roedd cyfnod clo Covid yn golygu cael addysg gartref gyda chefnogaeth ar-lein. Fodd bynnag, caniatawyd i blant gweithwyr allweddol a phlant diamddiffyn fynd i'r ysgol. Llwyddodd Foden i gamfanteisio ar y sefyllfa hon. Anwybyddodd Foden Ganllawiau Covid y Llywodraeth, gan ddewis pa rai o Reoliadau Covid y byddai'n cadw atynt, a pha rai y byddai'n eu hanwybyddu. Er enghraifft, gwrthodwyd caniatâd i blentyn un gweithiwr allweddol fynychu'r ysgol, er gwaethaf ymdrechion y rhieni ar y cyd i berswadio'r ysgol eu bod wedi'u rhwymo gan ddyletswydd i dderbyn y plentyn hwn dan ganllawiau Covid y Llywodraeth.

Yn ogystal, ym mis Ebrill a mis Mai 2020, yn ystod Covid, bu UDRh Craidd 1 a 3 yn cyfnewid negeseuon WhatsApp am y ffaith fod Foden ar ei ben ei hun yn ei swyddfa gyda disgyblion benywaidd diamddiffyn, gan gyfeirio at Blentyn A a Phlentyn C yn ôl eu llythrennau blaen. Soniodd UDRh Craidd 1 a 3 am y risgiau yr oedd Foden yn eu cymryd wrth fod â'r disgyblion benywaidd yn ei swyddfa, a'r risg o dorri'r rheolau llym o ran pwy ddylai fod yn yr ysgol, cadw pellter cymdeithasol a threfniadau teithio. Roedd Foden yn herio pob un o'r rheolau hyn yn agored. Mae UDRh Craidd 1 yn cyfeirio'n ôl at y ffaith ei fod eisoes wedi siarad â Phennaeth Addysg 1 ALl1 am hyn a'i fod yn gyndyn o fynd â'r mater ymhellach eto. Ystyriwyd bod Foden yn '*bod yn wirion'* wrth gael disgyblion diamddiffyn yn ei ystafell. Yn y negeseuon, roedd UDRh Craidd 1 a 3 yn trafod bod rhaid i Foden fod wedi cysylltu'n uniongyrchol â'r disgybl er mwyn iddi wybod ei fod yn yr ysgol, ac efallai fod Foden yn yr ysgol yn arbennig i gwrdd â'r disgybl hwnnw. Mae UDRh Craidd 1 a 3 yn cytuno eu bod yn gobeithio nad ydyn nhw'n gywir [yn eu tybiaethau]. Ni wnaed unrhyw atgyfeiriad i GPaTh ALl1 ac mae hyn yn dangos effaith ataliol y profiad negyddol blaenorol o adrodd am eu pryderon. Canlyniad y profiad blaenorol hwn oedd bod y mater wedi cael ei drafod mewn cyfarfod Uwch Swyddogion ALl1, ond ni arweiniodd hyn at atgyfeiriad Amddiffyn Plant gan unrhyw un o'r rhai a oedd yn bresennol nac ychwaith at gais ffurfiol i UDRh1 ALl1 wneud atgyfeiriad eu hunain, er gwaethaf dyletswydd statudol yr UDRh Craidd i atgyfeirio pryderon o ran diogelu. Dangosir hyn yn y negeseuon WhatsApp rhwng aelodau UDRh Craidd Ysgol Friars.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Ym mis Mai 2020, cwynodd Plentyn S fod Foden yn rhy agos ati yn gorfforol, a'i fod wedi cyffwrdd â'i hwyneb a'i chofleidio. Siaradodd â dau athro am hyn, ac fe wnaethon nhw gynnig siarad â Foden. Nid oes cofnod i ddangos a wnaeth yr athrawon siarad ag ef ai peidio.

Ar 7 Hydref 2020, yn dilyn ymchwiliad Addasrwydd i Ymarfer CGA, cafwyd Foden yn euog o Gamymddwyn Proffesiynol a bu'n destun cyfnod ceryddu o ddwy flynedd. Rhoddwyd gwybod i ALl1, ac argymhellwyd yn ddiweddarach bod cyngor proffesiynol yn cael ei roi i Foden. Nid oes tystiolaeth fod hyn wedi digwydd.

Ar 18 Mai 2021, roedd digwyddiad lle honnwyd bod Foden wedi defnyddio arfer cyfyngol yn erbyn bachgen o CA3 a gafodd ei wahardd wedi hynny. Gwnaeth y rhiant gŵyn anffurfiol. Roedd y gŵyn hon yn mynegi teimlad cyffredinol bod y plentyn wedi cael ei gosbi droeon gan aelodau gwrywaidd yr UDRh am fân achosion o gamymddwyn, a oedd gyfystyr ag erledigaeth. Roedd hyn er gwaetha'r ffaith ei fod wedi cael adroddiadau academaidd da. Roedd y mater a arweiniodd at y gŵyn yn ymwneud â gweithred o atal corfforol gan Foden, UDRh Craidd 1 ac UDD2 oherwydd bod y disgybl gwrywaidd wedi rhegi a defnyddio ei ffôn heb awdurdod. Roedd staff wedi gwawdio'r disgybl er mwyn ysgogi ymateb a gafodd ei recordio ar gamerâu eu ffonau symudol personol. Foden oedd prif destun y gŵyn. Roedd wedi gafael yn y disgybl gwrywaidd yn dynn am ei wddf ac yna am ei frest. Mae datganiadau tyst gan blant yn dweud bod Plentyn M yn dweud nad oedd yn gallu anadlu (ffynhonnell: Adolygiad Pen Desg, nid yw'r Adolygwyr wedi gweld datganiadau'r tystion). Cafodd y gŵyn gychwynnol ei hanwybyddu. Pan holodd y rhiant am hyn, dywedwyd wrthynt am ffurfioli eu cwyn, ac fe wnaethant. Aeth wyth wythnos heibio heb ymateb gan yr ysgol. Ni ymatebodd yr ysgol i geisiadau gan y rhieni i weld fideos TCC nac i weld y ffurflen 'HS11 Defnyddio Grym Rhesymol' (gweler atodiad 1). Nid oedd y rhiant yn teimlo y

deallwyd natur ei chŵyn, ac roedd o'r farn nad oedd yr ataliaeth yn gymesur â'r drosedd. Nid oedd ymdrechion y rhiant i uwchgyfeirio'r gŵyn yn cydymffurfio â Pholisi Cwynion yr Ysgol. Arweiniodd hyn at eu diystyru fel achwynwr blinderus, penderfyniad a wnaed gyda chytundeb Cadeirydd y Llywodraethwyr a Llyw2, yn ôl pob tebyg. Nid yw'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth o hyn. Ni chafodd y mater erioed ei atgyfeirio at GPaTh ALl1.

Ym mis Mehefin 2021, penodwyd Foden yn Bennaeth Gweithredol/ Strategol yn Ysgol 2. Mae'r Adolygwyr wedi gweld tystiolaeth i ddangos bod Pennaeth Addysg 1 ALl1 wedi ymgynghori â phedwar o Uwch Swyddogion ALl1, y Prif Weithredwr (a benodwyd i'w rôl bythefnos ynghynt ac nad oedd yn gwybod unrhyw beth am yr hanes o honiadau na'r pryderon a oedd wedi cael eu codi yn ei erbyn, na'r dyfarniad euog gan CGA), Pennaeth y Gyfraith, Uwch Reolwr Adnoddau Addysg a'r Swyddog Addysg Uwchradd, i geisio eu barn am y penodiad hwn. Dywedwyd wrth yr Adolygwyr mai Arweinydd Uwchradd GwE (y Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion gynt) oedd wedi argymell Foden ar gyfer y rôl yn y lle cyntaf. Mae'r Adolygwyr wedi gweld neges e-bost sy'n cadarnhau bod y pedwar wedi ateb cyn i Bennaeth Addysg 1 ALl1 ymateb i Foden am y penodiad. Nid yw'r Adolygwyr wedi gweld yr ymatebion hyn nac wedi cael tystiolaeth ohonynt heblaw am y neges e-bost sy'n cadarnhau hyn, ac maent yn nodi diffyg diwydrwydd dyladwy a llwybr archwilio clir yn y broses benodi hon.

Cyflwynodd Foden ei delerau ei hun ar gyfer y swydd hon a'u cyflwyno i ALl1. Roedd y trefniant hwn yn golygu nad oedd yn atebol i Gorff Llywodraethu Ysgol 2, ond i Bennaeth Addysg 1 ALl1. Fel arfer, caiff Pennaeth ei reoli gan Gadeirydd y Llywodraethwyr. Nid yw'r Adolygwyr wedi gweld unrhyw dystiolaeth o gyfathrebu rhwng Cadeiryddion Llywodraethwyr y ddwy ysgol, na rhwng y Cadeiryddion a Phennaeth Addysg 1 ALl1 am sut y byddai Foden yn gweithredu ar draws y ddwy ysgol yn ymarferol.

Ar 27 Medi 2021, defnyddiodd Foden arferion cyfyngol ar Blentyn I, bachgen ifanc CA3 yn Ysgol Friars. Roedd gan Blentyn I gyflwr niwroddatblygiadol a oedd yn achosi anhawster iddo wrth ryngweithio'n gymdeithasol ac wrth gyfathrebu. Roedd Foden yn ymwybodol o hyn. Ni chyflwynodd y rhiant gŵyn i ddechrau am eu bod yn ofni y byddai Plentyn I yn cael ei wahardd yn barhaol, ond bu iddynt ofyn am gael gweld fideo TCC o'r digwyddiad. Cafodd Plentyn I ei ddiarddel o'r ysgol am gyfnod byr.

Penderfynodd yr ysgol i ddechrau nad oedd y mater (a ffilmiwyd gan UDRh Craidd 1, y DUDD, UDD2 ac uwch aelod staff arall ar eu ffonau symudol) yn fater diogelu, ac felly ni roddwyd gwybod i Add ALl1, fel sy'n ofynnol gyda digwyddiadau atal. Fodd bynnag, dros fis yn ddiweddarach, pan ddangosodd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion y fideo TCC i Bennaeth Addysg 1 ALl1 a'r Swyddog Addysg Ysgolion Uwchradd (a oedd wedi bod ar eu gwyliau), bu iddynt orchymyn y dylid gwneud atgyfeiriad ar unwaith. Ni chymerodd unrhyw aelod staff a welodd y digwyddiad nac unrhyw uwch swyddog y cyfeiriwyd y mater atynt unrhyw gamau yn erbyn Foden ar unrhyw adeg.

Cododd yr atgyfeiriad bryderon am natur yr atal, a oedd yn cynnwys gwthio'r plentyn i gadair, troi'r plentyn oddi ar ei gadair i'r llawr, a rhoi pwysau ar ei frest. Nid oedd y rhain yn dechnegau cydnabyddedig, ond ni chymerodd yr un o'r pedwar uwch aelod staff a oedd yno ac a welodd y digwyddiad unrhyw gamau i ymyrryd. Dewisodd rai ffilmio'r digwyddiad ar eu ffonau, hyd yn oed. Dilynwyd Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan, dan Ran 3, adran 47 a chynhaliwyd Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5.

Ar 13 Hydref 2021, datgelodd Plentyn G, disgybl yn Ysgol 2, fod Foden wedi gofyn ar 12 Hydref 2021 am gael ei gweld yn ei swyddfa. Pan wrthododd hi, aeth Foden i'w nôl o'i gwers gyntaf a mynd â hi i'w swyddfa ei hun.

Ar 15 Hydref 2021, anfonwyd dau atgyfeiriad at GPaTh ALI1, yn ymwneud â rhyngweithio Foden gyda Phlentyn G.

Gwnaeth Ysgol 2 atgyfeiriad at GPaTh ALI1 yn dilyn datgeliad Plentyn G a oedd yn dweud ei bod yn teimlo'n ofnus ac anghyfforddus yn dod i'r ysgol oherwydd Foden, bod ei ffrindiau wedi dangos erthyglau iddi ar y cyfryngau cymdeithasol am Foden a'u bod wedi ei hannog i weld bod beth yr oedd Foden yn ei wneud iddi yn anghywir. Bu iddynt ychwanegu fod Cymhorthydd Addysgu hefyd wedi dweud eu bod wedi clywed disgybl arall yn dweud y byddai Plentyn G yn cwyno am Foden oherwydd ei fod wedi cyffwrdd ei choes. Roedd Plentyn G wedi dangos negeseuon e-bost yr oedd Foden wedi'u hanfon ati yn hwyr y nos i Ddirprwy Bennaeth UDD Ysgol 2.

Ar yr un diwrnod, gwnaeth gweithiwr proffesiynol o asiantaeth Gofal Iechyd atgyfeiriad ar wahân, ond tebyg, at GPaTh ALI1. Roedd Plentyn G wedi datgelu wrth yr ymarferydd Gofal Iechyd hwn ei bod ofn cael ei gwahardd. Dywedodd wrth yr ymarferydd hefyd ei bod wedi siarad â Dirprwy Bennaeth UDD Ysgol 2, a oedd wedi lawrlwytho rhai o'r negeseuon e-bost oddi ar ei ffôn, ac a oedd hefyd wedi gwneud atgyfeiriad.

Ar 15 Hydref 2021, ysgrifennodd Pennaeth Addysg 1 ALI1 at Gadeirydd y Llywodraethwyr (Ysgol 1) i roi gwybod iddo am gamau posibl i'w cymryd o ran Foden. Nid yw'n glir beth oedd ysgogiad y llythyr hwnnw.

Ar 19 Hydref 2021, dirprwywyd cyfrifoldeb i Arweinydd Tîm GPaTh ALI1 gadeirio trafodaeth strategaeth, lle cytunwyd y byddai ymchwiliad adran 47 yn cael ei gynnal mewn perthynas â Phlentyn G ac y byddai cadarnhad yn cael ei geisio o'r negeseuon e-bost a anfonwyd gan Foden. Nodwyd nad oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod trosedd wedi'i chyflawni, ond bod yna broblemau o ran ffiniau. O ran cynnal Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5, nid oedd yn glir a oedd plentyn wedi cael ei gam-drin. Yn ystod yr ymchwiliad adran 47, dywedodd Plentyn G fod Foden yn ei dychryn hi, a'i bod wedi gofyn i Ddirprwy Bennaeth UDD Ysgol 2 roi gwybod i Foden nad oedd hi am ei weld.

Dywedodd Plentyn G fod Foden wedi ei chofleidio a disgrifiodd fod ei ddwy fraich amdani hi a bod ei breichiau ei hun yn hongian i lawr wrth ei hochr. Dywedodd Plentyn G fod Foden yn gwneud iddi deimlo'n annifyr. Dywedodd Plentyn G fod y cofleidiad wedi para tua 5-10 munud.

Canlyniad yr ymchwiliad adran 47 oedd bod sail i'r pryderon ond na farnwyd bod Plentyn G yn wynebu risg o niwed sylweddol. Ni roddwyd rheswm dros y penderfyniad hwn. Nid oedd Ysgol 2 wedi bod yn rhan o'r prosesau Amddiffyn Plant nac wedi cael gwybod amdanynt ar ôl iddynt wneud yr atgyfeiriad. Dywedwyd wrth Blentyn G gan ei gweithiwr cymdeithasol bod y negeseuon e-bost yn amhriodol ac yn amhroffesiynol, ac y dylai siarad â'i theulu amdanynt.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Ar 3 Tachwedd 2021, cynhaliodd GPaTh ALI1 Drafodaeth Strategaeth Broffesiynol Adran 5 mewn perthynas ag ymddygiad Foden gyda Phlentyn G, ac roedd cynrychiolwyr o'r Adran Addysg, y Gwasanaethau Cymdeithasol a HGC yn bresennol.

Ni chafodd Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol 2 na Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Friars eu gwahodd i'r cyfarfod, ac ni chysylltwyd â'r un o'r ddau gadeirydd amdano. Pe bai'r ddau Gadeirydd wedi bod yn rhan o'r trafodaethau am y pryderon hyn, efallai y byddai ystyriaeth fwy trylwyr wedi'i rhoi i gynnal asesiad i weld a oedd unrhyw risg drosglwyddadwy i ddisgyblion Ysgol Friars.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Roedd rhan o'r cyfarfod yn ymwneud â'r ffaith fod Foden wedi anfon negeseuon e-bost at Blentyn G yn hwyr y nos ac i'w chyfeiriad e-bost preifat. Nodwyd yn y cyfarfod mai dim ond oddi ar ffôn Plentyn G yr oedd gweithwyr proffesiynol wedi gweld negeseuon e-bost, gan nodi, '*os oedd y ddau yn cyfathrebu y tu allan i oriau ysgol, nid ydym yn siŵr pa mor bell mae modd mynd â'r mater; mae o yn ymateb i'w neges hi, nid fo sydd wedi dechrau'r sgwrs, ac os nad ydi pethau am fynd ymhellach, nid oes angen gweld y negeseuon e-bost'*. Cydnabuwyd bod ymddygiad Foden yn '*amhriodol'*. Roedd Uwch Reolwr Add2 ALI1 yn pryderu am hyn, yn enwedig gan mai dim ond ers tua mis roedd Foden wedi bod yn yr ysgol ar y pryd. Ni wnaed unrhyw ymdrech i fynd i'r afael â'r mater ymhellach i gael mynediad at gyfrifon e-bost Foden er bod hynny wedi cael ei ystyried; mae'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth i ddangos bod Foden wedi parhau i anfon negeseuon at Blentyn G ac mai ef oedd yn dechrau'r cyswllt ar brydiau.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Ar 11 Tachwedd 2021, roedd Foden yn y penawdau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac wedi achosi cryn ddadlau a thrafodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol am ei gynnig i wrthod darparu cinio ysgol i ddisgyblion os oedd dyled eu rhieni i'r ysgol yn fwy na 2c. Gorfodwyd ALI1 i gyflwyno ymddiheuriad cyhoeddus i rieni.

Ar 12 Tachwedd 2021, galwyd cyfarfod gyda Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ALI1, Pennaeth Addysg 1 ALI1, Gwasanaethau Corfforaethol ALI1 ac Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) i'w briffio am achos o ddefnyddio grym afresymol a oedd yn cael ei ymchwilio gan HGC a GPaTh ALI1 dan Adran 5. Roedd fideo o'r digwyddiad i'w weld yn awgrymu bod Foden wedi defnyddio grym gormodol a thechnegau anghydnabyddedig wrth ddelio â sefyllfa a oedd yn ymwneud â Phlentyn I, a oedd wedi cael diagnosis o ADY. Roedd HGC yn ystyried a oedd trosedd wedi'i chyflawni ac os nad oedd, a fyddai angen ystyried a oedd hwn yn ymddygiad proffesiynol derbyniol ai peidio. Nid oes unrhyw gyfeiriad at unrhyw asesiadau risg yn cael eu cytuno na'u cwblhau o ganlyniad i broses Adran 5.

Yn y cyfarfod ar 12 Tachwedd 2021, cytunwyd y dylid gwneud argymhelliad bod Cadeirydd y Llywodraethwyr yn atal Foden o'i swydd yn Ysgol Friars dros dro, fel gweithred niwtral wrth aros i ymchwiliad gael ei gynnal. Cydnabuwyd mai penderfyniad Cadeirydd y Llywodraethwyr fyddai hwn yn y pen draw. Nid oedd yr Uwch Swyddogion ALI1 (gweler uchod) yn y cyfarfod yn siŵr pam nad oedd hyn eisoes wedi cael ei ystyried dan ran 7 polisi

atal Llawlyfr y Llywodraethwyr (mae'r ddolen i Lawlyfr Llywodraethwyr ALI1 wedi cael ei dileu bellach). Yn dilyn trafodaeth rhwng Pennaeth Addysg 1 ALI1, HGC a Chadeirydd y Llywodraethwyr am atal Foden o'i swydd dros dro, cafodd Foden gyfarwyddyd i weithio gartref, yn hytrach na chael ei atal o'i swydd dros dro. Nid oedd Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol 2 yn rhan o'r drafodaeth hon, felly ni allai asesu'r risg drosglwyddadwy i ddisgyblion yn Ysgol 2.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Yn ystod yr ymchwiliad ffurfiol, cafwyd trafodaeth helaeth am fanylion lefel y grym a ddefnyddiwyd wrth atal. Dibynnwyd yn fawr ar farn HGC nad oedd trothwy troseddol wedi'i gyrraedd, ac ar ddatganiad Foden ei hun (a gefnogwyd yn gryf gan UDD2) bod y weithred o atal o fewn canllawiau'r llywodraeth a'i bod yn dilyn polisi'r ysgol. Nid oedd Cadeirydd y Llywodraethwyr wedi bod yn rhan o'r broses hon, er y dylai fod wedi bod yn rhan ohoni pe bai canllawiau cenedlaethol wedi cael eu dilyn[3].

Ar 12 Tachwedd 2021, arweiniodd digwyddiad pellach at atgyfeiriad, y tro hwn gan Blentyn J yn Ysgol 2. Honnodd fod ymosodiad wedi digwydd oherwydd bod Foden wedi defnyddio grym afresymol yn ei erbyn. Roedd Plentyn J wedi bod yn yr ystafell ddosbarth anghywir ac wedi gwrthod symud, gan aros yn ei sedd. Aeth Foden ati i godi Plentyn J gerfydd ei gesail a'i lusgo o'r gadair ac allan o'r ystafell. Ni ddatblygwyd y mater hwn dan Adran 3 ac ni ystyriwyd ei fod yn bodloni'r trothwy ar gyfer Adran 5. Penderfynwyd na fyddai unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd yn rhannol ar sail honiad Foden ei fod wedi dilyn canllawiau. Dywedodd Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO)

> *'Deallwn ei fod wedi gwneud hyn dan y gweithdrefnau grym rhesymol, a bod yr arferion a welir yn y fideo yn gyffredin o fewn ysgolion dan amgylchiadau o'r fath'.*

Mae'r Adolygwyr yn dadlau nad yw hyn yn wir, a'i fod yn torri egwyddorion sylfaenol canllawiau cenedlaethol, h.y. mai dim ond fel dewis olaf y dylid defnyddio arferion cyfyngol, ac y dylent fod yn gymesur â'r sefyllfa.

Ar 15 Tachwedd 2021, ymatebodd Foden i'r hysbysiad ei fod wedi bod yn destun Trafodaeth Strategaeth Adran 5. Cytunodd ei fod wedi rhoi ei gyfeiriad e-bost i Blentyn G, ond gwadodd ei fod erioed wedi ei chofleidio hi. Gwadodd Foden ei fod wedi anfon negeseuon e-bost at Blentyn G yn hwyr y nos, ond atododd gopi o neges e-bost a anfonodd Plentyn G ato ef. Dywedodd Foden na fyddai'n anfon negeseuon e-bost at Blentyn G eto. Derbyniwyd ei air, ac ni chafodd ei fonitro. Mae'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth sy'n dangos cyswllt sylweddol a pharhaus dros e-bost gyda Phlentyn G, weithiau'n hwyr y nos. Nodwyd y byddai *rhywun o Addysg* yn cysylltu â Foden i drafod materion proffesiynol a oedd yn gysylltiedig â'r atgyfeiriad, ac y byddai cyfle i Foden gywiro unrhyw achos o *gamddehongli* ei weithredoedd.

Ni chafodd Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol 2, na Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Friars eu gwahodd i'r Drafodaeth Strategaeth Broffesiynol Adran 5. Byddai wedi bod yn bosib cysylltu gyda'r ddau Gadeirydd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r pryderon a oedd yn

[3] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/ymyriad-diogel-ac-effeithiol-defnyddio-grym-rhesymol-a-chwilio-am-arfau.pdf

cael eu codi ac i helpu gyda chynnal asesiad o unrhyw risg drosglwyddadwy i ddisgyblion Ysgol Friars.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Ar 15 Tachwedd 2021, rhoddodd Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Friars gyfarwyddyd i Foden weithio gartref. Roedd y cyfarwyddyd hwn yn berthnasol i Ysgol Friars ac Ysgol 2 ac roedd yn ymateb i'r gŵyn am atal. Ni chafodd y materion atal a diogelu eu hystyried gyda'i gilydd.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Ar 18 Tachwedd 2021, adroddodd y BBC am honiadau Foden yn y wasg ei fod wedi cael '*ei daflu i ffau'r llewod'* gan ALI1, a oedd wedi rhoi cyfarwyddyd iddo wneud y newidiadau i'r polisi Cinio Ysgol. Roedd Foden yn honni ei fod wedi cael ei fygwth a'i ddifrïo o ganlyniad. Dywedwyd wrth yr Adolygiad hwn fod Foden wedi dweud wrth weithiwr proffesiynol arall ei fod '*wedi cael ei alw'n bedoffeil hyd yn oed'*, a phan ofynnwyd iddo pam hynny, dywedodd ei fod yn cael ei '*alw'n bob math o enwau'*.

Ar 21 Tachwedd 2021, cafodd Foden neges e-bost gan Gadeirydd y Llywodraethwyr i ddweud bod y cyfyngiadau wedi cael eu codi a'i fod yn rhydd i ddychwelyd i Ysgol Friars o 22 Tachwedd 2021 ymlaen. Ni ddychwelodd Foden i'r ysgol bryd hynny ac mae tystiolaeth i ddangos bod UDD2 wedi gofyn i Add1 ALI1 am gyngor o ran beth i'w ddweud wrth staff am absenoldeb parhaus Foden.

Ym mis Ionawr 2022, dychwelodd Foden i weithio yn y ddwy ysgol.

Ar 10 Ionawr 2022, cafwyd trafodaeth gyffredinol dros e-bost rhwng Foden a Phennaeth Addysg 1 ALI1 a chyfeiriwyd at ohebiaeth gyda thîm atgyfeiriadau ALI1 a'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu Plant mewn Addysg yn trafod a oedd angen [ail] atgyfeiriad mewn perthynas â Phlentyn G, Ysgol 2. Dywedodd Foden wrth Bennaeth Addysg 1 ALI1 nad oedd wedi dehongli cyngor a gafwyd gan y tîm atgyfeiriadau hwn fel bod angen Adran 5. Mae awgrym bod y Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu Plant mewn Addysg wedi awgrymu **bod** angen atgyfeiriad ac na ddylid dweud wrth Foden. Fel y digwyddodd hi, rhoddwyd gwybod wedyn i Foden am y pryderon, ond ni rannwyd unrhyw wybodaeth bellach am y broses na'r canlyniad gyda'r Adolygwyr, er bod ceisiadau wedi'u gwneud i gael gweld y wybodaeth honno.

Ar 11 Ionawr 2022, daeth Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 am achos atal Plentyn I i'r casgliad bod ymateb Foden yn anghymesur, er nad oedd trothwy troseddol wedi'i gyrraedd; dim ond fel y dewis olaf un y dylid defnyddio ymyrraeth gorfforol. Roedd yn glir o'r fideo na wnaed fawr ddim ymdrech i dawelu'r sefyllfa, gyda Foden yn pwyso'n awdurdodol dros y disgybl wrth iddo orwedd ar y llawr. Cafodd yr achos ei gau heb unrhyw gamau pellach, ond gwnaed argymhellion i Gadeirydd y Llywodraethwyr a'r Adran Addysg, gan gynnwys argymhelliad i adolygu'r Polisi Atal yng ngoleuni canllawiau newydd ac i adolygu'r defnydd o ffonau symudol gan staff i recordio digwyddiadau. Roedd cyfarfod

Rhan 3 adran 47 wedi dod i'r casgliad na chyrhaeddwyd y trothwy niwed sylweddol, er bod Plentyn I mewn cryn ofid.

Ar 14 Ionawr 2022, cysylltodd Ysgol 2 â Phennaeth Addysg 1 ALI1, ar ôl i Blentyn G roi gwybod bod Foden wedi cysylltu â hi eto, gan ofyn i'w gweld. Gofynnodd yr ysgol am adborth yn dilyn eu hatgyfeiriad cynharach i weld a oedd canlyniad eu pryderon am achos Plentyn G wedi dod i gasgliad, yn benodol o ran cyswllt pellach rhwng Foden a Phlentyn G, gan nad oeddent wedi cael gwybod am unrhyw rai o'r gweithdrefnau a ddilynwyd na chasgliad y mater*[4] ers gwneud yr atgyfeiriad ym mis Hydref 2021. Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd Tîm GPaTh ALI1 wrth Ysgol 2, trwy Add3 ALI1, nad oedd unrhyw beth i atal Foden rhag cwrdd â Phlentyn G, bod yr atgyfeiriad cynharach wedi dod i ben ac wedi dangos nad oedd angen camau gweithredu uniongyrchol, ond y dylid rhoi gwybod i'r Pennaeth Blwyddyn am gyfarfodydd. Cafodd y pwynt diwethaf yma ei gyfathrebu ar lafar, ond ymddengys nad oes unrhyw gofnod ysgrifenedig o'r cyngor. Dyfynnodd Arweinydd Tîm GPaTh ALI1 o gofnodion Trafodaeth Strategaeth Broffesiynol Adran 5 hefyd, [y dylid gofyn a yw] Plentyn G yn hapus i gwrdd â Foden (*Llais y Plentyn*).

Dywedodd Dirprwy Bennaeth UDD Ysgol 2 wrth yr Adolygwyr nad oedd Plentyn G yn hapus â'r syniad o orfod cwrdd â Foden, ac mai dyma'r rheswm pam yr oedd arweinwyr diogelu'r ysgol yn pryderu fod Foden wedi cysylltu â Phlentyn G eto i ofyn i gwrdd â hi.

Ar 1 Chwefror 2022, mewn trafodaeth dros e-bost rhwng Pennaeth Addysg 1 ALI1, Llyw3, Uwch Aelodau Staff Ysgol 2 ac Uwch Reolwr Add2 ALI1, dywedwyd bod Foden wedi defnyddio arferion cyfyngol eto, y tro hwn yn erbyn bachgen o CA4, Plentyn H, a oedd wedi dangos ymddygiad heriol. Mae'r Adolygwyr wedi gweld cyfeiriad mewn negeseuon e-bost at ffurflen HS11, sy'n dystiolaeth fod y digwyddiad hwn yn gysylltiedig ag achos arall o atal. Dyma'r pedwerydd achos mewn pedwar mis lle'r oedd Foden wedi defnyddio arferion cyfyngol. Er bod trafodaethau dilynol wedi cynnwys Cadeirydd y Llywodraethwyr, HGC, Add ALI1 a GPaTh ALI1, penderfynwyd mewn trafodaeth rhwng yr Adran Addysg a Chadeirydd y Llywodraethwyr y byddai'r ysgol yn delio â'r mater. Gwnaed y penderfyniad hwn cyn i unrhyw atgyfeiriad gael ei wneud at GPaTh ALI1 a'i asesu ganddynt. Gwnaed atgyfeiriad ar 2 Chwefror 2022. Daeth Trafodaeth Strategaeth Adran 5, gyda'r Adran Addysg yn bresennol, ac ymchwiliad HGC i ben ar 16 Chwefror. Cytunwyd na chyrhaeddwyd y trothwy i barhau ac nad oedd sail dros gymryd camau pellach dan weithdrefnau diogelu.

Erbyn mis Medi 2022, roedd DUDD2 wedi sylwi bod

> *'cynnydd graddol yn nifer y disgyblion benywaidd y byddai Foden yn eu gweld ar gyfer ei sesiynau cwnsela / therapi fel y'i gelwid'*.

Ym mis Hydref 2022, yn ystod cyfarfod a fynychwyd gan aelodau staff, gweithiwr cymdeithasol a gofalwr ar gyfer Plentyn F, codwyd pryderon am ba mor aml roedd Plentyn

[4] Mae'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth bod Pennaeth Addysg 1 ALI1 ac Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) wedi rhoi gwybod ar wahân i Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol 1 am ganlyniad atgyfeiriad Plentyn G (Ysgol 2), ac er y sonnir bod Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) hefyd wedi anfon llythyr at Llyw3, Ysgol 2, ni chafodd tystiolaeth o'r fath ei rhannu gyda'r Adolygiad ac nid ydynt ychwaith wedi gweld tystiolaeth o'r fath. Nid yw'r Adolygiad wedi gweld unrhyw dystiolaeth am ymateb i gais dros e-bost gan Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) i Uwch Reolwr Add2 ALI1, yn ddiweddarach Pennaeth Addysg 2, am gyfeiriad Llyw3.

F yn ymweld â Foden ar ei phen ei hun yn ei ystafell. Anfonodd aelod staff neges e-bost at Foden i'w gynghori i beidio â chael Plentyn F yn ei ystafell, a bod y gofalwr wedi gwneud sylw am hyn.

Ym mis Tachwedd 2022, honnir bod Foden wedi ymosod yn rhywiol ar oedolyn benywaidd ar dir yr ysgol.

Ym mis Ionawr 2023, dywedodd UDD2 fod aelodau eraill o staff Ysgol Friars wedi codi pryderon am Foden, yn enwedig aelodau eraill o'r UDRh Craidd. Dywedodd UDD2 ei fod wedi trafod y pryderon hyn gyda Foden bryd hynny, gan gynnwys dweud bod lleoliad ei swyddfa ar wahân, a bod 2 ddrws caeedig yn ei gwahanu o'r coridor. Ni wnaed atgyfeiriad at GPaTh ALI1.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Ar 27 Mawrth 2023, trafododd UDRh Craidd 1 a 3 ac UDD2 eu pryderon parhaus am Foden. Mae negeseuon cyfryngau cymdeithasol a welwyd gan yr Adolygwyr yn cynnwys y canlynol:

> *'Fe wnes i bicio i weld y pennaeth ynglŷn ag [aelod o'r staff]. Roedd rhaid i mi ofyn i gael ei weld o yn dy ystafell di gan fod [Plentyn D] yn ei ystafell o. Roedden nhw wrth y ffenest.*
> *Mae hi wedi mynd mewn i'w gar o rŵan, dw i'n cymryd ei fod o'n mynd â hi adref'.*

Ymateb

> *'Mae'n hollol hurt. Mae o'n treulio hanner ei amser yn yr ysgol bellach yn gafael llaw genethod bach. Mae mynd â nhw adref yn rhyfedd a dweud y lleiaf, yn amheus hyd yn oed. Pa foddhad mae o'n gael? Beth maen nhw'n ei wneud yn breifat?*
> *Dw i'n meddwl dy fod di, [UDD2] a fi angen cyfarfod oddi ar y safle'.*

Ymateb

> *'Dw i'n falch dy fod yn cytuno, dw i'n poeni'n arw am hyn'.*

Gofynnodd UDRh Craidd 1 i UDD2 atgyfeirio'r pryderon at GPaTh ALI1. Ni wnaed atgyfeiriad at GPaTh ALI1.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Ar 30 Mawrth 2023, nododd UDRh Craidd 1, UDD2 ac UDRh Craidd 3 mewn gohebiaeth fod disgyblion a staff yn gwneud sylwadau am Foden. Mae UDD2 yn cyfeirio at fod yn yr un sefyllfa ag yr oeddent ynddi pan wnaeth UDRh Craidd 1 ei adroddiad blaenorol ym mis Ebrill 2019. Mae UDRh Craidd yn nodi

> *'Mae digwyddiadau [mewn ysgol arall yng Ngogledd Cymru] wedi dangos bod pryder amddiffyn plant yn gallu golygu bod UDRh cyfan yn colli eu swyddi, felly tydi hyn ddim amdano fo'n unig bellach, bydd yn effeithio ar ein gyrfaoedd ni i gyd os nad ydym yn adrodd am ein pryder'.*

Ar 30 Mawrth 2023, gofynnodd UDRh Craidd 1 ac UDRh Craidd 3 i UDD2 wneud atgyfeiriad i GPaTh ALI1, ond unwaith eto, gwrthododd UDD2 wneud hynny, gan ffafrio rhoi cyfle arall i Foden. Yn hytrach, anfonodd UDD2 neges e-bost at Foden yn rhoi gwybod iddo am bryderon yr UDRh Craidd a gofyn iddo newid ei ddull o weld disgyblion benywaidd diamddiffyn ar eu pennau eu hunain yn ei ystafell. Ni wnaed atgyfeiriad at GPaTh ALI1.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Roedd cynnwys y neges e-bost a anfonwyd gan UDD2 ar 30 Mawrth 2023 wedi'i lunio yn nhermau'r risg ymddangosiadol i Foden. Ymhlith awgrymiadau tebyg eraill, mae'n cynnwys awgrymiadau y dylid cadw drws swyddfa Foden yn rhannol agored, dylid cadw'r goleuadau ymlaen a'r bleinds ar agor er mwyn i ddisgyblion gael eu gweld, ac na ddylid gweld disgyblion y tu allan i oriau ysgol. Daw'r neges e-bost i ben fel a ganlyn

> '*Oherwydd dy swydd di yn yr ysgol, dy brofiad a dy swyddogaeth ddiogelu, mae 'na lawer i'w ystyried. Dw i'n deall bod ychydig o'r hyn dw i wedi'i awgrymu'n creu gwrthdaro, ond, fy mhryder ydi, oherwydd nifer y disgyblion hynod ddiamddiffyn ac annibynadwy a dweud y lleiaf rwyt ti'n eu gweld, dy fod di'n rhoi dy hun mewn perygl drwy barhau i weld y disgyblion hyn ar eu pennau eu hunain fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Dw i hefyd yn poeni y gallai'r disgyblion nad wyt ti'n eu gweld ledaenu straeon am y genethod rwyt ti'n eu gweld. Beth os bydd un disgybl rwyt ti'n ei weld yn teimlo nad ydyn nhw'n cael sylw oherwydd bod rhywun arall yn cael ei weld yn amlach? Fyddan nhw'n lledaenu straeon oherwydd bod un eneth yn cael paneidiau o de ond dydyn nhw ddim?*'

Mae cynnwys y neges e-bost hon yn cadarnhau bod UDRh Craidd 1 a 3 ac UDD2 yn gwybod bod Foden yn gweld disgyblion benywaidd ar eu pennau eu hunain yn ei swyddfa, am gyfnodau estynedig, gyda'r drws ar gau, y goleuadau wedi'u diffodd a'r bleinds ar gau, ac na ddylai wneud hyn mwyach. Mae'r cyfeiriad at '*annibynadwy a dweud y lleiaf* ' wrth gyfeirio at rai o'r plant mwyaf diamddiffyn yn yr ysgol yn tanlinellu'r diwylliant roedd Foden wedi'i sefydlu yn yr ysgol.

Ymatebodd Foden gan gytuno i rai o'r awgrymiadau, ond nid pob un. Cynhaliodd yr UDRh Craidd gyfarfod personol â Foden i drafod y sefyllfa hefyd.

Ar 31 Mawrth 2023, anfonodd UDD2 neges e-bost at Foden i ddweud ei fod wedi bod yn anghyfforddus yn y cyfarfod [gyda'r pedwar ohonynt] a dywedodd:

> *'Y cyfan dw i eisiau ei wneud ydi gwneud yn siŵr dy fod di'n saff, bod dy enw da yn ddiogel a'n bod yn parhau i weithio gyda'n gilydd i wneud yr ysgol hon hyd yn oed yn fwy llwyddiannus.''*

Ni wnaed atgyfeiriad at GPaTh ALI1 gan yr un aelod o'r UDRh Craidd.
Ar 18 Ebrill 2023, mae neges arall ar y cyfryngau cymdeithasol yn dweud

> *'Mae [Plentyn D] wedi bod mewn yna efo fo bore 'ma, mae 'na un arall mewn yna rŵan'*.

Roedd hyn yn ei gwneud yn glir nad oedd ymddygiad Foden wedi newid o ganlyniad i'r ymweliad na'r neges e-bost a anfonodd UDRh Craidd ato.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd ac yn dystiolaeth o fethiant o ran dyletswydd broffesiynol i roi gwybod am bryderon diogelu

Ar 28 Ebrill, mae rhagor o ohebiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol rhwng aelodau'r UDRh Craidd. Roedd UDD2 wedi gweld Plentyn D yn swyddfa Foden eto, y tro hwn, ar ôl 5pm. Dywed

> '*pan gerddais i mewn roedd o wrth ei hymyl hi, yn sefyll yn erbyn y wal sy'n wynebu'r wal bellaf. Fe wnes i siarad efo fo amdani hi yno…… dw i'n poeni nad ydi o'n deall o gwbl. Mae o'n dweud mai dim ond trafod celf oedden nhw, ond dw i ddim yn deall pam eu bod angen bod yno tan 5pm. Mae'n gam yn ôl'.*

Ymateb

> *'……mae o wedi gweld nifer o enethod yn ystod amser gwersi yr wythnos yma hefyd, [Plentyn B] sawl gwaith, [Plentyn D]…..ac eraill. Mae 'na eneth newydd hefyd, [x]. Dw i ddim yn meddwl bod llawer wedi newid a dweud y gwir. Mae'n ymddangos nad ydi o'n gallu gollwng fynd a'u pasio ymlaen i'r gweithwyr proffesiynol'*

Ymateb gan UDD2

> *'……..dw i'n poeni os bydd cyhuddiad yn cael ei wneud bod gennym ni fwy a mwy o dystiolaeth yn ei erbyn yn hytrach nag yn ei amddiffyn'*

Ni wnaed atgyfeiriad at GPaTh ALI1 gan UDRh Craidd 1, UDD2 nac UDRh Craidd 3.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd ac yn dystiolaeth o fethiant o ran dyletswydd broffesiynol i roi gwybod am bryderon diogelu

Ym mis Mehefin 2023, cododd aelod staff Ysgol Friars bryderon yn fewnol gydag UDD2 ac UDRh Craidd 3 ynghylch rhyngweithio Foden gyda Phlentyn F.

Ar 28 Mehefin 2023, mae dogfennau a welwyd gan yr Adolygwyr yn dangos bod UDD2 wedi cwrdd â Foden yn gymdeithasol ac wedi siarad ag ef eto am y pryderon, yn enwedig o ran Plentyn D. Tynnodd UDD2 sylw at y ffaith fod Plentyn D yn ddiamddiffyn iawn a bod Foden yn treulio gormod o amser gyda hi, yn cynnal ei *sesiynau therapi*. Mae UDD2 yn cofio ei fod wedi dod yn fwyfwy ymwybodol bod Plentyn D yn mynd i swyddfa Foden yn rheolaidd. Dywedodd UDD2 hefyd ei fod yn ymwybodol ar y pryd fod Foden yn gweld Plentyn D y tu allan i oriau ysgol a'i fod yn *rhoi ei hun mewn perygl diangen*.

Disgrifiodd UDD2 Blentyn D fel

*‘y plentyn mwyaf diamddiffyn yn yr ysgol mae’n debyg*, gan nodi bod ei phresenoldeb ar y pryd *dros bob man a’i bod yn methu mwy na hanner ei gwersi oherwydd absenoldeb’*.

Dywedodd UDD2

*‘Roeddwn i’n falch pan ddaeth y flwyddyn academaidd i ben a dweud y gwir, fel nad oedd rhaid i mi boeni am y peth gan na fyddai Plentyn D yn mynd i swyddfa Foden dros wyliau’r haf o leiaf’.*

Unwaith eto, gwnaed rhagdybiaeth na allai Foden a disgybl ryngweithio â’i gilydd os nad oeddent yn yr ysgol. Roedd hyn er gwaetha’r ffaith fod UDD2 wedi dweud ei fod yn ymwybodol ar y pryd fod Foden yn gweld Plentyn D y tu allan i oriau ysgol.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd ac yn dystiolaeth o fethiant o ran dyletswydd broffesiynol i roi gwybod am bryderon diogelu

Ar 3 Gorffennaf 2023, cysylltodd gofalwr Plentyn F â thîm y tu allan i oriau swyddfa’r Gwasanaethau Plant am eu pryderon am Foden. Mae’r cofnodion yn nodi:

*‘Dywedodd y gofalwr ei fod wedi cael sgwrs gyda Phlentyn F, oedd wedi sôn am ei theimladau tuag at Foden’.* Dywedodd y gofalwr fod Plentyn F *yn cael cysur o sylw Foden a’i bod yn meddwl nad oedd neb arall yn cael yr un driniaeth. Byddai Foden yn gwneud paneidiau o de iddi ac yn anfon neges i’r ffreutur i baratoi bwyd iddi. Roedd gan Blentyn F nifer o luniau o Foden oddi ar Google ar ei ffôn’.*

Dywedodd y gofalwr fod Plentyn F wedi gwirioni â Foden.

Arweiniodd trafodaeth ymysg y tîm gwaith cymdeithasol at benderfyniad nad oedd y trothwy ar gyfer cyfarfod Adran 5 wedi’i gyrraedd, ond bod angen rhagor o wybodaeth ac y dylid cynnal cyfarfod rhwng Gwasanaethau Plant awdurdod cartref y plentyn ac Ysgol Friars.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Ar 7 Gorffennaf 2023, cynhaliwyd cyfarfod am Blentyn F yn Ysgol Friars gyda’i Gweithiwr Cymdeithasol a staff yr ysgol yn bresennol. Dywedwyd bod Plentyn F yn mynd i ystafell Foden yn rheolaidd a’i bod yn methu gwersi yn aml. Trefnodd y Gweithiwr Cymdeithasol i gwrdd â Phlentyn F ar wahân. Dywedwyd wrth y Gweithiwr Cymdeithasol fod staff wedi siarad â Foden o’r blaen ynghylch peidio â gweld Plentyn F ar ei phen ei hun.

Cyfarfu’r Gweithiwr Cymdeithasol gyda Phlentyn F yn yr ysgol, a datgelodd Plentyn F ei bod yn dal i fynd i weld Foden yn ei swyddfa. Cofnododd y Gweithiwr Cymdeithasol fod Plentyn F wedi cysylltu â hi dros y penwythnos, yn dilyn y cyfarfod yn yr ysgol, a chadarnhau nad oedd erioed wedi rhoi’r gorau i gwrdd â Foden. Dywedodd Plentyn F wrth y Gweithiwr Cymdeithasol fod Foden yn gwneud iddi deimlo’n arbennig, ei fod wedi dweud

ei bod hi'n '*bwysig iddo*', a bod ganddynt '*bethau yn gyffredin*'. Dywedodd Plentyn F ei bod yn cael triniaeth arbennig. Roedd Foden yn dda am wrando ac roedd ganddo amser iddi. Yna cyfarfu'r Gweithiwr Cymdeithasol â Phlentyn F eto a datgelodd fod Foden wedi ei chofleidio, a bod hyn wedi gwneud iddi deimlo'n anghyfforddus. Dywedodd Plentyn F nad oedd hi wedi rhoi caniatâd iddo ei chofleidio hi.

Ar 24 Gorffennaf 2023, gwnaeth y Gweithiwr Cymdeithasol atgyfeiriad at GPaTh ALl1 a oedd yn cynnwys y wybodaeth yr oedd Plentyn F wedi'i datgelu, a nodwyd yn yr atgyfeiriad y gofynnwyd i Foden beidio â threulio amser heb oruchwyliaeth gyda Phlentyn F o'r blaen, oherwydd pryderon am y berthynas broffesiynol.

Erbyn hyn, roedd gwyliau haf yr ysgol wedi dechrau. Roedd negeseuon e-bost yn parhau i gael eu cyfnewid rhwng GPaTh ALl1 ac awdurdod cartref y plentyn trwy gydol y cyfnod hwn, ac yn y pendraw, daeth Uwch Reolwyr yn rhan o'r mater.

Ar 25 Gorffennaf 2023, ysgrifennodd Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) ymateb i'r Gweithiwr Cymdeithasol yn gofyn am eglurhad o gynnwys yr atgyfeiriad. Roedd hwn i fod i gael ei anfon ymlaen ati, ond ni chafodd ei anfon tan 2 Awst 2023.

Ar 8 Awst 2023, cafodd yr atgyfeiriad ei ddiweddaru gan y Gweithiwr Cymdeithasol yn unol â chais GPaTh ALl1.  Mae ALl1 yn gwadu derbyn y neges e-bost bryd hynny. Mewn gohebiaeth barhaus rhwng Gwasanaethau Plant y ddau awdurdod, ar 18 Awst 2023 ac ar ôl hynny, codwyd yr angen i gynnal ymchwiliad adran 47 / Trafodaeth Strategaeth Adran 3/5 ynghylch Swydd Gyfrifol mewn perthynas â Phlentyn F.

Parhaodd gohebiaeth dros e-bost rhwng y ddau Awdurdod trwy gydol gwyliau'r haf – a'r gred yn ôl pob tebyg oedd, oherwydd ei bod hi'n wyliau, y byddai'r plentyn yn ddiogel.
Ar 23 Awst, ymatebodd Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) i'r Awdurdod arall, yn egluro:

*'pe baent yn galw Cyfarfod Adran 5 a'u bod yn anfodlon gyda [*lefel *eglurder] y wybodaeth [yn yr atgyfeiriad], byddai'n galw ar Reolwr Tîm yr awdurdod hwnnw hefyd gan ei fod eisiau osgoi tensiwn rhwng Awdurdodau os yn bosib.'*

Ar 5 Medi 2023, **naw** wythnos ar ôl i bryderon gwreiddiol gael eu hatgyfeirio ac i GPaTh ALl1 gael eu hysbysu y tro cyntaf am bryderon a oedd yn ymwneud â Phlentyn F, roedd rhyngweithio Foden â Phlentyn F yn dal i gael ei drafod ac nid oedd penderfyniad wedi'i wneud am gynnal Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 neu beidio.

Nid oedd diogelwch Plentyn F dros yr haf wedi cael ystyriaeth. Ar ôl hyn, daeth i'r amlwg fod Foden wedi parhau i gam-drin Plentyn D trwy gydol gwyliau'r haf.

Ar 6 Medi 2023, ar ddechrau'r diwrnod ysgol, datgelodd Plentyn D ei bod wedi bod mewn *perthynas ramantus* gyda Foden a dangosodd negeseuon WhatsApp a lluniau i aelod o'r tîm bugeiliol a'r DUDD. Roedd y negeseuon o natur rywiol ac roeddent yn dangos bod trosedd wedi'i chyflawni yn ôl pob tebyg. Gwelwyd bod negeseuon ar ffôn Plentyn D wedi dod o rif ffôn Foden. Am tua 10:45, ffoniodd y DUDD GPaTh ALl1 a disgrifio cynnwys y negeseuon. Gofynnwyd i DUDD anfon y wybodaeth berthnasol i gyd atynt ar unwaith. Galwyd Trafodaethau Strategaeth Adran 3 ac Adran 5 ac adran 47 ar y cyd yn dilyn hyn er mwyn cydlynu'r materion a chytuno ar ffordd ymlaen.  Dim ond ar ôl i GPaTh ALl1 gael tystiolaeth ddigidol am 11:55 y cychwynnodd y cyfarfodydd hyn.

| |
|---|
| Er nad yw'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth o hyn, deallir bod Pennaeth Addysg 1 ALl1 wedi cael galwad ffôn gan UDRh ALl1 yn ei hysbysu am y datgeliad cyn i'r GPaTh gael gwybod.<br><br>Mae'r Adolygiad wedi cael gwybod gan y DUDD a Phlentyn D, fod Plentyn D wedi cael ei chuddio mewn cwpwrdd yn yr ysgol tra'r oedd yr atgyfeiriad yn cael ei wneud. Roedd Foden yn dal i fod ar dir yr ysgol a cheisiodd gael mynediad ati. Am 11:53, hysbysodd GPaTh ALl1 Uned Atgyfeirio Ganolog (UAG) HGC bod yr atgyfeiriad wedi'i dderbyn. Am 12:21, cysylltodd y DUDD â HGC hefyd.  Am tua 14:30, cafodd Foden ei arestio.<br><br>Ar 8 Medi 2023, cynhaliwyd Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 er mwyn sicrhau bod prosesau perthnasol wedi cael eu dilyn ('*dod â materion mewn i broses'*).  Ni fynychodd Cadeirydd y Llywodraethwyr y cyfarfod oherwydd ei fod yn teimlo bod y mater hwn yn achosi gwrthdaro rhwng ei rôl fel Cadeirydd y Llywodraethwyr a'i swydd broffesiynol yn HGC. Enwebodd Cadeirydd y Llywodraethwyr UDD2 i fynychu'r cyfarfod Adran 5 yn ei le. Nid oedd hyn yn briodol oherwydd nid oedd gan UDD2 unrhyw awdurdod i wneud penderfyniadau am Foden, a dylid bod wedi gofyn i Llyw2 neu aelod arall o'r Corff Llywodraethu fynychu. Fodd bynnag, derbyniodd Cadeirydd y cyfarfod benderfyniad Cadeirydd y Llywodraethwyr. Roedd Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) ac UDD2 yn bresennol.<br><br>Yn y cyfarfod Adran 5 ar 8 Medi 2023, ni chyfeiriodd y Cadeirydd at unrhyw un o'r Cyfarfodydd Strategaeth Proffesiynol Adran 5 blaenorol a gynhaliwyd am Foden mewn perthynas â phryderon a godwyd naill ai am ryngweithio Foden gyda disgyblion benywaidd diamddiffyn, neu am ddefnydd Foden o rym gyda disgyblion gwrywaidd. Ni chafwyd unrhyw drafodaeth am hyn chwaith. Ni chyfeiriwyd at y cais a oedd yn dal i aros sylw (a oedd yn mynd rhagddo ers dechrau mis Gorffennaf 2023) y dylid cynnal Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 ynglŷn â rhyngweithio Foden gyda Phlentyn F. Roedd nifer o swyddogion a oedd yn y cyfarfod ar 8 Medi wedi mynychu o leiaf rhai o'r cyfarfodydd Adran 5 hyn, ac felly byddent wedi gwybod am gyd-destun y cyfarfodydd a bod ymddygiad Foden wedi bod yn destun pryder ers nifer o flynyddoedd.<br><br>Ar 10 Medi 2023 (dydd Sul), cysylltodd UDRh Craidd 3 â Phennaeth Addysg 1 ALl1 dros y ffôn. Datgelodd UDRh Craidd 3 fod UDRh Craidd 1 a 3 ac UDD2 wedi trafod y pryderon yr oeddent yn eu rhannu am Foden ar ddiwedd tymor y gwanwyn (gweler Mawrth 2023 uchod). Er na ddatgelodd UDRh 3 y wybodaeth hon wrth Bennaeth Addysg 1 ALl1 yn y sgwrs hon, mae'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth yn dangos bod yr UDRh Craidd wedi bod yn trafod pryderon tebyg ymysg ei gilydd trwy gydol y cyfnod ers 2019, pan gysylltodd UDRh 1 â Phennaeth Addysg 1 ALl1 y tro cyntaf gyda phryderon am Foden, heb geisio cyngor na gwneud atgyfeiriad.<br><br>O ganlyniad i'r sgwrs hon, anfonodd Pennaeth Addysg 1 ALl1 neges WhatsApp frys i'r Prif Weithredwr: |
| **WhatsApp:**<br><br>**Pennaeth Addysg ALl1 at Brif Weithredwr ALl1**<br><br>10.9.23, 15:53: |

Helo XX X, dw i newydd gael galwad ffôn gan UDRh Craidd 3 mewn perthynas â Phennaeth Friars. Galwad sy'n codi pryder sylweddol i mi am y diwylliant, y digwyddiad hwn ac ymddygiad yr UDRh. Mae croeso i ti fy ffonio os hoffet ti gael gwybod mwy cyn yfory.

**Ymatebodd Prif Weithredwr ALI1**:

Mae angen [i ti] ddweud wrthyn nhw bod angen rhannu unrhyw wybodaeth am yr achos gyda'r tîm atgyfeiriadau neu'r Heddlu.

Nid yw tîm yr AYP wedi gallu canfod p'un a alwodd Pennaeth Addysg ALI1 ei hun gyfarfod brys y diwrnod canlynol (11 Medi), neu a oedd cyfarfod Uwch Swyddogion eisoes wedi'i drefnu ar gyfer y diwrnod hwnnw. Roedd y Cyf Stat GC yn bresennol ac yn cymryd nodiadau, ond nid oes unrhyw gofnodion ffurfiol ar gyfer y cyfarfod.

Cynhaliwyd y cyfarfod ar 11 Medi 2023, ac yn bresennol roedd Cyf Stat GC ALI1, Prif Weithredwr ALI1, Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO), Swyddog Cyfreithiol ALI1, Pennaeth GPaTh ALI1, Pennaeth Addysg 1 ALI1, ac Uwch Reolwr Add2 ALI1 (yn ddiweddarach Pennaeth Addysg 2 ALI1). Roedd pedwar o'r Swyddogion hyn wedi bod yn y cyfarfod a gafodd ei alw yn 2019 i drafod pryderon UDRh 1 am Foden.

Yn y cyfarfod hwn, adroddodd Pennaeth Addysg 1 ALI1 am gynnwys yr alwad a gafodd gan UDRh Craidd 3 y diwrnod blaenorol, gan gynnwys manylion y datgeliad bod UDRh Craidd 1 a 3 ac UDD2 wedi rhannu eu pryderon difrifol ymysg ei gilydd am gyfarfodydd niferus Foden gyda disgyblion benywaidd diamddiffyn ar eu pennau eu hunain yn ei swyddfa. Dywedwyd wrth y cyfarfod, yn hytrach na rhoi gwybod i ALI1 am y pryderon hyn, yn unol â chais UDRh 1 a 3, bod UDD2 wedi anfon neges e-bost at Foden

> *'i'w rybuddio y gallai fod honiad maleisus ar ei ffordd ac y byddai angen iddo fod yn barod am hynny'*

a hefyd

> *'bod [UDRh Craidd 1 a 3 ac UDD2] wedi penderfynu cwrdd â Foden i'w rybuddio, heb gysylltu â'r Cyngor, y Llywodraethwyr nac unrhyw un arall'*.

Dywedodd Swyddogion yn y cyfarfod nad oedd UDRh Craidd 1 a 3 nac UDD2 wedi dilyn gweithdrefnau diogelu o ran rhoi gwybod i ALI1 am bryderon diogelu, ond ni chydnabuwyd eu bod hefyd yn benodol wedi torri Adran 130 *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* sy'n ei gwneud yn ofynnol i *bartneriaid perthnasol*, er enghraifft athrawon, roi gwybod i'r awdurdod lleol os oes ganddynt achos rhesymol dros amau bod plentyn yn wynebu risg o niwed. Mae hyn yn cynnwys achosion o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed.

Ni wnaeth Swyddogion chwaith gyfeirio at ganllawiau *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022*, sy'n ei gwneud yn glir na ddylai ysgolion a cholegau wneud eu gwaith ymchwil eu hunain. Mae *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022* yn dweud bod rhaid i ysgolion a cholegau roi gwybod i'r Awdurdod Lleol neu'r Heddlu os bydd y pryder yn ymwneud ag aelod staff. Yn ei dro, roedd hyn yn golygu bod UDRh Craidd 1 a 3 ac UDD2 wedi torri'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer

Proffesiynol i rai sydd wedi cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA), sef corff rheoleiddio'r gweithlu addysg.

Er y nodwyd yn y cyfarfod

> *'y byddai felly'n briodol peidio â gadael i'r un o'r tri swyddog mewnol hyn ddod yn Bennaeth Dros Dro'*,

ni chafwyd trafodaeth rhwng y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ar 11 Medi 2023 fod methiant unrhyw un o blith UDRh Craidd 1 a 3 ac UDD2, neu bob un ohonynt (gyda'i gilydd, neu ar wahân) i roi gwybod i GPaTh ALI1 am eu pryderon diogelu sylweddol am Foden wedi golygu bod disgyblion yn wynebu risg o gael eu cam-drin gan Foden, a hefyd bod hyn wedi bwrw amheuaeth ar eu haddasrwydd i weithio gyda phlant.

Dylai methiant bob un o'r tri i roi gwybod am eu pryderon fod wedi arwain at roi ystyriaeth i addasrwydd pob un o'r unigolion hyn i weithio gyda phlant dan Gyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5, yn enwedig o ystyried bod y tri yn uwch arweinwyr yr ysgol, a bod un ohonynt yn Unigolyn Diogelu Dynodedig. Gallai cynnal cyfarfodydd o'r fath fod wedi arwain at atgyfeiriadau i CGA am dorri safonau proffesiynol a methu â diogelu plant, gyda chamau disgyblu dilynol.

Mae'r Adolygwyr wedi gweld tystiolaeth yn dangos bod Prif Weithredwr ALI1 a Cyf Stat GC ALI1, ar ôl cyfarfod 11 Medi, wedi ceisio sicrwydd gan Drefn Reoli Aur HGC nad oedd yr UDRh Craidd yn gysylltiedig yn droseddol â Foden nac yn unigolion o ddiddordeb i'r ymchwiliad troseddol. Rhoddodd HGC sicrwydd y byddai gweithdrefnau Adran 5 yn cael eu galw i rym pe bai gweithgarwch troseddol yn cael ei amau neu wedi cael ei ganfod.

Un thema sy'n codi droeon yn yr Adolygiad hwn yw diffyg ystyriaeth o'r 'addasrwydd i weithio gyda phlant', wrth wneud penderfyniadau am alw proses Adran 5 i rym, ac mewn unrhyw Gyfarfodydd Strategaeth Proffesiynol Adran 5 dilynol.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn awgrymu y dylai'r gweithdrefnau gael eu galw i rym pan fo unigolyn

- Wedi mynd yn groes neu'n parhau i fynd yn groes i Bolisi a Gweithdrefnau Diogelu'r asiantaeth

Ac mae'n mynd ymlaen i ddweud y dylai gweithwyr proffesiynol

- Ystyried a fu unrhyw gwestiynu o ran addasrwydd yr oedolyn i barhau i weithio gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg yn ei swydd bresennol
- Ystyried a oes angen edrych eto ar unrhyw faterion

Ar 14 Medi 2023, cynhaliwyd cyfarfod eithriadol y Corff Llywodraethu gydag Uwch Swyddogion ALI1. Roedd Cyf Stat GC ALI1 a Phennaeth Addysg 1 ALI1 yn bresennol.

Er y bu i Uwch Swyddogion ALI1 gydnabod na ddylai'r un o'r UDRh Craidd fod yn Bennaeth Dros Dro yn Ysgol Friars, ac mae'r Adolygiad ar ddeall bod y Corff Llywodraethu wedi cael gwybod am hyn, parhaodd UDRh Craidd 1 a 3 ac UDD2 yn eu swyddi arweinyddiaeth uwch, gan gynnwys rôl UDD Ysgol Friars, am flwyddyn academaidd arall.

Nid yw’r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth o sut y daethpwyd i’r penderfyniad y dylai’r UDRh Craidd gan gynnwys yr UDD aros yn eu swyddi. Roedd hyn yn golygu bod disgyblion yn Ysgol Friars yn ddiamddiffyn.

**Ymarfer a dysgu sefydliadol**

Nodwch bob pwynt dysgu unigol yn sgil yr achos hwn (gan gynnwys amlygu ymarfer effeithiol) gan roi amlinelliad bras o'r amgylchiadau perthnasol.

# Themâu ac Argymhellion

## Foden yn cam-drin disgyblion benywaidd yn rhywiol

Comisiynwyd yr Adolygiad hwn mewn ymateb i droseddau rhywiol Foden yn erbyn disgyblion benywaidd yn yr ysgol lle bu'n Bennaeth am sawl degawd. Yn ystod yr adolygiad, daeth yn amlwg fod Foden yn ysglyfaethwr soffistigedig a manteisgar a ddatblygodd ei strategaeth ar gyfer troseddu'n rhywiol heb i neb sylwi dros gyfnod hir o amser. Roedd Foden wedi meithrin a mireinio amgylchedd lle, drwy normaleiddio ei ymddygiad a thrwy gamddefnyddio ei bŵer a'i swydd gyfrifol, llwyddodd i'w wneud ei hun yn amhosibl ei herio ac felly'n rhydd i dramgwyddo yn ngolwg pawb.

Roedd yr UDRh Craidd wedi trafod pryderon yn agored cyn belled yn ôl â Mawrth 2019, ac erbyn Ionawr 2022 nododd UDD2 fod Foden yn cael cyswllt cynyddol aml gyda disgyblion benywaidd diamddiffyn yn ei swyddfa, a bod staff a disgyblion yn sôn am hyn. Ym mis Mawrth 2023 mynegwyd pryderon unwaith eto ymysg yr UDRh Craidd, a chafodd Foden rybudd ynghylch ei ymddygiad. Er gwaethaf hyn, ym mis Mehefin 2023 roedd yn hysbys bod Foden yn gweld *y ferch fwyaf ddiamddiffyn yn yr ysgol* yn ei swyddfa a thu allan i'r ysgol, ond ni wnaethpwyd unrhyw ymyriad.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

## Foden yn cam-drin disgyblion gwrywaidd yn gorfforol

Fodd bynnag, er nad yw o bell ffordd yn lleihau graddfa, hyd nac effaith cam-driniaeth rywiol Foden o ddisgyblion benywaidd diamddiffyn, ail thema sy'n dod i'r amlwg o'r Adolygiad hwn yw'r dystiolaeth o gamddefnyddio pŵer a swydd gyfrifol yn sylweddol ac yn ailadroddus yn ymyriadau corfforol Foden gyda disgyblion gwrywaidd ifanc. Roedd defnydd cyhoeddus dro ar ôl tro gan Foden o brosesau cyfyngol a dulliau anghonfensiynol o atal wrth *reoli* ymddygiad disgyblion gwrywaidd yn yr ysgol yn destun pryder arbennig. Fel gyda'i droseddu rhywiol, cafodd gweithredoedd Foden yn hyn o beth eu normaleiddio a'u cyflawni yng ngolwg pawb.

Nid yw cam-drin plant yn rhywiol ac yn gorfforol yn ddi-gyswllt, ac o'r hyn sy'n hysbys amdanynt, efallai bod cymhelliant rhywiol a sadistig i'r ddau. Ym mhob sefyllfa, camddefnyddiodd Foden ei bŵer a'i swydd gyfrifol mewn perthynas â phlant, ar y cyd â chyflyru a dylanwadu ar oedolion eraill - yn weithwyr proffesiynol ac yn deuluoedd - a allai fel arall fod wedi amddiffyn y plant. Normaleiddiodd Foden ei weithredoedd a thrwy hynny perswadiodd y rhai o'i gwmpas i gredu bod ei ymyriadau wrth ddarparu

*cwnsela* 1:1 i ddisgyblion benywaidd a *rheoli ymddygiad* disgyblion gwrywaidd yn rhesymol, yn gymesur ac yn gyfiawn. Mae gweithredoedd Foden yn ddiamau wedi arwain at effaith hirdymor ar y rhai a oedd yn destun ei ymddygiad ac wedi dod yn norm diwylliannol i rai o'i staff.

Mae'r Argymhellion a gyflwynir yn yr Adolygiad hwn yn ddibynnol ar ei gilydd ac ni ellir eu hystyried ar wahân. Mae angen ymateb strategol ac integredig gan bob asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, na fydd y math hwn o gam-drin yn cael ei ddioddef yn y dyfodol.

## Thema 1: Effaith Statws, Enw Da a Diwylliant

Am bron i dri degawd, Foden oedd Pennaeth yr ysgol fwyaf â'r proffil uchaf yn ALl1. Yn ystod yr amser hwn, roedd Foden wedi pellhau ei hun ac Ysgol Friars yn fwriadol ac yn strategol oddi wrth oruchwyliaeth yr Awdurdod Lleol trwy ddatblygu ei Weithdrefnau Gweithredu Safonol ei hun. Addasodd Foden hefyd bolisïau diogelu enghreifftiol yr Awdurdod Lleol at ei ddiben ei hun a chontractiodd drefniadau AD allan i ddarparwr masnachol. Datblygodd Foden hefyd system ddiogelu wedi'i staffio yn fwriadol gan staff dibrofiad a gwan a oedd yn teimlo nad oeddent yn gallu ei herio neu eu bod yn anghymwys i wneud hynny.

Yn ogystal â bod yn Bennaeth, roedd gan Foden statws yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan ymddangos yn y cyfryngau lleol a chenedlaethol. Ef oedd y person y byddai'r BBC yn mynd ato i roi sylwadau am faterion dadleuol yn ymwneud ag addysg. Roedd Foden hefyd yn ymwneud â materion polisi cenedlaethol, gan siarad yn y Senedd ar faterion addysg.

Aeth Foden ati i ymgyfarwyddo â systemau gweithredu asiantaethau statudol a systemau cefnogi diogelu, ac roedd yn amlwg yn ei awch am wybodaeth y gallai ei defnyddio wedyn i rwystro unrhyw un a geisiodd ei herio. Er enghraifft, mynychodd y SARC (gweler atodiad 1) i ddysgu am ei waith a cheisiodd wybodaeth am weithrediad Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Yn ogystal, canfuwyd bod gan Foden wybodaeth bron yn wyddoniadurol am ganllawiau statudol ym meysydd addysg, undebau a chyfraith cyflogaeth. Adroddwyd hefyd fod Foden wedi bod yn hapus i ffugio neu ddweud celwydd mewn ffordd rymus a *gwybodus* pan oedd yn teimlo'r angen, gan roi'r argraff o ddilysrwydd. Fe'i disgrifiwyd fel rhywun a oedd yn darlledu gwybodaeth *fel pe bai'n feseia*.

Nid oedd Foden yn ofni her na chraffu.

### Diwylliant

Roedd gan Foden enw fel disgyblwr a oedd yn dychryn ac yn bwlio disgyblion, staff a rhieni, ac a fyddai'n targedu ac yn erlid unigolion pe byddent yn ei groesi. Roedd Foden yn meithrin hinsawdd o ofn fel un o'i strategaethau dylanwadu; roedd yn ddidostur ac yn ddialgar. Roedd yr ofn hwn mor dreiddiol nes i gyfranwyr i'r Adolygiad hwn fynegi eu pryder y byddai Foden yn eu herlid pan fyddai'n cael ei ryddhau o'r

carchar - os nad ynghynt - naill ai'n uniongyrchol neu drwy rwydwaith canfyddedig o gynghreiriaid/ cefnogwyr. Parhaodd cyfranwyr i ofni am eu swyddi, eu hiechyd meddwl a'u lles cyffredinol.

Anogodd Foden ddiwylliant o gasineb at ferched ymysg staff, gan drin staff gwrywaidd a benywaidd yn wahanol. Cymerodd ran yn agored mewn sgyrsiau â chynnwys rhywiol amlwg, yn aml ar draul staff benywaidd, a gwnaeth sylwadau o natur rywiol i unigolion a grwpiau yn y gwaith ac mewn digwyddiadau cymdeithasol. Achosodd Foden anghydfod yn ei UDRh ehangach trwy chwarae aelodau yn erbyn ei gilydd, unwaith eto'n aml ar draul ei staff benywaidd.

Mae'r Adolygwyr wedi gweld tystiolaeth bod y diwylliant hwn o sgwrsio rhywiol ac ensynio wedi'i wreiddio a'i normaleiddio cymaint fel bod UDD2 yn cofio, pan gysylltodd UDRh Craidd 1 â UDD2 ar 6 Medi 2023 i'w hysbysu bod Foden wedi cael ei arestio, ei fod wedi

> *‘meddwl i ddechrau mai rhyw fath o jôc amhriodol oedd o’.*

Ni roddwyd yr un cyfleoedd i ferched â dynion, ac yn aml defnyddiodd Foden ei bŵer dros drefniadau cytundebol i ddychryn neu reoli ei staff. Er enghraifft, roedd yn cynnig contractau tymor byr yn unig i weithwyr gyda'r bygythiad ymhlyg neu benodol na fyddent yn cael eu hadnewyddu, ac yn newid cyfrifoldebau gweithwyr o fewn rolau heb ymgynghori na chytundeb.

Roedd Foden yn hyrwyddo ddiffyg ymddiriedaeth mewn plant, ac aeth ati i feithrin y gred bod plant yn anonest ac y byddent yn debygol o wneud honiadau ffug. Ar yr un pryd, sicrhaodd Foden aelodau staff y byddai'n *eu cefnogi* pe *bai* honiad yn cael ei wneud yn eu herbyn gan blentyn, a dosbarthodd negeseuon i staff a oedd yn enwi ac yn tanseilio’n fwriadol hygrededd plant.  Roedd hyn yn cynnwys enwi’n fwriadol ac yn agored y plant hynny y canfuwyd yn ddiweddarach eu bod wedi’u cam-drin, ac yr oedd yn eu gweld ar sail 1:1 fel rhai arbennig o anwadal.  Nid oedd staff yn cael eu hannog i gredu plant, ac ni chafodd rhieni a gododd bryderon neu gwynion am yr ysgol neu’r ffordd yr oedd eu plant yn cael eu trin fawr o drugaredd os oeddent yn ceisio mynd ar drywydd hyn (gweler Thema 5: Llywodraethu a Chwynion).

Er gwaethaf hyn ac ar ôl i CGA ei gael yn euog o gamymddwyn proffesiynol yn ystod hydref 2020, a arweiniodd at gyfnod ceryddu o ddwy flynedd, ychydig o dystiolaeth sydd yna bod gan unrhyw un yn ALI1 nac ar y Corff Llywodraethu oruchwyliaeth reoli drosto na’u bod yn monitro ei ymddygiad, na bod llawer o’r camau gweithredu a’r argymhellion a oedd wedi’u cynnwys yng nghanlyniad CGA yn cael eu gweithredu.

Ar 21 Mehefin 2022, naw mis yn unig ar ôl i CGA ei gael yn euog o gamymddwyn proffesiynol, penodwyd Foden yn Bennaeth Gweithredol/Strategol Ysgol 2. Drafftiodd Foden ei swydd-ddisgrifiad/gontract ei hun ar gyfer y rôl weithredol hon, ac yn hytrach na bod yn atebol i Gorff Llywodraethu Ysgol 2, byddai Pennaeth Addysg 1 ALI1 yn ei reoli. Manteisiodd Foden ar y cyfle i weithio ar draws dau safle i guddio ei symudiadau; nid oedd unrhyw un yn cael gweld ei ddyddiadur nac yn gwybod pryd y byddai yn y naill ysgol na’r llall nesaf, er bod un o’i ddioddefwyr wedi gallu rhannu ei bod hi’n gwybod am leoliad Foden gyda staff yr ysgol.  Nid oedd y ffaith bod gan ddisgybl y wybodaeth hon am leoliad Foden fel pe bai’n codi pryderon.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Roedd Foden yn droseddwr rhyw strategol a oedd hefyd yn fanteisgar ac yn benderfynol. Gweithredodd *yng ngolwg pawb*. Creodd Foden amgylchedd a'i galluogodd i ddatblygu systemau a chreu cyfleoedd i gael mynediad at unrhyw blentyn bron yn ôl ei ewyllys, gan gamddefnyddio'r systemau hynny wedyn i normaleiddio ei gyswllt un-i-un â disgyblion benywaidd diamddiffyn. Er bod tystiolaeth bod troseddu Foden wedi digwydd cyn marwolaeth UDD1 yn 2018, rhoddodd marwolaeth UDD1 gyfle i Foden gamu i sefyllfa lle gallai nodi a chael cyswllt â'r plant mwyaf diamddiffyn a'u cam-drin ar wedd cynnig cefnogaeth fugeiliol.

Chwaraeodd Foden ar ei golled bersonol yn dilyn marwolaeth UDD1 (yr oedd wedi'i ddisgrifio fel ei *ffrind gorau*) ar adeg pan oedd llawer o staff eraill a disgyblion hefyd yn galaru, gan ennill cydymdeimlad ei gyfoedion a'i ddioddefwyr. Cyflwynodd Foden ei hun fel dyn mewn galar dwfn a oedd yn camu i mewn pan oedd cymuned yr ysgol mewn cyflwr o sioc, ac roedd arddangosfa gyhoeddus Foden o alar am golli ei ffrind yn sicr yn ei gwneud yn fwy credadwy ei fod yn ymgymryd â'r rôl fugeiliol.

Pan adroddodd unrhyw un bryder ynghylch cyswllt Foden â disgyblion benywaidd diamddiffyn, dywedodd ef a'r gweithwyr proffesiynol a oedd yn gweithio gydag ef mai cynnig cefnogaeth gwnsela oedd y prif rheswm dros iddo gael cyswllt 1:1 â disgyblion. Pan ystyriwyd ymddygiad Foden, maes o law, mewn trafodaethau strategaeth neu'r broses Adran 5, syrthiodd gweithwyr proffesiynol eraill yn ddi-gwestiwn i'r fagl o gredu bod Foden yn cefnogi ac yn cwnsela disgyblion. Ni chymerodd unrhyw un gam yn ôl i gwestiynu a oedd Foden wedi'i hyfforddi'n briodol yn y maes hwn, a oedd yn briodol i Bennaeth ysgol fod yn cyflawni'r gwaith hwn, na pham mai dim ond i ddisgyblion benywaidd y cynigiwyd y *cwnsela*.

Am weddill 2018 hyd at benodiad UDD2 ddechrau 2019 nid oedd gan yr ysgol arweinydd diogelu hyfforddedig nac UDD. Llenwyd y bwlch gan y rheolwr swyddfa yn gweithredu fel dirprwy UDD dan oruchwyliaeth Foden. Nid oedd y rheolwr swyddfa yn weithiwr proffesiynol hyfforddedig ac roedd yn ddibrofiad yn y cyd-destun hwn, gan mai dim ond rôl yn cefnogi UDD1 fel hebryngwyr oedd ganddi; ni chafodd unrhyw hyfforddiant diogelu ffurfiol tan fis Rhagfyr 2018.

Ar ddechrau blwyddyn academaidd 2018-2019, goruchwyliodd Foden ailstrwythuro'r system fugeiliol yn Ysgol Friars, gan ddisodli staff addysg hyfforddedig a fu'n Benaethiaid Blwyddyn gyda chynorthwywyr addysgu a staff gweinyddol dibrofiad. Cyflwynwyd hyn i'r corff staff fel cynllun a grëwyd gan UDD1 (y mae'r Adolygwyr yn dadlau ei fod hefyd wedi'i benodi gan Foden oherwydd ei ddiffyg profiad a'i hydrinedd posibl) a oedd bellach yn cael ei wireddu. Rhoddodd y system newydd gyfle pellach i Foden reoli'r broses ddiogelu a rhoddodd fynediad iddo at wybodaeth a'i alluogodd i glustnodi disgyblion diamddiffyn. Yn ystod y cyfnod hwn, llwyddodd Foden hefyd i benodi Dirprwy Bennaeth dibrofiad heb hyfforddiant digonol i gymryd lle UDD1, i arwain ar waith bugeiliol fel UDD2. Ni chafodd UDD2 lefel addas o hyfforddiant diogelu tan ymhell i mewn i'w dymor cyntaf yn Ysgol Friars ac roedd wedi ymuno heb fawr o brofiad perthnasol yn y maes gwaith hwn.

Erbyn 2019, roedd yn hysbys bod Foden yn cynnal cyfarfodydd mynych â disgyblion benywaidd diamddiffyn ar ei ben ei hun yn ei swyddfa ac wedi normaleiddio'r ymddygiad hwn, gan anfon e-bost yn aml at aelodau staff i ofyn iddynt ryddhau rhai disgyblion benywaidd o'u gwersi. Cyfarwyddodd Foden staff yn agored i gamddefnyddio System Rheoli Gwybodaeth yr Ysgol (SIMS) drwy ofyn iddynt farcio disgyblion yn bresennol yn eu gwersi pan oedd y disgyblion mewn gwirionedd gyda Foden yn ei swyddfa. Drwy ddefnyddio'r dull o ofyn i'r un disgyblion gael caniatâd i fod yn absennol o amrywiaeth o wersi a phynciau, llwyddodd Foden i guddio unrhyw batrwm o absenoldeb rheolaidd neu aml unrhyw ddisgybl penodol rhag athrawon dosbarth a phenaethiaid adrannau.

Ym mis Ebrill 2019, cododd UDRh Craidd 1 bryder gyda Phennaeth Addysg 1 ALl1 ynghylch amlder cyfarfodydd unigol Foden gyda disgyblion benywaidd diamddiffyn. Pan hysbyswyd Foden am y trafodaethau hyn, ymatebodd mewn dwy ffordd; y gyntaf oedd anwybyddu UDRh Craidd 1, ei Ddirprwy Bennaeth, am gyfnod estynedig o amser, a'r ail oedd mynd ati i gyhoeddi, er enghraifft mewn briffiau staff boreol, y byddai'n cefnogi'r disgybl benywaidd o'r enw 'X' yn ei swyddfa y diwrnod hwnnw. Fel hyn, roedd Foden yn gallu parhau i weithredu yng ngolwg pawb ac yn ddi-her.

Nid dyma'r unig enghraifft o Foden yn anwybyddu ei reolau ei hun yn yr ysgol. Yn ystod cyfnodau clo Covid yn 2020, roedd Foden yn cael pennu pwy oedd yn cael dod i'r ysgol, gan wahodd dioddefwyr i gyfarfod ag ef ar eu pennau eu hunain yno, a oedd yn torri rheoliadau Covid a gweithdrefnau'r ysgol ar yr un pryd. Gwnaed sylwadau am hyn trwy negeseuon WhatsApp ymysg yr UDRh Craidd, ond ni wnaethant ei herio na cheisio cyngor ar ôl cael ymateb negyddol iawn ar achlysuron blaenorol.

Roedd Foden hefyd yn rheoli Corff Llywodraethu'r ysgol (a drafodir yn fanwl o dan Thema 5: Llywodraethu a Chwynion). Mae'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth bod Foden wedi drafftio ymatebion ysgrifenedig mewn perthynas â gweithdrefnau a ddygwyd yn ei erbyn, i Gadeirydd y Llywodraethwyr eu cyflwyno yn ei enw ei hun i Bennaeth Addysg 1 ALl1. Yn y llythyrau hyn, trwy Gadeirydd y Llywodraethwyr, heriodd Foden y defnydd o bolisïau a gweithdrefnau. Er enghraifft, yn seiliedig ar gyngor gan Foden ac UDD2, pan gynghorwyd Cadeirydd y Llywodraethwyr gan uwch swyddogion Cyf GPaTh ALl1, Pennaeth Addysg 1 ALl1, Pennaeth GPaTh ALl1, Cyn Gyf Cor ALl1 a Swyddog Cyfreithiol ALl1 i atal Foden o'i waith dros dro fel gweithred niwtral, gwrthododd wneud hynny, gan gyfarwyddo Foden i weithio gartref yn lle hynny. Mae'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth bod yr uwch aelodau staff hyn yn credu bod polisi'r ysgol yn nodi bod yn rhaid i HGC oruchwylio a chytuno ar faterion yn ymwneud ag atal y Pennaeth o'i waith dros dro. Nid yw'r Adolygiad wedi gallu gweld bod y polisi wedi newid mewn gwirionedd yn hyn o beth, fodd bynnag, mae'r Adolygiad yn dadlau, ar ôl pwyso a mesur tebygolrwydd, fod Foden wedi ffugio a hyrwyddo'r anwiredd hwn i gamarwain gweithwyr proffesiynol eraill ar adeg pan oedd yn wynebu nid yn unig ddau honiad o ddefnyddio grym afresymol wrth atal disgyblion gwrywaidd ifanc (un achos ym mhob un o'r ysgolion lle'r oedd yn Bennaeth) ond trydydd honiad yn ymwneud â'i ryngweithiadau â Phlentyn G, disgybl benywaidd, a ddisgrifir yn nes ymlaen yn yr Adolygiad hwn.

Ar ôl ei benodi yn Bennaeth Gweithredol/Strategol Ysgol 2, symudodd Foden yn gyflym i ddefnyddio ei swydd newydd i glustnodi a thargedu disgybl benywaidd diamddiffyn. Gan ddefnyddio'r un *modus operandi* ag yr oedd wedi'i ddefnyddio yn Ysgol Friars, h.y. ar wedd cefnogi disgybl, ynysodd Foden Blentyn G, gan fynnu ei bod

yn dod i'w swyddfa ar ei phen ei hun, ac yn aml yn anfon negeseuon ati i’w chyfeiriad e-bost preifat, hyd yn oed yn hwyr y nos. Sylwodd staff yr ysgol ar hyn a rhoi gwybod i GPaTh ALl1. Roedd Plentyn G wedi rhoi gwybod am ei phryderon i'r staff, gan ofyn iddynt ymyrryd, ond dywedwyd wrthi eu bod yn teimlo na allent wneud hynny *gan mai ef oedd y bos*.

Ar yr adeg hon daeth Foden hefyd i sylw GPaTh ALl1 am ei ymyriadau corfforol gyda disgyblion a'i ddefnydd llym o weithdrefnau disgyblu yn y ddwy ysgol. Ysgol Friars oedd â'r lefel uchaf o waharddiadau parhaol yn ALl1 gyda lefelau cymharol isel o waharddiadau tymor byr. Roedd yn gweithredu Polisi *tri rhybudd ac allan* a gafodd ei gymeradwyo a'i gefnogi gan y Llywodraethwyr, y staff a rhai rhieni.

Nid oedd gweithwyr proffesiynol chwaith yn gallu gweld ymddygiad Foden yn wrthrychol pan weithredodd ar wedd cynnig cefnogaeth bersonol a bugeiliol i ddisgyblion. Fel hyn, llwyddodd Foden i ymdreiddio i sefydliadau a systemau diogelu plant, dysgu sut roeddent yn gweithredu ac ynysu ei ddioddefwyr benywaidd ymhellach oddi wrth oedolion cefnogol eraill.

Tra’r oedd yn nodi a thargedu disgyblion benywaidd diamddiffyn i’w cam-drin yn rhywiol, roedd Foden yn destun cwynion ac atgyfeiriadau mewn perthynas â'i ddefnydd o arferion cyfyngol a grym amhriodol yn erbyn disgyblion gwrywaidd. Roedd disgyblion a'u rhieni'n ofni gweithredu cyflym a dial pe baent yn gwneud cwyn, ac ychydig o gwynion a arweiniodd at gamau gweithredu gan ALl1. Effeithiodd ofn gwaharddiadau a chanlyniadau eraill ar oddefgarwch teuluoedd o'r ymddygiad hwn.

Soniodd un aelod staff wrth yr Adolygiad hwn y byddai Foden yn cornelu ac yn gwawdio disgyblion gwrywaidd nes eu bod yn ymateb, a bryd hynny, byddai'n ymyrryd yn gorfforol a/neu'n sbarduno cerydd ffurfiol. Mae staff yr ysgol a rhieni wedi honni bod rhai disgyblion wedi'u targedu i’w herlid, a thrwy hyn yn cronni pwyntiau ymddygiad negyddol yn gynt nes cyrraedd y trothwy gwahardd. Soniodd aelod staff wrth yr Adolygwyr y gallai *addysg uwchradd plentyn fod drosodd o fewn diwrnod*.

Oherwydd safle canfyddedig Foden yn y gymuned ynghyd â’i enw fel dyn a fyddai’n bwlio staff, disgyblion a rhieni, roedd oedolion ofn ei herio ac yn methu â gweld ei weithredoedd yn wrthrychol. Ar yr un pryd, hysbysebodd a manteisiodd Foden ar ei bŵer dros staff a oedd yn gweithio yn yr ysgol ac yn byw yn y gymuned drwy fygwth colli swyddi neu gadw staff ar gontractau byr. Roedd disgyblion a rhieni’n wynebu’r bygythiad o gael eu gwahardd a’u tynnu oddi ar gofrestr yr ysgol. Gwrthododd Foden ymgysylltu ag achwynwyr nad oeddent yn cydymffurfio â’i reolau. Cafodd rhai o’r gweithredoedd hyn eu dilysu drwy eu cynnwys ym mholisi’r ysgol, ac mewn achosion eraill, cafodd rheolau’r polisi eu diystyru.

Casgliad llym yr Adolygiad hwn oedd nad oedd oedolion proffesiynol a oedd yn gweithio yn yr ysgol wedi oedi i ystyried pam y byddai dyn â statws a phŵer o'r fath yn ei gyflogaeth fel arweinydd ysgol gyda 1400 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn neilltuo'r amser neu â’r awydd i gynnig cefnogaeth bersonol a bugeiliol i rai o'r disgyblion benywaidd mwyaf diamddiffyn, nac ystyried priodoldeb gwneud hynny fel aelod gwrywaidd o staff, heb hyfforddiant yn y maes hwn.

Roedd gweithwyr proffesiynol wedi dod i arfer â gweld Foden gyda disgyblion benywaidd diamddiffyn ar y safle a thu allan i'r ysgol ac wedi normaleiddio hyn, ond er

gwaethaf hyn oll, methwyd ag ystyried y byddai ei ymddygiad yn parhau drwy gydol gwyliau'r ysgol a chredwyd y byddai'r cyswllt yn dod i ben yn ystod yr amseroedd hyn. Mae'r Adolygwyr wedi gweld tystiolaeth, yn achosion Plentyn A, D ac F, y gwnaed penderfyniadau i beidio â gweithredu ar y dybiaeth anghywir na fyddai Foden yn cwrdd â nhw yn ystod gwyliau'r ysgol. Mewn un achos, awgrymwyd hyd yn oed y gallai Foden newid ei ymddygiad erbyn i'r tymor newydd ddechrau, ac na fyddai felly'n cyflwyno risg yn y dyfodol. Mae'r Adolygwyr yn ymwybodol na ddaeth y cam-drin i ben yn ystod gwyliau'r ysgol.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Roedd y ffaith mai dim ond disgyblion benywaidd diamddiffyn a welodd Foden yn ei ystafell ac nad oedd yn cynnig yr un gefnogaeth i ddisgyblion gwrywaidd hefyd wedi dod yn normal ac ni chafodd sylw ar y pryd, er bod UDD2 wedi'i nodi'n ôl-weithredol.

Mae pob un o'r enghreifftiau hyn yn dangos sgiliau Foden nid yn unig i feithrin perthynas amhriodol gyda'i ddioddefwyr, ond hefyd i ddylanwadu ar y gymuned ehangach yr oedd yn gweithio ynddi.

Pe bai gweithwyr proffesiynol o bob asiantaeth a ddaeth i gysylltiad â Foden a'r ysgol wedi cael hyfforddiant ynghylch *modus operandi* troseddwyr rhyw, mae'n debygol y byddent wedi adnabod ac ymateb i arwyddion o feithrin perthynas amhriodol a rheolaeth drwy orfodaeth yn ymddygiad Foden. Fel yr oedd pethau, fe lwyddodd Foden i ddylanwadu ar y gymuned yn fedrus i gydymffurfio â'i bolisïau a'i gamddefnydd o bŵer.

## Thema 2: Adrodd am Bryderon, Rheoli Honiadau a Gwneud Atgyfeiriadau - systemau a phrosesau

Mae'r Adolygwyr wedi gweld tystiolaeth bod GPaTh ALI1 wedi cael gwybod am nifer o bryderon am ymddygiad ac ymarweddiad Foden dros y cyfnod y mae'r Adolygiad Ymarfer Plant yn ei drafod. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â'i gyswllt a'i ryngweithio 1:1 parhaus â disgyblion benywaidd diamddiffyn ac fe'u cafwyd gan weithwyr proffesiynol ar draws nifer o asiantaethau gan gynnwys Ysgol Friars, Ysgol 2, Gweithwyr Cymdeithasol ALI2, Gweithwyr Cymdeithasol ALI3, Gweithwyr Cymdeithasol ALI1, y SARC, yr NSPCC, Asiantaeth Gofal Iechyd, aelodau'r UDRh, rheolwr hostel, gofalwr maeth trwy eu Gweithiwr Cymdeithasol, disgybl a theuluoedd/gofalwyr disgyblion diamddiffyn. Roedd rhai o'r atgyfeiriadau yn ymwneud â'r un disgyblion benywaidd tra bod yr atgyfeiriadau a oedd yn ymwneud ag ataliaeth yn gyfan gwbl berthnasol i ddisgyblion gwrywaidd.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli Honiadau/Pryderon Diogelu am Ymarferwyr a'r Rhai mewn Swyddi Cyfrifol wedi'u nodi ar hyn o bryd yn Adran 5 *Gweithdrefnau Diogelu Cymru*[5] ac fe'u rheolwyd yn flaenorol o dan *Ran 4 Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan 2008.*

[5] https://diogelu.cymru/cy/

Pan ddatgelir neu adroddir am bryder neu honiad am oedolyn sy'n gweithio gyda phlant, caiff yr achos ei reoli a'i arwain fel arfer gan yr Awdurdod Lleol lle mae'r oedolyn yn cael ei gyflogi. Mae Canllawiau Adran 5 yn nodi'n glir:

'*Mae gan bob Awdurdod Lleol ddyletswydd i reoli honiadau a phryderon ynghylch y rhai sy'n gweithio gyda phlant, naill ai mewn capasiti cyflogedig neu wirfoddol, ac sy'n dod â nhw i gysylltiad (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg, a rhaid iddynt gael swyddog dynodedig sy'n uwch reolwr dynodedig sy'n gyfrifol ac yn atebol am reoli a monitro honiadau/pryderon yn erbyn ymarferwyr a'r rhai mewn swyddi cyfrifol. Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol gael gweithiwr proffesiynol gwaith cymdeithasol sy'n ymroddedig i'r rôl hon - a elwir yn Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO).'*

Mae canllawiau Adran 5 yn parhau drwy esbonio sut i gymhwyso'r gweithdrefnau gan nodi nad dim ond lle mae amheuaeth o niwed sylweddol y maent yn berthnasol, ond eu bod hefyd yn berthnasol i ystyried **'addasrwydd'** i weithio gyda phlant.

Mae'r gweithdrefnau'n nodi hyn fel a ganlyn, gan roi enghreifftiau o ymddygiad y gellid ei ystyried o dan y pennawd hwnnw;

> *'Mae rheoli achosion o dan y gweithdrefnau hyn yn berthnasol i amrywiaeth ehangach o honiadau na'r rhai y mae achos rhesymol dros gredu bod <u>plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg</u> yn dioddef niwed, neu'n debygol o ddioddef <u>niwed</u>. Mae hefyd yn berthnasol i bryderon a allai awgrymu **nad yw person yn addas i barhau i weithio gyda <u>phlant neu oedolion sy'n wynebu risg</u> yn ei swydd bresennol neu mewn unrhyw swydd** [pwyslais gan yr Adolygwyr]. Dylid ei ddefnyddio ymhob achos lle honnir bod person sy'n gweithio gyda <u>phlant neu oedolion sy'n wynebu risg</u>:*

- *Wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio <u>plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg</u>, neu y gallai fod wedi gwneud hynny*
- *O bosibl wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg neu sydd ag effaith uniongyrchol ar y <u>plentyn neu'r oedolyn sy'n wynebu risg</u>*
- *Wedi ymddwyn tuag at y <u>plentyn, plant neu oedolion sy'n wynebu risg</u> mewn ffordd sy'n awgrymu ei fod yn anaddas i weithio gyda phlant ac oedolion'*

Yna mae'r Canllawiau'n parhau, gan roi enghreifftiau o ymddygiad y gellid ei ystyried yn bryderus, gan nodi:

*'Mae'n gallu bod yn anodd penderfynu beth all fod yn y categori 'anaddas i weithio gyda <u>phlant neu oedolion sy'n wynebu risg</u>'. Dylai'r cyflogwr ystyried a yw testun yr honiad neu'r pryder:*

- *Wedi bod yn destun camau cyfreithiol sy'n awgrymu risg o <u>niwed</u> i <u>blentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg</u>*
- *Wedi achosi <u>niwed</u> neu <u>niwed</u> posibl i <u>blentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg</u> a bod risg yn yr amgylchedd gwaith, gwirfoddoli neu ofalu*
- *Wedi mynd yn groes neu'n parhau i fynd yn groes i Bolisi a Gweithdrefnau <u>Diogelu</u> eu hasiantaeth*

- ***<u>Heb ddeall neu gydymffurfio â'r angen am ffiniau personol a phroffesiynol eglur yn y gweithle</u>*** [pwyslais gan yr Adolygwyr]
- *Wedi ymddwyn yn eu bywyd personol mewn ffordd a allai roi <u>plant ac oedolion sy'n wynebu risg</u> mewn perygl o <u>niwed</u>*
- *Wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi tanseilio'r ymddiriedaeth a roddwyd ynddynt yn rhinwedd eu swydd*
- *Plant sy'n destun Gweithdrefnau Amddiffyn Plant*
- *Yn meddu ar gyfrifoldebau gofalu am oedolyn sy'n destun Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion*

Mae'r Canllawiau'n nodi ymhellach:

> *'Mewn achosion lle mae modd adnabod plentyn, person ifanc neu oedolyn sy'n wynebu risg sydd efallai wedi mynegi pryder neu wedi cael ei gam-drin, bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud asesiad cymesur yn unol â <u>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</u>*[6].'

Mae'r Canllawiau'n nodi'n benodol:

> *'Mewn achosion lle mae plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg y gellir ei adnabod sydd wedi cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, caiff Gweithdrefnau Diogelu Cymru eu gweithredu a'u dilyn ochr yn ochr â'r broses a nodir yn y gweithdrefnau hyn.* ***Os nad oes plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg y gellir ei adnabod, ac os yw'r gweithiwr proffesiynol yn bodloni'r meini prawf uchod, yna caiff y gweithdrefnau hyn eu rhoi ar waith o hyd.***'[pwyslais gan yr Adolygwyr]

Ym mhob achos lle mae pryderon neu honiadau am oedolyn sy'n gweithio gyda phlentyn/plant neu mewn swydd gyfrifol, rhaid ystyried lefel y risg y gallai'r plentyn fod yn ei hwynebu. Felly, dyletswydd cyfreithiol fyddai cynnal ymchwiliad adran 47 er mwyn asesu risg a rhoi llais i'r plentyn/plant, pan fo gan yr ALl achos rhesymol i amau bod plentyn yn wynebu risg o niwed sylweddol. Dylid cydlynu'r ymchwiliad adran 47 â Chyfarfodydd Strategaeth Proffesiynol Adran 5, er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu yn y fforwm priodol. Pan fo materion yn rhai trawsffiniol, rhaid gwahodd awdurdod cartref y plentyn i gyfrannu at y Cyfarfodydd Strategaeth Proffesiynol hyn bob amser a phan fo'r plentyn yn destun ymchwiliad adran 47, awdurdod cartref y plentyn fyddai'n ei gynnal.

Yn yr achos cymhleth hwn, roedd Foden yn bennaeth ysgol y mae ei dalgylch yn bennaf yn cynnwys Bangor a'i chyffiniau ac ardaloedd ehangach o'r Sir. Fodd bynnag, roedd gan Ysgol Friars hefyd ddisgyblion ar y gofrestr y mae eu cartrefi yn un o'r siroedd cyfagos yng Ngogledd Cymru, a daeth rhai o'r disgyblion hynny yn ddioddefwyr/goroeswyr cam-driniaeth gan Foden. Mae gan y siroedd cyfagos drefniadau diogelu ar wahân sy'n eistedd o fewn Adrannau Gofal Cymdeithasol Plant ac Addysg. Er mai ALl1 yw'r prif Awdurdod Lleol dan sylw yn ddiofyn, at ddibenion yr Adolygiad hwn, mae'r siroedd cyfagos wedi'u dynodi fel Awdurdod Lleol 2 (ALl2) ac Awdurdod Lleol 3 (ALl3).

[6] *Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008*

Ffactor pellach a oedd yn cymhlethu pethau oedd bod pob un o'r plant yr effeithiwyd arnynt hefyd wedi ymgysylltu i raddau mwy neu lai ag ystod o wasanaethau lleol a rhanbarthol, fel asiantaethau Gofal Iechyd, gwasanaethau iechyd (pob haen), y SARC, HGC, lles addysg, gwaith cymdeithasol, timau cefnogi teuluoedd a gwasanaethau Plant sy'n Derbyn Gofal, (nid yw hon yn rhestr gyflawn) a oedd yn gweithio yn ôl ffiniau daearyddol gwahanol. Nid yw hon yn sefyllfa anarferol i lawer o ysgolion, ond mae'n golygu bod rhaid i gyfathrebu trawsffiniol fod yn glir ac yn effeithiol, ac mae'n dangos bod cynnwys pob asiantaeth sy'n ymwneud â phlentyn, plant a theuluoedd lle mae risg o niwed o bwys hanfodol i ddiogelu plant. Ni all gwahaniaethau trawsffiniol wrth gymhwyso trothwyon diogelu a phrotocolau rhannu gwybodaeth sefyll yn ffordd cadw plant yn ddiogel. Ni chafodd Protocol Gogledd Cymru ar gyfer Datrys Anghydfodau Proffesiynol ei weithredu yn yr achos yma lle'r oedd gwahaniaethau o'r fath wedi codi.

Mae Canllawiau Adran 5 yn nodi'n glir y gweithdrefnau y mae'n rhaid i dîm diogelu'r awdurdod lleol eu defnyddio yn dilyn hysbysiad o bryder neu honiad am oedolyn sy'n gweithio gyda phlant yn eu hardal, ac mae hefyd yn nodi'n glir pwy (o ran cynrychiolaeth asiantaethau ac unigolion) ddylai fod yn rhan o drafodaethau a chyfarfodydd, a phryd y dylid eu hysbysu am y pryder.

Mae prosesau penodol a chlir i'w dilyn lle codir pryderon neu honiadau am Bennaeth. Pan fo'r Pennaeth yn destun pryder, mae Canllawiau Adran 5 a *Chanllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, 2022*[7] yn glir ynghylch rolau a chyfranogiad Cadeirydd y Llywodraethwyr a Swyddog Diogelu Dynodedig yr Awdurdod Lleol.

Yn ALI1, mae'n ymddangos bod naill ai diffyg dealltwriaeth o'r broses Adran 5 neu fethiant i'w dilyn. Yn benodol, nid oes tystiolaeth bod Cadeirydd y Llywodraethwyr, fel cyflogwr Foden, na Swyddog Diogelu Dynodedig yr Awdurdod Lleol wedi bod yn rhan o'r Trafodaethau Strategaeth cychwynnol pan adroddwyd pryderon am Foden, ac ni chawsant eu gwahodd i'r Cyfarfodydd Strategaeth Proffesiynol Adran 5 a ddilynodd mewn rhai achosion.

> Roedd hyn yn groes i'r broses ac yn gyfle a gollwyd

Yn y rhan fwyaf o achosion lle codwyd pryderon am Foden, nid oedd y Trafodaethau Strategaeth cychwynnol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Awdurdodau Lleol lle'r oedd y plant a oedd yn destun y pryderon yn byw. Roedd hyn yn golygu na ystyriwyd gwybodaeth am y plant nac unrhyw gysylltiad a allai fod ganddynt ag asiantaethau eraill wrth asesu risg a pha mor ddiamddiffyn oeddent. Nid yw'r Adolygiad wedi gweld unrhyw gofnod clir o'r Trafodaethau Strategaeth (na'r penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfodydd hyn), ac ni aeth y rhan fwyaf ymlaen i Gyfarfod Strategaeth Proffesiynol lle gellid bod wedi rhannu gwybodaeth yn briodol. Yn aml, roedd hyn oherwydd y penderfynwyd nad oedd y pryderon yn cyrraedd y trothwy troseddol na'r trothwy ar gyfer cychwyn ymchwiliad adran 47. Ychydig o dystiolaeth y mae'r Adolygiad wedi'i gweld o ystyried y meini prawf *addasrwydd i weithio gyda phlant*.

[7] https://www.llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Roedd bron pob pryder a godwyd ynghylch Foden yn bryderon trydydd parti ac roedd llawer ohonynt yn ymwneud â theimlad anghysurus ac anesmwyth gweithwyr proffesiynol asiantaeth ynghylch ymddygiad Foden, fel y gwelwyd yn ei ryngweithio â disgyblion benywaidd, yr oedd nifer ohonynt yn hysbys i'r asiantaethau fel unigolion â gwendidau penodol a fyddai'n golygu eu bod yn wynebu risg. Roedd diffyg datgeliad uniongyrchol gan blentyn, neu adroddiad tyst o *dystiolaeth* o ymddygiad camdriniol, ynghyd â diffyg ystyriaeth o'r meini prawf addasrwydd a nodir uchod, yn golygu bod materion yn cael eu cyfeirio'n ôl at Bennaeth Addysg 1 ALl1 i'w rheoli fel pryder ynghylch ffiniau proffesiynol yn hytrach na mater o ddiogelu. Mewn llawer o achosion, nid oedd Pennaeth Addysg 1 ALl1 wedi mynychu'r cyfarfodydd hyn yn bersonol ac, yn absenoldeb cofnodion clir, roedd wedi dibynnu ar Uwch Reolwr Add 2 ALl1 (yn ddiweddarach Pennaeth Addysg 2) i adrodd yn ôl, neu ar Uwch Reolwr GPaTh ALl1 LADO yn trosglwyddo neges i Bennaeth Addysg 1 ALl1 dros y ffôn ar ôl y digwyddiad.

Mae methiant GPaTh ALl1 i gadw cofnodion digonol mewn perthynas â Thrafodaethau Strategaeth Adran 5 yn thema sy'n codi dro ar ôl tro yn yr Adolygiad, ac yn cynrychioli cyfleoedd a gollwyd i sylwi ar batrymau a ddaeth i'r amlwg o ymddygiad ac ymarweddiad Foden.

Roedd dod â materion i gasgliad adeg y Drafodaeth Strategaeth, lle'r oedd HGC a swyddogion o'r Adran Addysg, ond nid yr ysgol, yn aml yn bresennol, yn hytrach na symud ymlaen i Gyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 (neu Ran 4 yn flaenorol), yn dangos diffyg dealltwriaeth ymhlith uwch aelodau staff GPaTh ALl1 o'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol gan staff addysgu a'r rhai sy'n gweithio ym myd addysg fel y nodir nid yn unig yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022 ond hefyd gan Gyngor y Gweithlu Adysg, y mae'n rhaid i staff addysgu yng Nghymru gofrestru ag ef. Felly, cyfeiriwyd dro ar ôl tro at bryderon fel croesi ffiniau neu faterion proffesiynol yn hytrach nag ystyried yr ymddygiad trwy lens diogelu, neu fel camfanteisio posibl ar Swydd Gyfrifol. Roedd hyn yn golygu bod trafodaethau ynghylch addasrwydd Foden i weithio gyda phlant yn cael eu hatal yn gynnar.

Yn achosion Plentyn A, Plentyn C a Phlentyn F, roedd digon o wybodaeth wedi'i rhannu mewn atgyfeiriadau i fod yn gyfystyr â thorri arferion proffesiynol. Ym mhob un o'r achosion hyn, gofynnodd Uwch Swyddogion GPaTh ALl1 dro ar ôl tro a oedd Foden wedi cael cyngor penodol i beidio â gweithredu mewn modd penodol ac, os nad oedd, a fyddai'n **gwybod** na ddylai ymddwyn mewn ffyrdd penodol, er enghraifft bod ar ei ben ei hun gyda phlentyn, cofleidio plentyn, neu roi lifft iddynt yn ei gar. Yn achos Plentyn G, gofynnwyd cwestiynau tebyg ynghylch a oedd yn dderbyniol i athro anfon negeseuon e-bost at ddisgyblion i'w cyfeiriad e-bost preifat yn hwyr y nos, ac er i Uwch Reolwr Add2 ALl1 (yn ddiweddarach Pennaeth Addysg 2) egluro mewn Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 nad oedd hyn yn dderbyniol, daeth y cyfarfod i'r casgliad, er bod y pryderon wedi'u cadarnhau, nad oedd Plentyn G yn wynebu risg o niwed.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd, ac ni roddwyd rhesymeg am hyn

Pe bai Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) a'i dîm wedi ymgyfarwyddo â Chod Safonau ac Ymarfer Proffesiynol CGA, byddent wedi bod yn ymwybodol o'r canlynol:

*'Mae'n gyfrifoldeb personol a phroffesiynol ar Gofrestreion i:*

- *'gydnabod eu cyfrifoldeb personol fel model rôl a ffigur cyhoeddus, i gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiynau addysg, a hynny yn y gweithle a thu allan iddo'*

A chynnal perthnasoedd gyda dysgwyr a phobl ifanc mewn modd proffesiynol, drwy:

- *gyfathrebu gyda dysgwyr a phobl ifanc yn barchus, mewn ffordd sy'n briodol iddynt*
- *defnyddio pob math o ddull cyfathrebu mewn modd priodol a chyfrifol, yn arbennig y cyfryngau cymdeithasol*
- *sicrhau bod unrhyw gysylltiad corfforol yn angenrheidiol, yn rhesymol ac yn gymesur*
- *cyfrannu at greu amgylchedd dysgu teg a chynhwysol drwy fynd i'r afael â gwahaniaethu, ystrydebu a bwlio*
- *cynnal ffiniau proffesiynol'*

Mewn achosion lle codwyd pryderon gan neu am y dioddefwyr/goroeswyr yr ystyriwyd nad oeddent yn cyrraedd y trothwy ar gyfer Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol, ni chafodd *llais y plentyn* ei glywed - ni siaradodd unrhyw weithiwr proffesiynol â'r plant dan sylw hyd yn oed pan adroddwyd pryderon dro ar ôl tro am yr un plant, er enghraifft yn achosion Plentyn A a Phlentyn F. Nid yw'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth bod siarad â phlant wedi'i ystyried, a gwnaed y penderfyniad nad oedd materion yn haeddu ymchwiliad pellach ar y sail, mewn llawer o achosion, nad oedd y plant a oedd yn destun y pryder wedi datgelu na honni camdriniaeth yn uniongyrchol eu hunain. Ni ystyriwyd bod barn ac arsylwadau gweithwyr proffesiynol profiadol a oedd wedi gweld ymddygiad pryderus yn bwysig.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Ym mis Ebrill 2019, adroddodd UDRh1 am bryderon sylweddol i Bennaeth Addysg 1 ALI1. Mewn ymateb, cynhaliwyd cyfarfod *ad hoc* yn cynnwys Cyfarwyddwr GPaTh ALI1, Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO), Pennaeth Addysg 1 ALI1 a'u hymgynghorydd cyfreithiol. Nid oes cofnod ffurfiol o'r cyfarfod hwnnw ond rhannwyd nodiadau a wnaed ar y pryd yn y cyfarfod gan ddau o'r rhai a fynychodd gyda'r Adolygiad.

Yn y cyfarfod hwn, dywedwyd fod UDRh Craidd 1 wedi cyflwyno'r pryderon a godwyd fel pe bai Foden yn ei roi ei hun mewn perygl o honiadau ffug trwy gyfarfod dro ar ôl tro â disgyblion benywaidd diamddiffyn ar ei ben ei hun yn ei ystafell. Derbyniodd

Uwch Swyddogion GPaTh ALI1 y modd y cyflwynwyd hyn yn y cyfarfod heb ei gwestiynu, yn yr un modd ag y gwnaeth Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) ers i'r pryderon gael eu codi gyntaf yn 2018. Atgyfnerthodd hyn y naratif bod Foden yn ei roi ei hun mewn perygl, sef thema y nododd tîm yr AYP ei bod wedi codi gyntaf mewn ymateb i'r pryderon a godwyd yn 2018, ac a barhaodd drwy gydol cyfnod yr Adolygiad.

Er bod o leiaf rhai o'r unigolion a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn gwybod bod y disgyblion a enwyd gan UDRh Craidd 1 wedi bod yn destun atgyfeiriadau blaenorol gan asiantaethau eraill mewn perthynas â rhyngweithiadau Foden â nhw, ni feddyliodd unrhyw un y dylid ystyried y gallai'r disgyblion benywaidd diamddiffyn eu hunain fod yn wynebu risg oddi wrth Foden. Ni wnaeth unrhyw un gysylltu'r dotiau na gweld y darlun mawr.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Mae canlyniad y cyfarfod hwn, o ran y camau gweithredu a neilltuwyd, wedi cael ei herio. Er bod cyfeiriadau hefyd at *drafodaeth ar y grisiau* a *sgyrsiau rhybuddio* dilynol gyda Foden, nid oes tystiolaeth o'r rhain. Ni chynhaliwyd cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 ffurfiol mewn ymateb i bryderon yr UDRh Craidd 1, gan na ofynnwyd i UDRh 1 ALI1 wneud atgyfeiriad er gwaethaf y ffaith ei fod wedi rhannu ei bryderon difrifol, ac ni phenderfynodd wneud hynny ei hun chwaith.

Roedd yn hysbys yn yr ysgol bod Foden yn cael cyfarfodydd mynych â disgyblion benywaidd diamddiffyn y tu ôl i ddrysau caeedig yn ei swyddfa, gyda'r bleinds ar gau, a'r goleuadau i ffwrdd. Roedd disgyblion a staff yn cydnabod bod gan Foden ffefrynnau, ei fod yn cyfeirio at y disgyblion benywaidd hyn fel ei *blant amddifad*, bod disgyblion eraill ac aelodau staff yn ystyried eu bod nhw (y disgyblion benywaidd) yn cael eu trin yn wahanol ac y *gallent osgoi cosb am unrhyw beth.* Roedd Foden eisoes wedi dweud wrth ei gydweithwyr bod rhai o'r disgyblion benywaidd hyn yn debygol o wneud honiadau ffug, gan danseilio eu hygrededd.

Yn aml, roedd gweithwyr proffesiynol a oedd yn adrodd am bryderon yn gweld eu hatgyfeiriad yn cael ei *wrthwynebu* o ran ansawdd a fformat. Pan oedd gweithiwr proffesiynol wedi arsylwi ymddygiad a achosodd iddynt deimlo'n bryderus neu'n anghyfforddus, diystyrwyd hyn fel *teimlad yn unig* gan ddweud nad oedd unrhyw *dystiolaeth* o gam-drin. Defnyddiwyd y ffaith na chyrhaeddwyd y trothwy troseddol yn aml i benderfynu a oedd mater yn cael ei symud ymlaen ac ychydig o dystiolaeth oedd yna o ddefnyddio'r *Meini Prawf Addasrwydd* a nodir ym mhrotocol *Canllawiau Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru 2020* a Gweithdrefnau Adran 5. Defnyddiwyd y ffaith nad oedd plentyn, plant (neu riant) wedi gwneud cwyn benodol neu uniongyrchol fel rheswm i beidio â chynnal unrhyw ymchwiliad pellach. Ychydig iawn o achosion oedd yn cynnwys unrhyw ymgais i drafod y pryderon gyda'r plentyn neu'r plant, sef testun y pryder.

Pan drafodwyd y pryder gyda'r plant, fel ddigwyddodd gyda Phlentyn G a Phlentyn F, dywedodd y ddwy eu bod wedi cael eu cofleidio a bod hyn wedi gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus. Yn achos Plentyn G, cafodd y cofleidiad ei ddisgrifio fel un oedd wedi para am 10 munud, gyda'i *breichiau wrth ei hochr*. Cofnodwyd bod Plentyn F wedi dweud ei bod yn teimlo'n anghyfforddus ac nad oedd wedi rhoi caniatâd i gael

*cofleidiad*. Ar ôl i weithiwr proffesiynol ofyn i Blentyn F ddangos sut gofleidiad a gafodd, barnodd fod y *cofleidiad* a ddisgrifiwyd gan Blentyn F yn *gofleidiad priodol*.

Er gwaethaf y ffaith bod y plant yn anghyfforddus, ni wnaeth yr un o'r digwyddiadau hyn, pan gawsant eu cynnwys ochr yn ochr â phryderon eraill mewn atgyfeiriadau gan fwy nag un asiantaeth, sbarduno trafodaeth am niwed posib ac addasrwydd uwch weithiwr proffesiynol yn ymddwyn fel hyn. Mae'r math hwn o gyswllt gyda phlentyn yn torri'r safonau proffesiynol a ddisgwylir gan staff addysg. Ar ben hynny, ni ellir ystyried *cofleidiad* gan oedolyn proffesiynol, **y mae'r plentyn yn dweud yn ddiweddarach nad oedd hi ei eisiau ac a oedd yn anghyfforddus** fel rhywbeth sy'n dderbyniol nac yn briodol o dan unrhyw amgylchiadau, a dylai hyn fod wedi sbarduno ymyrraeth bellach.

Yn ogystal â'r ffordd y deliwyd â rheoli honiadau o fewn GPaTh ALl1, roedd anghytundeb rhwng GPaTh ALl1 ac asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda phlant diamddiffyn. Roedd gwahaniaethau barn hefyd ymhlith y tri awdurdod lleol ynghylch y trothwy ar gyfer defnyddio Gweithdrefnau Adran 5. Heriwyd atgyfeiriadau a anfonwyd at GPaTh ALl1 yn seiliedig ar eu fformat, eu cynnwys a'u bwriad. Yn aml, cynhaliwyd yr heriau hyn trwy negeseuon e-bost estynedig lle gallai galwad ffôn fer fod wedi egluro'r mater. Dywedwyd wrth yr Adolygiad mewn Digwyddiadau Dysgu fod hyn wedi dod yn rhwystr i wneud atgyfeiriadau pellach. Y canlyniad oedd bod camau gweithredu mewn ymateb i atgyfeiriadau wedi'u gohirio a bod plant yn wynebu risg o niwed oddi wrth Foden.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Un enghraifft o'r fath o anghytundeb trawsffiniol oedd bod y dehongliad o'r trothwy ar gyfer cynnal Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 yn wahanol rhwng ALl1, lle cyflogwyd Foden, ac ALl2, lle'r oedd disgybl benywaidd a oedd yn destun pryder yn byw. Dyma achos Plentyn A, pan adroddodd Gweithiwr Cymdeithasol ALl2 yn 2019 am eu pryderon ynghylch natur y berthynas rhwng Plentyn A a Foden i'w rheolwr, pryderon yr oedd mam Plentyn A hefyd wedi'u codi a'u rhannu,. Roedd y cofnod yn ymwneud ag ymweliad â Phlentyn A yn Ysgol Friars, gyda Foden yn bresennol.

Cofnododd Gweithiwr Cymdeithasol ALl2 yn ei nodiadau:

> *'Roedd yn amlwg i mi o'r cyfarfod fod [Plentyn A] yn ymddiried yn fawr yn [Foden] ac roedd hi'n ymddangos yn rhy ddibynnol arno. Roedd yn ymddangos bod [Foden] hefyd yn mynd gam ymhellach i gefnogi [Plentyn A] gan eu bod ill dau wedi dweud bod Foden wedi bod yn mynd â [Plentyn A] i apwyntiadau, ac roedd y rhain yn apwyntiadau nad oedd mam na dad yn ymwybodol ohonynt.'*
> *'Teimlais ar ychydig o achlysuron yn ystod y cyfarfod fod y sefyllfa'n ymddangos yn rhy anffurfiol a lle roedd [Plentyn A] a [Foden] yn ymddangos yn rhy gyfarwydd â'i gilydd.'*

Cynhaliodd Gweithiwr Cymdeithasol ALl2 ymweliad cartref â'r fam y diwrnod canlynol er mwyn trafod *mater sensitif*. Cofnododd y gweithiwr:

*'Yn ystod yr ymweliad cartref, dywedodd Mam ei bod hi'n teimlo'n anghyfforddus gyda'r sefyllfa lle mae'r Pennaeth [Foden] yn treulio gormod o amser gyda [Plentyn A]. Dywedodd Mam, o'r cyfarfod amlasiantaeth cychwynnol a gynhaliwyd ynghylch [Plentyn A], y penderfynwyd eisoes heb ei chytundeb / ei chydsyniad y byddai [Foden] a'r DUDD yn cefnogi ei merch i fynychu apwyntiadau.'*

*'Dywedodd y fam y bu dau achlysur pan nad oedd [Foden] wedi dod â [Phlentyn A] adref tan ar ôl 9.30pm, oherwydd eu bod yn ôl pob sôn wedi bod mewn noson pobi cacennau, neu noson agored.'* Mae'r fam *'yn teimlo'n anghyfforddus ar adegau gan fod [Foden] yn rhy garedig a chymwynasgar, a dyma sut roedd [y troseddwr blaenorol] gyda'r plant'. 'Dywedodd y fam nad oedd hi eisiau dweud unrhyw beth o'i le nac awgrymu unrhyw beth heblaw am gefnogaeth, fodd bynnag, mae [Plentyn A] yn treulio'r rhan fwyaf o'i hamser gyda [Foden], naill ai yn yr ysgol neu ar ôl oriau ysgol.'*

*'Dywedodd mam hefyd fod [Plentyn A] a Foden bron yn rhy gyfarwydd â'i gilydd, o ran y modd y maen nhw'n cyfarch ei gilydd neu'n gwneud jôc o'u sefyllfa.'*

Cofnododd Gweithiwr Cymdeithasol ALl2 nad oedd y fam yn gwybod sut i fynd i'r afael â'r mater hwn a, gyda chytundeb y fam, ei bod wedi cytuno i'w drafod gyda'i rheolwr atebol.

Arweiniodd y drafodaeth gyda'r rheolwr atebol yn ALl2 at Wasanaethau Plant ALl2 yn rhannu'r mater gyda GPaTh ALl1. Dilynwyd hynny gan drafodaeth hir (yn bennaf dros e-bost) rhwng Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) ac amrywiol swyddogion am p'un a gyrhaeddwyd y trothwy ar gyfer Trafodaeth Strategaeth Broffesiynol ai peidio. Nododd Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) yn glir nad oedd y trothwy wedi'i gyrraedd, a nododd ALl2 yn glir pe bai'r mater wedi'i godi ynglŷn â gweithiwr proffesiynol yn eu hardal nhw, y byddai cyfarfod **wedi** cael ei gynnal i drafod y pryderon.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Datblygodd y mater mewn gohebiaeth rhwng Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) ac ALl2, gyda chais gan y cyntaf i gynnal cyfarfod i brofi trothwy Rhan 4, na wnaeth ei fodloni. Ond yn dilyn hynny, cynhaliwyd Trafodaeth Strategaeth Adran 3, lle cydnabuwyd bod yr ymddygiad yn amhriodol ac yn '*rhoi teimlad anghyfforddus*', yn enwedig o ystyried adroddiadau hanesyddol tebyg eraill, ond nid oedd yn ddigon i sbarduno trafodaeth strategaeth ffurfiol na chael ei ystyried o dan Ran 4 AWCPP 2008. Mae hyn yn awgrymu goddefgarwch annerbyniol o deimladau anghyfforddus mewn perthynas ag ymddygiad amhriodol. Yn y pen draw, trafodwyd y mater ar lefel Pennaeth Gwasanaeth ar draws Adrannau Addysg a Gwasanaethau Plant y ddau awdurdod.

Er gwaethaf y drafodaeth hon, roedd Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) yn dal i fod yn bendant nad oedd y mater yn cyrraedd y trothwy ar gyfer trafodaeth o dan weithdrefnau Rhan 4 AWCPP 2008 (er iddo nodi bod yna broblemau o ran ffiniau ac y

byddai'r achos yn debygol o fodloni'r meini prawf o dan gyfarwyddiadau Adran 5 newydd 2020 nad oeddent wedi dechrau eu defnyddio eto).

Roedd yn amlwg yng nghofnod y trafodaethau hyn fod GPaTh ALI1 yn ymwybodol bod Plentyn A wedi atgyfeirio ei phryderon ei hun am Foden y flwyddyn flaenorol (2018), a'i bod wedi'i henwi gan UDRh Craidd 1 dim ond ddau fis ynghynt fel un o'r disgyblion benywaidd yr oedd yn hysbys bod Foden yn treulio amser ar ei ben ei hun gyda hi.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Roedd yr ail enghraifft o amharodrwydd cychwynnol GPaTh ALI1 i gynnal Trafodaeth Strategaeth Broffesiynol (neu ystyried un o dan AWCPP 2020) yn ymwneud ag achos Plentyn F. Gwnaed atgyfeiriad gan ei Gweithiwr Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2023 ond roedd yn destun ceisiadau niferus am eglurhad. Arweiniodd y ceisiadau hyn gan GPaTh ALI1 am yr achos at oedi, gan ganiatáu iddo lithro dros wyliau haf yr ysgol. Roedd y mater yn dal i fod yn destun dadl naw wythnos yn ddiweddarach, ar ddechrau tymor yr hydref, ac ni chafodd ei ddatrys tan ar ôl i Blentyn D ddatgelu cam-drin rhywiol gan Foden ar 6 Medi. Cafodd y plentyn a oedd yn destun y trafodaethau am y trothwy ar gyfer pryderon mewn perthynas â rhyngweithiadau â Foden ei hadnabod wedi hynny fel Plentyn F. Trafodir yr achos hwn yn fanylach o dan Thema 3: Gwaith Rhyngasiantaethol.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Dangosodd y ffordd yr ymdriniodd GPaTh ALI1 â phob un o'r achosion hyn mai ychydig iawn o ddealltwriaeth oedd ganddynt o *modus operandi* troseddwyr rhyw, o feithrin perthnasoedd amhriodol â dioddefwyr a sut y gall troseddwyr soffistigedig ddylanwadu ar oedolion yn y sefydliad y maent yn gweithredu ynddo a'r gymuned y maent yn gweithio ynddi. Roedd Foden wedi normaleiddio ei ymddygiad hyd yn oed yng ngŵydd gweithwyr proffesiynol. Roedd cynnwys atgyfeiriad Gorffennaf 2023 am Blentyn F bron fel astudiaeth achos gwerslyfr o ddulliau a ddefnyddir gan droseddwyr wrth feithrin perthynas amhriodol â phlentyn. Roedd yr oedi a ddisgrifir uchod a'r gwrthwynebiad i gynnal Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 wedi gadael Plentyn F yn ddiamddiffyn.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

O ran atgyfeiriadau o dan Adran 5 mewn perthynas ag ataliaeth gorfforol ac ymyrraeth amhriodol (gyda disgyblion gwrywaidd ifanc), mae llawer o ddadleuon ynghylch pa lefel o ymyrraeth sy'n briodol a'r technegau a'r dulliau y gellid eu defnyddio'n rhesymol. Roedd fideos o rai o'r ymyriadau hyn ar gael a barnodd HGC eu bod yn anghymesur mewn un digwyddiad, ac yn haeddu atal Foden o’r gwaith dros dro tra bod y mater yn cael ei ymchwilio. Mewn gwirionedd, er gwaethaf cyflwyno’r pryder hwn ar yr un pryd â bod honiad arall o ataliaeth yn erbyn disgybl gwrywaidd ifanc yn cael ei ystyried, ac ymchwiliad Adran 5 yn cael ei gynnal mewn perthynas â disgybl

benywaidd, Plentyn G, nid oes unrhyw dystiolaeth bod y materion cyfochrog hyn wedi cael eu croesgyfeirio na'u cysylltu â phryderon tebyg blaenorol.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Gofynnodd Cadeirydd y Llywodraethwyr i Foden weithio gartref am gyfnod. Gwnaed hyn er gwaethaf penderfyniad Uwch Swyddogion, Cyfarwyddwr GPaTh ALI1, Pennaeth Addysg 1 ALI1, Pennaeth GPaTh ALI1, Cyn Gyf Cor ALI1 a Swyddog Cyfreithiol ALI1 y dylid argymell i Gadeirydd y Llywodraethwyr ei fod yn atal Foden o'i waith dros dro.

Ar 13 Hydref 2021, gwnaeth Plentyn G ddatgeliad ynghylch Foden i staff yn Ysgol 2. Datgelodd Plentyn G yn uniongyrchol fod rhyngweithio â Foden wedi gwneud iddi deimlo'n anghyfforddus a'i bod ofn dod i'r ysgol.

Ar 15 Hydref 2021, anfonwyd dau atgyfeiriad at GPaTh ALI1, yn ymwneud â rhyngweithio Foden gyda Phlentyn G.

Gwnaeth Ysgol 2 atgyfeiriad at GPaTh ALI1 yn dilyn datgeliad Plentyn G ei bod yn teimlo'n ofnus ac anghyfforddus yn dod i'r ysgol oherwydd Foden, bod ei ffrindiau wedi dangos erthyglau iddi ar y Cyfryngau Cymdeithasol am Foden a'u bod wedi ei hannog i weld bod beth yr oedd Foden yn ei wneud iddi yn *anghywir*.

Datgelodd Plentyn G ar 12 Hydref 2021 fod Foden wedi gofyn am ei gweld yn ei swyddfa a phan wrthododd, roedd Foden wedi dod i'w nôl o'i gwers gyntaf a mynd â hi i'w swyddfa ei hun. Rhannodd Plentyn G fod Foden wedi aros y tu allan i'r ystafell ddosbarth am 5-10 munud iddi dawelu gan ei bod wedi cynhyrfu'n lân. Cyflwynodd Ysgol 2 wybodaeth bellach bod cymhorthydd addysgu hefyd wedi rhannu ei bod wedi clywed disgybl arall yn dweud y byddai Plentyn G '*yn cwyno am Foden oherwydd ei fod wedi cyffwrdd â'i choes*'. Roedd Plentyn G hefyd wedi datgelu bod Foden wedi anfon neges e-bost ati yn hwyr y nos, unwaith mor hwyr â 00:45. Sylwodd Plentyn G fod Foden yn ei helpu ond yn gwneud hyn yn y ffordd anghywir.

Ar 15 Hydref 2021, gwnaeth asiantaeth Gofal Iechyd atgyfeiriad ar wahân ond tebyg i GPaTh ALI1 lle adroddwyd bod Plentyn G wedi datgelu i weithiwr Gofal Iechyd proffesiynol y diwrnod hwnnw fod Foden yn gwneud iddi deimlo'n anghyfforddus iawn gan ei fod yn gofyn am ei gweld yn aml yn ei swyddfa yn yr ysgol er mwyn archwilio ei breichiau am arwyddion o hunan-niweidio.

Rhannodd Plentyn G hefyd fod Foden yn aml yn anfon negeseuon e-bost ati ar ôl oriau ysgol '*yn gofyn a ydi hi'n iawn ac os na fyddai hi'n ateb, byddai'n parhau i anfon negeseuon; yn ddiweddar dywedodd ei fod wedi anfon neges e-bost ati am 00:45 yn gofyn iddi ddod i'w weld yn ei swyddfa yn y bore'.*

Datgelodd Plentyn G wrth yr ymarferydd gofal iechyd hwn ei bod ofn cael ei gwahardd. Dywedodd wrthynt ei bod wedi siarad â Dirprwy Bennaeth UDD Ysgol 2, a oedd wedi lawrlwytho rhai o'r negeseuon e-bost oddi ar ei ffôn, ac a oedd wedi gwneud atgyfeiriad hefyd.

Ar 19 Hydref 2021, dirprwywyd y dasg o gadeirio Trafodaeth Strategaeth Adran 5 i Arweinydd Tîm GPaTh ALI1, a chytunwyd y byddai ymchwiliad adran 47 yn cael ei gynnal mewn perthynas â Phlentyn G ac y byddai cadarnhad yn cael ei geisio o'r negeseuon e-bost a anfonwyd gan Foden. Nodwyd nad oedd tystiolaeth i ddangos bod trosedd wedi'i chyflawni, ond roedd problemau o ran ffiniau, ac mewn perthynas â Chyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5, nid oedd yn glir a oedd plentyn wedi'i gam-drin.

Dechreuodd yr ymchwiliad adran 47 ar 19 Hydref 2021. Yn ystod yr ymchwiliad, rhannodd Plentyn G fod Foden yn ei dychryn, a'i bod wedi gofyn i Ddirprwy Bennaeth UDD Ysgol 2 hysbysu Foden nad oedd hi eisiau ei weld, ac ymateb Dirprwy Bennaeth UDD Ysgol 2 oedd '*na allent wneud hynny oherwydd mai ef oedd y bos'*, (dyfyniad yw hwn, wedi'i aralleirio gan ALI1 yn eu cronoleg).

Pan ofynnwyd iddi am y cofleidiad a grybwyllwyd yn yr atgyfeiriad gan Ysgol 2, rhannodd Plentyn G fod Foden wedi gofyn iddi fynd i'w weld yn ei swyddfa. Ar y dechrau gwrthododd ac yna cytunodd. Datgelodd fod Foden wedi ei chofleidio a disgrifiodd eu bod yn eistedd ochr yn ochr, bod Foden wedi rhoi ei ddwy fraich o'i chwmpas, a bod breichiau Plentyn G i lawr wrth ei hochr. Eglurodd Plentyn G fod Foden yn gwneud iddi deimlo'n annifyr. Dywedodd Plentyn G fod y cofleidiad wedi para tua 5-10 munud.

Dywedwyd wrth Blentyn G fod y cofleidiad ac amseroedd y negeseuon e-bost yn amhriodol ac amhroffesiynol, ac y dylai siarad â'i nain y noson honno. Cofnodwyd

> *'canlyniad adran 47 yw bod y pryderon wedi'u cadarnhau, ond na fernir bod y plentyn yn wynebu risg parhaus o niwed sylweddol'.*

Daeth yr ymchwiliad adran 47 i ben ar 19 Hydref 2021. Ni ofynnodd unrhyw un am gael gweld negeseuon e-bost Foden i wirio cyfrif Plentyn G o'r digwyddiadau, nac yn wir i geisio cyd-destun nac eglurhad pellach o'r negeseuon.

Ar 3 Tachwedd 2021, cynhaliwyd Trafodaeth Strategaeth Broffesiynol Adran 5 yn dilyn yr ymchwiliad adran 47.

Adroddwyd yn y Drafodaeth Strategaeth Broffesiynol Adran 5 hon fod Plentyn G wedi dweud wrth weithwyr cymdeithasol yn yr ymchwiliad adran 47 ei bod wedi chwilio ar y rhyngrwyd am [Foden] a bod yr hyn a welodd wedi gwneud iddi deimlo hyd yn oed yn fwy anghyfforddus. Dywedodd nad oedd yn teimlo'n hapus am y pethau yr oedd hi wedi'i glywed amdano.

Mewn perthynas â'r cofleidiad hir, dywedodd Plentyn G ei bod wedi cynhyrfu ac wedi bod yn crio. Gofynnodd Foden iddi fynd i mewn i'w ystafell. Cofleidiodd hi am ei bod wedi cynhyrfu, ond teimlai fod y cofleidiad wedi para am 10 munud a theimlai'n anghyfforddus iawn.

Gofynnodd Cadeirydd y cyfarfod - Arweinydd Tîm GPaTh ALI1 - a oedd yn briodol i Foden fod yn anfon negeseuon e-bost y tu allan i oriau ysgol, gan ddatgan nad oedd yn gwybod a oedd hyn yn ymddygiad derbyniol, ac y byddai'n gofyn i Add ALI1 am eu barn.

Hysbysodd Uwch Reolwr Add 2 ALI1 (yn ddiweddarach Pennaeth Addysg 2) y cyfarfod [mewn perthynas â Foden yn anfon negeseuon e-bost at Blentyn G]

> *'Mae'n amhriodol. Ni ddylai Penaethiaid fod yn sgwrsio â disgyblion, yn enwedig rhai diamddiffyn, y tu allan i oriau ysgol. Gan fod y negeseuon e-bost wedi'u hanfon o'i gyfeiriad e-bost ysgol, byddant mewn cwmwl ac ni ellir eu dileu. Roedd ei weithredoedd yn bendant yn amhriodol ac nid yn beth arferol i bennaeth ei wneud; mae amseriad y peth hefyd yn broblem, dim ond ers mis yr oedd wedi bod yn yr ysgol. Mae'r Adran Addysg yn bryderus am y materion a godwyd ond o ran y drafodaeth yma, nid yw'r trothwy wedi'i gyrraedd ond mae angen mynd i'r afael â rhai materion'.*

Ailadroddodd Uwch Reolwr Add 2 ALI1 fod *anfon e-bost yn hollol amhriodol.*

Nodwyd yn y cyfarfod mai dim ond negeseuon e-bost o ffôn Plentyn G yr oedd y gweithwyr proffesiynol wedi'u gweld ond dywedodd HGC:

> *'os yw'r ddau yn cysylltu y tu allan i oriau ysgol, dydw i ddim yn siŵr pa mor bell y gallwn ni fynd â phethau, mae'n ymateb i'w neges, nid ef yw'r un sydd wedi cychwyn y sgwrs, ac os nad yw'n mynd i fynd ymhellach does dim angen cael gweld y negeseuon e-bost'.*

Er bod HGC yn cydnabod *pe bai ef yn cychwyn y sgwrs yna byddai'n stori wahanol*, gwnaed y penderfyniad i beidio â mynd â'r ymholiad ymhellach ac ni adolygwyd negeseuon e-bost Foden.

> Roedd y penderfyniad i beidio ag adolygu gohebiaeth e-bost Foden yn gyfle a gollwyd

Mae'r Adolygwyr wedi cael gweld rhai o'r negeseuon e-bost rhwng Foden a Phlentyn G, ac roedd yn amlwg bod Foden wedi cysylltu â Phlentyn G yn aml dros gyfnod sylweddol o amser, weithiau yn y nos, ac ef oedd yn cychwyn y cyswllt weithiau.

Nodwyd yn y cyfarfod Adran 5 fod Foden yn newydd i Ysgol 2 ac efallai na chafodd ei gynghori i beidio ag ymateb i Blentyn G a oedd yn hysbys am anfon negeseuon e-bost at staff eraill. Mewn gwirionedd, roedd Foden wedi neilltuo Plentyn G, gan ei chlustnodi fel unigolyn diamddiffyn, ac wedi gofyn i staff diogelu amdani. Dywedwyd wrth Foden fod staff yn ei chael hi'n anodd rheoli rhyngweithiadau Plentyn G â gweithwyr proffesiynol ac roedd Foden wedi cynnig ymyrryd ar unwaith. Pe bai UDD Ysgol 2 wedi cael ei wahodd i'r Cyfarfod Proffesiynol Adran 5, neu pe bai Add ALI1 wedi cysylltu ag Ysgol 2 am y mater cyn y cyfarfod hwn, byddai hyn wedi cael ei egluro.

> Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Canlyniad y Drafodaeth Strategaeth Broffesiynol Adran 5 oedd bod materion pryderus wedi'u codi '*ond o ran y drafodaeth yma, ni chyrhaeddwyd y trothwy ond mae angen*

*mynd i'r afael â rhai materion'.* Cytunwyd y byddai angen i Addysg fynd i'r afael â'r materion gyda'r ysgol. Nid yw'n glir a gymerwyd unrhyw gamau, na sut a phwy yn yr ysgol oedd i gael gwybod am hyn er bod Uwch Reolwr Add2 ALl1, yn ddiweddarach Pennaeth Addysg 2, yn bresennol. Ni chadwyd cofnod clir o'r broses wneud penderfyniadau na'r canlyniad, ac mae'n debyg i hynny arwain at annog Foden wrth symud ymlaen.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Yn y Gronoleg, adroddodd Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO):

> *'Trafodwyd rhai materion ymarfer proffesiynol yn ystod y drafodaeth. Roedd y rhain yn cynnwys y rôl fugeiliol a chefnogol a p'un a ddylai ef [Foden] fod mewn sefyllfa 1:1 gyda phlentyn diamddiffyn, y cwestiwn o gyffwrdd a chofleidio plentyn a'r negeseuon y tu allan i oriau ysgol. Roedd cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Addysg yn bwriadu codi'r materion hyn gyda Foden'.*

Nid oes unrhyw gofnod bod unrhyw gamau dilynol wedi'u cymryd nac o bwy a allai fod wedi siarad â Foden a phryd.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Ar 14 Ionawr 2022 cysylltodd Ysgol 2 ag Add3 ALl1 yn gofyn am gyngor ar ganlyniad atgyfeiriad cynharach yr ysgol yn ymwneud â Phlentyn G, dyddiedig 15 Hydref 2021. Roedd Ysgol 2 yn bryderus bod Foden wedi bod mewn cysylltiad â hi eto yn gofyn am ei gweld wythnos yn unig i mewn i'r tymor newydd.

Wedi hynny, cysylltodd Add3 ALl1 ag Arweinydd Tîm GPaTh ALl1 yn gofyn am adborth yn dilyn atgyfeiriad cynharach Ysgol 2 am Blentyn G a dywedwyd wrthynt gan Arweinydd Tîm GPaTh ALl1 fod y mater wedi dod i ben a'i fod ar gau i GPaTh ALl1 (gweler isod am adborth pellach). Mae hyn yn gyson â neges e-bost a welwyd gan yr Adolygiad (dyddiedig 10 Tachwedd 2021) wedi'i gyfeirio at Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol 1 (gweler y troedyn ar dudalen 25), a nododd y canlynol fel rhan o'r Drafodaeth Strategaeth Adran 5

> *'…dim trosedd nac unrhyw faterion amddiffyn plant. Mae'r achos wedi'i gau ac nid oes angen unrhyw gamau pellach.' 'Trafodwyd materion ymarfer proffesiynol'*

a bod

> *'cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Addysg yn bwriadu codi'r materion hyn gyda Mr Foden'.*

Mae'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth bod Foden wedi cael llythyr dyddiedig 15 Tachwedd 2021 gan Uwch Reolwr 2 GPaTh ALl1 (LADO)

*'yn unol â chamau Trafodaeth Strategaeth Adran 5 (03/11/2021) …. ynghylch canlyniad ymchwiliad i'r honiadau a wnaed yn ei erbyn yn ddiweddar.'*

Mewn ymateb, roedd Foden wedi rhoi sicrwydd ysgrifenedig dros e-bost ar 15 Tachwedd 2021 na fyddai'n

*'ateb negeseuon e-bost na chyfarfod â [Plentyn G] ar ôl yr honiad hwn'.*

Roedd y ffaith nad oedd hyn wedi cael ei gyfleu i'r ysgol yn gyfle a gollwyd

Pe bai'r ysgol wedi cael gwybod am y canlyniad hwn, byddent wedi bod mewn sefyllfa i ymateb yn wahanol iawn pan ddywedodd Plentyn G wrthynt ym mis Ionawr 2022 fod Foden wedi cysylltu â hi, gan ofyn am ei gweld.

Ar 14 Ionawr, ceisiodd Add3 ALl1 gyngor gan GPaTh ALl1, gan ofyn yn benodol a oedd unrhyw beth i atal Foden rhag siarad â Phlentyn G. Nododd Add3 ALl1 mewn neges e-bost a anfonwyd at Bennaeth Addysg 1 ALl1 *(er gwybodaeth)*, ei bod wedi cael gwybod gan Arweinydd Tîm GPaTh ALl1, yn seiliedig ar gofnodion Trafodaeth Strategaeth Broffesiynol Adran 5,

*'fod angen i Pennaeth blwyddyn Plentyn G wybod am y cyfarfod a fod Plentyn G yn hapus i gyfarfod a Mr Foden'*.

Efallai bod y gramadeg gwael yn y neges e-bost hon wedi cymylu'r ystyr arfaethedig, ac nid oedd unrhyw beth yn nodiadau'r Drafodaeth Strategaeth Broffesiynol Adran 5 yn cyfateb i'r angen i hysbysu'r pennaeth blwyddyn. Nid yw'n amlwg pwy wnaeth y pwynt hwn yn wreiddiol ac yn seiliedig ar ba wybodaeth.

Er gwaethaf yr amwysedd hwn, ymddengys nad oedd ymateb Foden i Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO), sef na fyddai'n *'ateb negeseuon e-bost na chyfarfod â [Plentyn G]',* yn hysbys i Arweinydd Tîm GPaTh ALl1 ac felly ni chafodd ei gyfleu i Ysgol 2.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Nid yw'r Adolygiad wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod y ddau ddarn allweddol hyn o wybodaeth wedi'u rhannu â staff diogelu'r ysgol yn dilyn ymchwiliad Tachwedd 2021. Dywedodd Dirprwy Bennaeth UDD Ysgol 2, yn ystod cyfweliad â'r Adolygwyr, nad oeddent yn ymwybodol o'r wybodaeth hon ar y pryd, gan ddweud **nad oedd** Plentyn G wedi bod yn hapus i gyfarfod â Foden. Anesmwythder Plentyn G ar ôl iddi gael cais i gyfarfod â Foden oedd y rheswm pam y gofynnodd Ysgol 2 am gyngor gan Add3 ALl1. Nid oedd Ysgol 2 yn ymwybodol chwaith fod Foden wedi datgan y byddai'n ymatal rhag gweld na chysylltu â Phlentyn G eto.

Ar 10 Ionawr 2022, bedwar diwrnod cyn yr ohebiaeth uchod, cyfnewidiwyd negeseuon e-bost rhwng Pennaeth Addysg 1 ALl1 a Foden yn trafod a ddylai Ysgol 2 wneud

atgyfeiriad newydd ynghylch Plentyn G ai peidio. Mae'r Adolygiad wedi gweld negeseuon e-bost sy'n dangos bod Add3 ALI1 yn gadarn o'r farn y **dylid** gwneud atgyfeiriad ac **na ddylid** dweud wrth Foden am yr atgyfeiriad hwn. Mae'r negeseuon e-bost hyn yn dangos bod Foden **wedi cael gwybod**. Mae tystiolaeth bod Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) a Dirprwy Bennaeth Ysgol 2 wedi cael eu henwi fel rhai â fu'n rhan o'r drafodaeth, ond ymddengys nad oes unrhyw gofnodion pellach yn bodoli ac nid yw'r Adolygwyr wedi gallu canfod natur y pryder, cynnwys y drafodaeth na'r amgylchiadau a arweiniodd at y drafodaeth. Mae GPaTh ALI1 wedi datgan na wnaed unrhyw atgyfeiriad.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Yn ddiamau, llwyddodd yr ymateb negyddol a dderbyniwyd i gyflwyno pryderon am Foden i atal adrodd pellach. Mae hyn yn amlwg mewn gohebiaeth rhwng UDRh Craidd 1 ac UDRh Craidd 3 ym mis Ebrill / Mai 2020 sy'n cyfeirio'n ôl at yr adroddiad a wnaed gan UDRh Craidd 1 ym mis Ebrill 2019, ac mewn negeseuon e-bost a anfonwyd yn 2023 rhwng tri aelod o UDRh Craidd Ysgol Friars (gweler digwyddiadau allweddol) ac a welwyd gan yr Adolygiad, pan ofynnodd UDRh Craidd 1 a 3 i UDD2 wneud atgyfeiriad a gwrthododd wneud hynny.

Yn yr un modd, mewn achosion eraill yn ymwneud â dioddefwyr/goroeswyr pan wnaeth ymarferwyr rheng flaen atgyfeiriadau at GPaTh ALI1, roedd gofyn iddynt droi at eu Huwch Reolwyr am gymorth pellach. Mewn rhai achosion, mae tystiolaeth bod defnyddio trothwyon wedi dod yn destun dadl hirfaith rhwng GPaTh ALI1 ac Uwch Arweinwyr ALI2 ac ALI3, yn hytrach na chyfarwyddo camau gweithredu i gadw plant yn ddiogel. Archwilir hyn o dan Thema 3 Gwaith Rhyngasiantaethol.

Ni welodd yr Adolygwyr unrhyw dystiolaeth bod prosesau uwchgyfeirio ffurfiol trwy Brotocol Gogledd Cymru ar gyfer Datrys Anghydfodau Proffesiynol wedi cael eu dilyn i ddatrys yr anghydfodau hyn, dim ond negeseuon e-bost hirfaith rhwng gweithwyr proffesiynol mewn Awdurdodau Lleol cyfagos.

Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol sy'n codi pryderon am oedolyn sy'n gweithio gyda phlant yn gallu gwneud hynny gyda'r hyder y byddant yn cael eu clywed. Ar y cyfan, ni siaradwyd â'r plant a oedd yn destun pryder y gweithiwr proffesiynol, a phan wnaed hynny, ni ystyriwyd eu barn a'u profiadau neu ni roddwyd digon o hygrededd iddynt i effeithio ar ganlyniadau.

Roedd y rhain yn gyfleoedd a gollwyd ac roedd plant yn parhau i fod yn wynebu risg

## Thema 3: Gwaith Rhyngasiantaethol

Mae'r trefniadau ffurfiol ar gyfer gweithio'n rhyngasiantaethol i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg wedi'u nodi yn *Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), 2014*[8] a'r Canllawiau cysylltiedig, *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymddygiad Diogelu ar gyfer unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n cynnig gweithgareddau neu wasanaethau i blant ac oedolion yng Nghymru Ionawr 2022*[9].

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob unigolyn, grŵp a sefydliad sy'n cynnig gweithgareddau neu wasanaethau i blant ac oedolion yng Nghymru ddilyn y cyngor a ddarperir yn y Cod Ymarfer Diogelu hwn.

Pan fo pryder ynghylch oedolyn sy'n gweithio gyda phlant, mae gan weithwyr proffesiynol ym mhob asiantaeth gyfrifoldeb i weithio ar y cyd ac i weithredu heb oedi i ddiogelu'r plentyn a phlant eraill y gallai'r oedolyn hwnnw ddod i gysylltiad â nhw. Mae nifer o adolygiadau diogelu wedi nodi bod gwaith rhyngasiantaethol effeithiol yn hanfodol i gadw plant yn ddiogel. Dylai fod protocolau ysgrifenedig clir ar gyfer rheoli pryderon a rhannu gwybodaeth sy'n effeithiol ac yn gymesur. Mae angen i weithwyr proffesiynol fod yn hyderus yn eu gwaith eu hunain a'u gallu i asesu risgiau, ond hefyd i gydnabod y rolau, y systemau a'r cyfyngiadau y mae gweithwyr proffesiynol mewn asiantaethau eraill yn gweithio oddi tanynt. Er bod dyletswydd gofal ar gyflogwr i'r oedolyn, diogelwch y plentyn sy'n cael blaenoriaeth. Rhaid i bob asiantaeth sicrhau bod eu staff yn gymwys, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn gallu uwchgyfeirio risgiau o fewn asiantaethau a rhwng asiantaethau yn gyflym.

Mae ymddiriedaeth a dealltwriaeth yn elfennau hanfodol o bob gwaith partneriaeth a dylai ffocws ar les y plentyn/plant drechu unrhyw wahaniaethau personol a phroffesiynol.

Mae angen i weithwyr proffesiynol o bob asiantaeth fod yn ymwybodol y gall asiantaethau eraill weithredu o dan strwythurau gwahanol, y gall protocolau ar gyfer rhannu pryderon fod yn wahanol ac efallai na fydd y derminoleg a ddefnyddir yn gyffredin gan un asiantaeth yr un fath ar draws pob asiantaeth. Felly mae'n hanfodol bod hyfforddiant amlasiantaeth yn ystyried hyn. Yn yr un modd, gall trothwyon ar gyfer ymyrryd fod yn wahanol rhwng asiantaethau ac ymhellach rhwng siroedd a rhanbarthau. Dangoswyd rhwystrau i waith rhyngasiantaethol i'r Adolygiad hwn yn y dadansoddiad IMR a ddarparwyd gan GPaTh ALl1, lle nodir '*bod Gwasanaethau Plant ALl1 yn parhau i fod yn aneglur ynghylch dyraniad cyfrifoldebau rhwng yr AALl a Bwrdd y Llywodraethwyr mewn meysydd o'r fath'.*

Mae tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Adolygiad hwn wedi dangos rhai rhwystrau sylweddol i waith rhyngasiantaethol effeithiol ar draws y tri Awdurdod Lleol ac asiantaethau sy'n ymwneud â'r achos hwn. Mae hyn wedi'i drafod yn fanwl yn Thema 2 uchod mewn perthynas â rheoli honiadau ond mae hefyd yn berthnasol i agweddau eraill ar waith rhyngasiantaethol.

Mae fformat a chynnwys atgyfeiriadau i GPaTh ALl1 yn enghraifft dda (er bod fformat cyffredin yn cael ei ddefnyddio ar draws ALl2 ac ALl3). Disgwylir y bydd pob atgyfeiriad diogelu ac amddiffyn plant yn cael eu gwneud i un pwynt cyswllt ar gyfer brysbennu, gan ddefnyddio ffurflen atgyfeirio safonol. Mae'r ffurflen atgyfeirio y mae

[8] *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*
[9] https:/www.llyw.cymru/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cod-ymarfer-diogelu

GPaTh ALl1 yn ei defnyddio yn gyffredin ar draws y rhanbarth ac wedi'i chynllunio i gasglu manylion pryderon am blant a theuluoedd. Pryder yr Adolygiad yw, os gwneir atgyfeiriadau ac ymholiadau dros y ffôn, na weithredir arnynt nes bod y ffurflen wedi'i llenwi i foddhad GPaTh ALl1.

Pan wneir pryder neu honiad yn erbyn oedolyn sy'n gweithio gyda phlant, mae GPaTh ALl1 yn gofyn i'r un ffurflen gael ei llenwi, er gwaethaf y ffaith mai ychydig o wybodaeth sy'n hysbys am y plentyn a'r teulu o bosibl (yn enwedig pan fydd y plentyn hwnnw'n byw mewn sir arall) a bod y pryder yn ymwneud ag ymddygiad oedolyn. Nid oes unrhyw le ar y ffurflen i fynd i'r afael yn briodol â phryderon ynghylch yr oedolyn y gwneir yr honiad yn ei erbyn, gan wneud y ffurflen yn anymarferol i'w defnyddio yn y sefyllfa. Mae'r pwyslais ar ddefnyddio'r ffurflen yn gadarn, fel a welwyd gan dîm yr AYP, er enghraifft, hyd yn oed pan ffoniodd y DUDD i roi gwybod am y datgeliad gan Blentyn D ar 6 Medi 2023, pan ddylid bod wedi gweithredu ymateb brys fel cam cyntaf, roedd GPaTh ALl1 yn gofyn i'r wybodaeth gael ei chyflwyno'n ysgrifenedig, ar y ffurflen. Mae hefyd yn werth nodi nad yw'r ffurflen yn hawdd i'w chael ar-lein mewn fformat y gellir ei olygu'n hawdd ac nad yw'n cynnig arweiniad i'r sawl sy'n atgyfeirio o ran cynnwys.

Soniodd gweithwyr proffesiynol o nifer o asiantaethau a gyfrannodd at yr Adolygiad hwn pa mor anodd oedd cael GPaTh ALl1 i dderbyn atgyfeiriad am oedolyn sy'n gweithio gyda phlant, gan adrodd bod y ffurflen yn cael ei dychwelyd iddynt yn gofyn am eglurhad pellach ac yn cwestiynu eu defnydd o derminoleg neu'n anghytuno â pherthnasedd trothwyon. Mewn rhai achosion, arweiniodd hyn at orfod adolygu ac ailgyflwyno'r ffurflen sawl gwaith, gan achosi oedi wrth weithredu ar y cynnwys. Mewn sawl achos, gallai galwad ffôn rhwng gweithwyr proffesiynol fod wedi egluro materion yn llawer cyflymach, gan ddilyn ymlaen o hynny gyda ffurflen ysgrifenedig.

Adroddwyd gan swyddogion Add ALl1 fod hyn wedi golygu bod ysgolion, dan arweiniad Uwch Swyddogion Diogelu Addysg, wedi gorfod mabwysiadu dull strategol o lenwi ffurflenni er mwyn i GPaTh ALl1 dderbyn pryder i weithredu arno. Roedd hyn yn anochel yn rhwystredig i'r atgyfeiriwr, ac yn risg amlwg i'r plentyn neu'r plant, gan y byddai gorfod ymgynghori ar sut i lenwi ffurflen atgyfeirio yn llwyddiannus yn anochel yn achosi oedi wrth wneud yr atgyfeiriad ei hun.

O ran perthnasedd trothwyon, roedd amharodrwydd i roi ystyriaeth briodol i bryderon a godwyd gan weithwyr proffesiynol profiadol mewn asiantaethau eraill pan ystyriwyd bod diffyg tystiolaeth gadarn, hyd yn oed mewn achosion lle derbyniwyd nifer o atgyfeiriadau bron ar yr un pryd, yn annibynnol ar ei gilydd, gan weithwyr proffesiynol gwybodus a gyfeiriodd at yr un pryder. Yng nghyd-destun Plentyn A, roedd gweithwyr proffesiynol o'r SARC a'r NSPCC wedi atgyfeirio eu pryderon ar wahân ynghylch natur y rhyngweithiadau a welwyd rhwng Foden a Phlentyn A, a oedd yn dangos anghydbwysedd pŵer, gor-agosatrwydd a chroesi ffiniau. Adroddodd atgyfeiriwr yr NSPCC i'r Adolygiad hwn *na allent ddeall* sut y gallai'r Uwch Swyddog, Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO), fod wedi dehongli'r hyn a ysgrifennwyd ganddynt yn yr atgyfeiriad fel y gwnaethant, gan fod datgysylltiad llwyr i bob golwg rhwng y cynnwys a'r ymateb a dderbyniwyd. Achosodd hyn i weithiwr yr NSPCC adolygu'r atgyfeiriad a thrafod gyda'u goruchwyliwr. Adroddwyd gan GPaTh ALl1 i'r Adolygiad fod yr atgyfeiriad wedi'i *dynnu'n ôl*, ond mewn gwirionedd roedd Uwch Reolwr GPaTh ALl1 LADO wedi barnu nad oedd wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer Cyfarfod Strategaeth

Proffesiynol Adran 5, ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach. Gwadodd yr NSPCC yn gryf eu bod wedi tynnu eu hatgyfeiriad yn ôl.

Yn yr un modd, ym mis Gorffennaf 2023 cyflwynodd Gweithiwr Cymdeithasol o awdurdod cyfagos adroddiad ynghylch rhyngweithiadau Foden â Phlentyn F a oedd yn cynnwys disgrifiad o ymddygiad a awgrymodd yn glir fod perthynas amhriodol yn cael ei meithrin â Phlentyn F, a bod Foden wedi ei chofleidio mewn ffordd a oedd yn gwneud iddi deimlo'n anghyfforddus. Ystyriwyd bod yr atgyfeiriad yn annigonol ar y sail bod angen rhagor o wybodaeth er mwyn parhau a bod yr atgyfeiriad wedi'i gyflwyno'n wael.

Yn y drafodaeth ddilynol a gynhaliwyd yn bennaf dros e-bost, mae Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) yn cwestiynu'r atgyfeiriad, gan ddatgan:

> *'Rwy'n credu y gallwch ddeall bod gwneud atgyfeiriad amddiffyn plant am Foden yn fater difrifol iawn. Mae'n awgrymu ei fod yn gwneud rhywbeth na ddylai ei wneud yn uniongyrchol yn erbyn y cyfarwyddiadau a'r cytundebau sydd ar waith gydag ef. Mae wir angen i ni ddeall y dystiolaeth.* Mae'n cyfeirio ar yr un pryd at y frawddeg, '*Nid dyma'r tro cyntaf y gofynnwyd i Mr Foden beidio â chael unrhyw amser heb oruchwyliaeth gyda Phlentyn F oherwydd pryderon ynghylch y berthynas broffesiynol (Nid yw'n glir pwy sydd wedi gofyn i bwy beidio â gwneud hyn, na phryd. A ofynnwyd i Foden beidio â gwneud hynny? Os felly, wnaeth o gytuno? Pwy ddywedodd wrtho a phryd? A yw'n rhan o Gynllun Addysg plentyn nad yw'n gwneud hynny? Os nad yw i fod i wneud hyn, a yw wedi cael gwybod pam?'*

Mae hyn yn dangos diffyg dealltwriaeth ryngasiantaethol o safonau a phrosesau proffesiynol fel y cyfeirir atynt o dan Thema 2: Rheoli Honiadau. Ni ystyriodd Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) fod y mater yn cyrraedd y trothwy ar gyfer Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol o dan Adran 5 ac er bod yr awdurdod arall yn glir *ei fod* yn cyrraedd eu trothwy *nhw*. Ni chafodd y mater ei ddatrys am 9 wythnos arall – mewn gwirionedd tan ar ôl i Blentyn D ddatgelu camdriniaeth yn yr ysgol ar 6 Medi 2023.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Mae'r modd y rheolwyd pryderon ynghylch oedolion sy'n gweithio gyda phlant gan ALI1 yn dangos datgysylltiad clir rhwng Add ALI1 a GPaTh ALI1 o ran disgwyliadau o ymarfer proffesiynol, a diffyg parch at asesiad proffesiynol asiantaethau eraill o bryderon a risgiau nad ydynt yn cyrraedd y trothwy troseddol.

Yn achos Plentyn A a Phlentyn F, roedd anghydfod rhwng yr awdurdodau cartref, yn eu tro, ac ALI1 ynghylch y trothwy ar gyfer cynnal Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5, gyda'r awdurdodau hynny yn cadarnhau pe bai'r gweithiwr proffesiynol wedi bod yn gweithio yn eu hardal nhw y byddai'r trothwy wedi'i gyrraedd a byddai cyfarfod wedi'i alw.

Roedd diffyg dealltwriaeth o weithdrefnau asiantaethau hefyd yn rhwystr i drin pryderon yn effeithiol ac effeithlon mewn argyfwng. Pan adroddwyd am ddatgeliad Plentyn D ar 6 Medi 2023, ni wnaed hynny yn unol â pholisi'r ysgol, sy'n nodi'n glir y

dylid hysbysu Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Swyddog Diogelu Addysg pan godir pryder neu honiad am y Pennaeth. Clywodd yr Adolygiad na fu posib i'r DUDD gael gafael ar Gadeirydd y Llywodraethwyr na'i Ddirprwy tan yn gynnar yn y prynhawn, er ei fod wedi ceisio cael gafael arnynt sawl tro. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth bod y DUDD nac Arweinydd Tîm GPaTh ALl1 wedi ceisio cysylltu â'r Swyddog Diogelu Addysg o gwbl, fel y disgwylir pe bai gweithdrefnau adrodd wedi cael eu dilyn. Ni wnaeth y DUDD na GPaTh ALl1 chwaith ffonio HGC ar unwaith, er bod tystiolaeth ar lafar o gam-drin rhywiol o blentyn gan y Pennaeth. Er ei fod wedi cael gwybod cyn HGC, ni welodd yr Adolygiad unrhyw dystiolaeth bod Uwch Reolwr Add2 ALl1, yn ddiweddarach Pennaeth Addysg 2, wedi rhoi gwybod i'r Swyddog Diogelu Addysg, Cadeirydd y Llywodraethwyr, Pennaeth Addysg 1 ALl1 na HGC.

Canlyniad hyn oedd bod Plentyn D yn parhau i wynebu risg, wedi'i chuddio ar dir yr ysgol tra bod Foden, a oedd wedi ceisio, a methu, mynd ati, yn gallu dileu tystiolaeth ar ei ffôn symudol a pharhau i ddefnyddio ei ddyfeisiau eraill.

## Thema 4: Arferion Cyfyngol

Dywedwyd wrth yr Adolygiad fod gan Foden enw ers degawdau am ddefnyddio grym corfforol i atal disgyblion gwrywaidd. Mae'r adolygwyr wedi gweld tystiolaeth o bedwar achos a gofnodwyd o Foden yn defnyddio arferion cyfyngol yn erbyn disgyblion gwrywaidd ifanc rhwng 2021 a 2022, yn y ddwy ysgol, a hefyd o ddigwyddiadau a gyflawnwyd gan aelodau gwrywaidd eraill UDRh Craidd Ysgol Friars. Atgyfeiriwyd tri o'r pedwar achos hyn dan weithdrefnau Adran 5, ond ni atgyfeiriwyd y llall. Ni wnaed yr un o'r atgyfeiriadau gan yr ysgol. Ni chanfuwyd cofnod clir, llawn o gwynion am y defnydd o arferion cyfyngol yn Ysgol Friars, fel y byddai Add ALl1 wedi ei ddisgwyl.

Nid yn unig yr oedd defnydd Foden o arferion cyfyngol yn erbyn disgyblion gwrywaidd ifanc yn gamddefnydd o'i awdurdod a'i reolaeth, roedd hefyd yn debygol o fod yn ymddygiad a fwriadwyd i feithrin ymdeimlad o ofn ymysg y disgyblion. Roedd Foden yn defnyddio'r dulliau atal hyn yng ngolwg pawb, yn aml gydag aelodau ei UDRh gerllaw, yn cael eu hannog ganddo i ffilmio'r digwyddiadau ar eu ffonau symudol personol. Roedd Foden wedi cyfiawnhau ei weithredoedd yn llawn iddynt ac yn mynnu bod ganddo hawl i ymddwyn fel hyn, fel yr amlinellir ym mholisi Ysgol Friars ac yn ei ddehongliad ef o amrywiol ddogfennau polisi a chanllawiau sirol a chenedlaethol (y cyfeirir atynt yn fanwl isod). Defnyddiodd yr un safbwynt yn ei ddatganiad amddiffyn a gyflwynwyd ar 16 Rhagfyr 2021 i'w ystyried mewn Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5. Mae'r ffaith nad yw'n ymddangos i unrhyw un herio ei safbwynt am yr ymddygiad hwn yn achos cryn bryder. Roedd hefyd yn paratoi'r ffordd i aelodau gwrywaidd eraill UDRh Ysgol Friars fabwysiadu'r un safbwynt ac ymddygiad.

Mae Llywodraeth Cymru'n nodi'n glir y dylai polisïau ac arferion ganolbwyntio ar leihau arferion cyfyngol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith ar gyfer *Lleihau Arferion Cyfyngol, 2021*[10] sy'n ceisio lleihau'r galw am ddefnyddio arferion cyfyngol ac yn nodi mai fel dewis olaf yn unig y bydd arferion cyfyngol yn cael eu defnyddio, i atal niwed i'r unigolyn neu i eraill, a'i fod yn seiliedig ar gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr

[10] *Fframwaith ar gyfer Lleihau Arferion Cyfyngol, 2021*

unigolyn. Bu i'r Fframwaith hwn ddisodli'r *Fframwaith ar gyfer Polisi ac Arferion o ran Ymyriad Corfforol Cyfyngol 2005*[11], a oedd wedi'i seilio ar yr un egwyddorion craidd.

Fodd bynnag, cynnig arweiniad anstatudol mae Fframwaith 2021, yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer polisi ac arferion. Gan hynny, mae disgwyl i Estyn ystyried cydymffurfiaeth â'r dull a nodir yn y Fframwaith wrth gyflawni arolygiadau. Mae dibynnu ar Estyn fel hyn yn risg o feddwl nad yw'n anghyffredin i dros 6 mlynedd fynd heibio rhwng arolygiadau ysgol. Cynhaliwyd arolygiad diwethaf Estyn o Ysgol Friars yn 2017, sydd 8 mlynedd yn ôl. Mae'r Fframwaith hefyd yn nodi, os oes unrhyw arwydd bod arferion cyfyngol yn cael eu defnyddio'n amhriodol, bod rhaid rhoi gwybod am hyn fel pryder diogelu. Gyda'r dull hwn, mae'n llai tebygol y bydd angen gofyn a oedd graddau'r grym a ddefnyddiwyd yn rhesymol neu'n gyfystyr ag ymosodiad troseddol os bydd pob cam ataliol yn cael ei roi ar waith yn gyntaf.

Os defnyddir arferion cyfyngol, fel dewis olaf, rhaid iddynt ddod o fewn y fframwaith a'r egwyddorion sy'n cefnogi hawliau dynol (*Fframwaith Hawliau Dynol ar gyfer Ataliaeth a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, EHRC, 2019*[12]*).* Rhaid i unrhyw arfer cyfyngol a ddefnyddir ddilyn yr opsiwn lleiaf cyfyngol sydd ar gael. Yn yr achosion y mae'r Adolygiad hwn yn eu hystyried, nid yw'n ymddangos mai dyma'r achos.

Yn ystadegol, plant ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael eu cam-drin. Dylid bod yn arbennig o sensitif felly wrth arfer y pŵer i ddefnyddio grym yn erbyn plant ag anghenion addysgol arbennig (AAA) a phroblemau emosiynol ac ymddygiadol, fel y nodir yn *Fframwaith ar gyfer Lleihau Arferion Cyfyngol: asesiad o'r effaith ar hawliau plant, 2021*[13] Llywodraeth Cymru. Ni chydymffurfiodd Foden â'r disgwyliad hwn mewn perthynas â Phlentyn I, ac ni ddefnyddiodd ddarpariaeth, meini prawf nac arferion a oedd yn briodol i gyflwr hysbys y plentyn.

Mae Canllawiau Cenedlaethol ar ataliaeth a oedd mewn grym yn ystod y cyfnod dan ystyriaeth yn yr Adolygiad hwn (*Ymyriad Diogel ac Effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau, 2013*[14]) hefyd yn nodi'n glir mai fel dewis olaf yn unig y dylai athrawon ddefnyddio grym, ac y dylai cynllun rheoli ymddygiad fod ar waith ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol yn ôl yr angen. Roedd y canllawiau hyn yn nodi rôl yr Awdurdod Addysg o ran casglu gwybodaeth i ganfod tueddiadau a gwerthuso agweddau ysgolion tuag at y defnydd o ymyriad corfforol.

Mae polisi enghreifftiol ALl1 ei hun ar Ymyriad Diogel, a gyhoeddwyd yn 2018, yn adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol, ac yn nodi bod angen darparu cyngor ar leihau'r angen i ddefnyddio grym rhesymol a thalu sylw penodol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). O ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau, nodir y dylid gwneud cofnod o'r digwyddiad cyn gynted ag y bo modd (pan fo'n hawdd dwyn y digwyddiad i gof o hyd) yn defnyddio'r ffurflen *Defnyddio Grym Rhesymol - HS11*, gan anfon copi i'r Awdurdod Lleol a chadw copi'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r polisi diogelu hwn yn gosod dyletswydd ar ysgolion i gysylltu â'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu Plant mewn Addysg ar unwaith pan fo pryder neu honiad yn cael ei

[11] *Fframwaith ar gyfer Polisi ac Arferion o ran Ymyriad Corfforol Cyfyngol, 2005*

[12] *Fframwaith Hawliau Dynol ar gyfer Ataliaeth a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, EHRC, 2019*

[13] https://www.llyw.cymru/fframwaith-lleihau-arferion-cyfyngol-asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant

[14] *Ymyriad Diogel ac Effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau, 2013*

wneud yn erbyn aelod staff. Ni wnaed hyn er bod polisi Ysgol Friars yn cynnwys yr un wybodaeth, ond heb y manylion cyswllt cyfredol. Ni ddilynodd yr ysgol ei pholisi ei hun. Roedd Foden wedi perswadio ei staff mai ef oedd yn cael penderfynu a ddefnyddiwyd grym afresymol ai peidio. Nid oes gan yr Adolygiad unrhyw gofnod ei fod wedi dod i'r penderfyniad hwn erioed, sydd felly'n dileu unrhyw ffordd amlwg i'r Awdurdod Lleol allu monitro amlder a graddau'r grym a ddefnyddiwyd i atal gan staff Ysgol Friars.

Yn hyn o beth, aeth Foden i gryn drafferth i danseilio'r egwyddorion a nodir yng nghanllawiau cenedlaethol 2022 a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig drwy ddethol dyfyniadau, dehongli unrhyw amwyseddau ynddynt yn ei ffordd ei hun, a chyfarwyddo ei UDRh - mewn negeseuon e-bost a welwyd gan yr Adolygwyr - mai ganddo ef oedd yr awdurdod i wneud penderfyniadau ynglŷn â gwneud atgyfeiriad pan fo aelodau staff wedi defnyddio dulliau atal a'r hyn y gellid ei ystyried yn rym afresymol wrth ddelio ag achosion o'r fath. Llwyddodd i fwrw amheuaeth ddigonol ar y ddealltwriaeth roeddent wedi'i chael o'r gweithdrefnau drwy hyfforddiant ffurfiol yr Awdurdod Lleol. Wrth wneud hynny, cynyddodd Foden oddefiad ei UDRh o'r arfer hwn pan oeddent yn ei weld, yn ogystal â'r risg gysylltiedig o niwed i ddisgyblion yn Ysgol Friars.

Ar ddefnyddio grym afresymol, mae Polisi Amddiffyn Plant yr ysgol yn gyson â'r canllawiau cenedlaethol wrth nodi y dylid cynnal asesiad - nid ymchwiliad - cychwynnol i asesu'r amgylchiadau, ond **dim ond** ar ôl ymgynghori â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Awdurdod Lleol. Y Pennaeth ddylai wneud hyn mewn achosion o honiadau yn erbyn eu staff, neu Gadeirydd y Llywodraethwyr pan fo'n ymwneud â'r Pennaeth. Nid yw'r Adolygiad wedi gweld unrhyw dystiolaeth y rhoddwyd gwybod i Gadeirydd y Llywodraethwyr am unrhyw achosion o ataliaeth, fel y dylai fod wedi digwydd, ac ni roddwyd gwybod i'r Awdurdod Lleol am unrhyw achosion gan staff yr ysgol na Chadeirydd y Llywodraethwyr.

Mae Polisi Ysgol 2 ar Ymyriad Diogel yn dilyn polisi enghreifftiol ALI1 yn fras, ac mae'n sôn am y defnydd o ffurflenni HS11 yn y cyd-destun hwn yn un o'r achosion y maent wedi'i gofnodi ar ataliaeth.

Heddiw, mae *Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, 2022* yn pwysleisio, <u>os yw'r pryder yn ymwneud ag aelod staff, ni chaiff ysgolion wneud eu penderfyniadau mewnol eu hunain o ran p'un ai mater disgyblu neu fater amddiffyn plant ydyw</u>.

Dim ond drwy ddull sefydliad cyfan y gellir gweithredu a chynnal ymrwymiad sefydliadol clir i hawliau dynol gyda lleihad yn y defnydd o arferion cyfyngol yn briodol. Roedd hyn yn sylfaenol ddiffygiol yn Ysgol Friars. Teimlai unigolion â phryderon nad oeddent yn gallu codi eu pryder gydag UDD2 gan mai ef oedd testun eu pryder neu am ei fod wedi bod yn bresennol yn cefnogi digwyddiadau lle defnyddiodd Foden y dulliau hyn yn erbyn disgyblion gwrywaidd.

Rhaid i staff deimlo eu bod yn gallu defnyddio prosesau Chwythu'r Chwiban er mwyn uwchgyfeirio pryderon mewn achosion o bryder, gan gynnwys pan ystyrir bod graddau'r grym a ddefnyddiwyd wrth atal yn ormodol, neu fod yr arfer yn cael ei ddefnyddio'n rhy aml. Mae'r Adolygiad wedi clywed gan aelodau staff nad oeddent yn

teimlo eu bod yn gallu Chwythu'r Chwiban, nac yn gwybod sut i fynd ati i rannu pryderon am ymddygiad a oedd yn peri pryder iddynt.

Mae crynodeb o'r pedwar digwyddiad a gofnodwyd i'w weld yn llinell amser y digwyddiadau allweddol, wedi'u rhestru yn ôl dyddiad y digwyddiad.

## Achosion na chawsant eu hatgyfeirio:

<u>Plentyn M Ysgol Friars,</u> 18 Mai 2021, disgybl ar ddechrau CA3.
Yn y digwyddiad dan sylw, cafodd disgybl gwrywaidd ei geryddu am ddefnyddio ei ffôn ac am regi. Roedd cwyn ddilynol y rhiant yn nodi bod tri oedolyn gwrywaidd (Foden, UDRh Craidd 1 ac UDD2) wedi defnyddio arferion cyfyngol yn erbyn Plentyn M a defnyddio'u ffonau i ffilmio'r anghydfodau hyn, mewn ymgais i ysgogi ymateb yn ôl pob tebyg. Clywodd yr Adolygiad fod hwn yn arfer a ddefnyddiwyd yn gyffredin gan aelodau'r UDRh, a'i fod yn cael ei ddefnyddio i sbarduno ymddygiad mewn disgybl a fyddai'n arwain at gronni pwyntiau ymddygiad negyddol hyd nes cyrraedd y trothwy ar gyfer gwaharddiad parhaol.

Yn yr achos hwn, Foden a ddefnyddiodd y dulliau atal mwyaf eithafol, ar ôl i Blentyn M fynd ato i geisio amddiffyniad rhag UDRh Craidd 1 ac UDD2. Honnir i Foden afael ynddo'n dynn am ei wddf wrth ymrafael, ac yna am ei frest, gan gyfyngu ar ei anadlu, er bod Plentyn M eisoes mewn gofid a bod hyn yn mynd yn groes i bolisi'r ysgol ei hun[15]. Anwybyddwyd cwyn anffurfiol gychwynnol gan riant Plentyn M. Yna gwnaed y gŵyn yn ffurfiol mewn llythyr a anfonwyd gan y rhieni at Gadeirydd y Llywodraethwyr. Honnwyd bod Foden wedi cyfaddef bod y dull a ddefnyddiwyd wedi cyfyngu ar anadlu'r plentyn, ond mewn llythyr a anfonwyd gan Foden at riant Plentyn M, dywedodd bod HGC wedi *arsylwi fod ei dechneg yn berffaith*, sy'n honiad y mae HGC wedi'i wadu.

Daliwyd y digwyddiad ar TCC, a dengys y cofnodion nad oedd HGC yn ystyried bod y dull atal yn ymosodiad troseddol, sy'n golygu na chafodd UDRh Craidd 1 na Foden eu cofnodi'n ffurfiol fel unigolion dan amheuaeth ar systemau HGC. Gellir dadlau y dylai'r digwyddiad fod wedi cael ei ystyried am CID16 o hyd (gweler atodiad 1) neu am asesiad o '*addasrwydd i weithio gyda phlant'* dan Weithdrefnau Adran 5. Ni ddilynwyd yr un o'r llwybrau hyn, felly ni fyddai unrhyw gofnod o'r digwyddiad yn cael ei gadw ar gofnodion HGC na GPaTh ALl1.

Cafodd ceisiadau gan y rhiant i weld y fideo TCC hwn a'r ffurflen *HS11 Defnyddio Grym Rhesymol* gysylltiedig eu hanwybyddu gan Foden. Adroddwyd am anghysondebau yn y dystiolaeth a roddwyd i'r rhiant gan yr ysgol.

Nid oes unrhyw gofnod bod Plentyn M wedi cael ei archwilio am anaf yn dilyn defnyddio'r dulliau atal hyn, fel y cynghorir yn y canllawiau cenedlaethol, sy'n nodi y dylid archwilio'r plentyn ar unwaith ac yn y tymor hwy, gan gynnig cefnogaeth i'r plentyn hefyd. Nid yw polisi Ysgol Friars yn cynnwys disgwyliad o'r fath ac ni ddangosir bod hyn wedi cael ei gynnig na'i ddarparu.

[15] *Polisi Ymddygiad Disgyblion, Adran 6: Ataliaeth Gorfforol*

Nododd yr ysgol eu bod wedi dilyn eu polisïau eu hunain wrth fynd i'r afael â'r digwyddiad a'r gŵyn. Ni ddilynwyd polisi'r ysgol, ac mae polisïau'r ysgol yn gwyro oddi wrth y canllawiau cenedlaethol a rhanbarthol p'un bynnag, fel y manylir uchod.

Nid oedd y rhiant yn teimlo y deallwyd natur ei chwyn, h.y. nad oedd y dull atal yn gymesur â'r drosedd, a'i fod wedi'i ddefnyddio fel man cychwyn yn hytrach nag fel dewis olaf. Yn ei dyfalbarhad i gael ei chlywed, cafodd ei disgrifio yn y pen draw fel achwynwr blinderus, a dywedwyd wrthi na fyddai unrhyw gwynion ganddi yn y dyfodol yn cael eu derbyn. Mewn llythyr a anfonodd Foden at y rhiant yn rhoi gwybod am y penderfyniad hwn, nododd fod ganddo gefnogaeth lawn Cadeirydd y Llywodraethwyr a Llyw2. Nid yw'r Adolygwyr wedi gweld unrhyw dystiolaeth eu bod wedi bod yn rhan o'r mater.

## Achosion a Atgyfeiriwyd:

<u>Plentyn J</u> Ysgol 2, 12 Tachwedd 2021, disgybl CA4.
Unwaith eto, ffilmiwyd y digwyddiad hwn gan aelodau staff. Defnyddiodd Foden arferion cyfyngol yn erbyn Plentyn J a oedd yn eistedd yn y dosbarth anghywir ac yn gwrthod symud. Wrth ystyried yr atgyfeiriad hwn, nid yw'n ymddangos bod cymesuredd wedi cael ei ystyried, gydag Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) yn nodi eu bod yn *deall fod [Foden] wedi gwneud hyn dan y Gweithdrefnau Grym Rhesymol*, heb roi fawr o argraff eu bod wedi craffu'r safbwynt hwnnw nag egwyddorion cyffredinol y gweithdrefnau hyn. Bu iddynt ychwanegu bod *yr arferion a welir yn y fideo yn gyffredin o fewn ysgolion dan amgylchiadau o'r fath*. Mae'r Adolygwyr yn dadlau nad yw hyn yn unol ag egwyddorion y polisi hwn, ac yn wir, na ddylid ei dderbyn fel bod yn *gyffredin o fewn ysgolion*.

Mynegodd Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) bryder bod staff yn arfer ffilmio digwyddiadau o'r fath, ond teimlwyd mai mater i'r Corff Llywodraethu oedd eu bodloni eu hunain gyda'u polisïau a'r modd y mae'r rhain yn cael eu gweithredu, ac nad oedd angen adolygu'r polisi grym rhesymol *sy'n bodoli o fewn systemau'r Adran Addysg sy'n rhoi awdurdod i athrawon mewn rhai amgylchiadau i ymyrryd yn y modd hwn*. Ni chafodd yr atgyfeiriad hwn ei uwchgyfeirio i Adran 3 nac Adran 5.

<u>Plentyn H</u> Ysgol 2, 1 Chwefror 2022, disgybl CA4.
Roedd Plentyn H yn dangos ymddygiad heriol gyda'i gyfoedion. Mae cyfeiriad at ffurflen HS11 mewn neges e-bost yn dynodi y defnyddiwyd technegau atal yn ystod y digwyddiad hwn. Cysylltodd Foden â'r rhiant i roi gwybod iddynt am y digwyddiad a bod y disgybl wedi cael ei ddiarddel yn dilyn hyn. Gan fod y rhiant yn bryderus bod Foden yn cael enw am ymddygiad fel hyn ar draws y ddwy ysgol, rhoddodd wybod am y mater i HGC, Llyw3, Pennaeth Addysg 1 ALI1 a GPaTh ALI1. O ystyried dicter y rhiant a lefel y diddordeb a gynhyrchwyd ar draws yr asiantaethau ac ar y cyfryngau cymdeithasol mewn ymateb i rannu fideo o'r digwyddiad, penderfynodd Pennaeth Addysg 1 ALI1 a Llyw3 Ysgol 2 y byddai ymchwiliad i'r mater yn cael ei gynnal gan yr ysgol, gan fod ei henw da dan fygythiad. Ymddengys eu bod wedi gwneud hyn cyn gwneud atgyfeiriad i GPaTh ALI1. Nodir mewn neges e-bost a anfonwyd gan Arweinydd Tîm GPaTh ALI1 nad oedd gweithdrefnau diogelu i'w gweld wedi'u dilyn ar unwaith. Yn dilyn hyn, ystyriwyd y mater dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant, gan

ysgogi trafodaeth adran 47 ac Adran 5, ond nid oedd yn cyrraedd y trothwy i fynd â'r mater ymhellach.

Ymddengys mai prif bwyslais y trafodaethau helaeth rhwng Add ALI1 a GPaTh ALI1 oedd rheoli prosesau yn hytrach na'r risgiau, ac ni roddwyd ystyriaeth i'r ffaith mai dyma'r pedwerydd digwyddiad *a gofnodwyd* lle'r oedd Foden wedi defnyddio dulliau atal yn erbyn plentyn yn yr un nifer o fisoedd.

Plentyn I Ysgol Friars, 27 Medi 2021.
Defnyddiwyd dulliau atal ar ddisgybl eiddil ar ddechrau CA3 gydag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a Chynllun Datblygu Unigol (CDU). Roedd y plentyn wedi cael negeseuon cymysg am gyfarwyddyd yn y dosbarth ac wedi cynhyrfu. Galwyd Foden i'r digwyddiad, er bod camau cyfryngu eraill wedi'u hamlinellu ym Mholisi Ymddygiad yr Ysgol ac nad oedd y sefyllfa i'w gweld yn un beryglus. Defnyddiodd Foden yr hyn y gellir dadlau eu bod yn ddulliau afresymol o atal y bachgen, heb roi unrhyw ystyriaeth i'w AAA. Roedd pedwar aelod o'r UDRh ac aelodau staff eraill yn dystion i'r digwyddiad, a ffilmiwyd y digwyddiad gan rai ohonynt. Cyrhaeddodd y SCHGC i Ysgolion ar ôl i Foden fod wedi troi'r plentyn oddi ar ei gadair i'r llawr, a gweld Foden yn penlinio dros ben y bachgen, gyda'i *afl yn wyneb y plentyn*, ac yn pwyso i lawr ar ei frest. Mae hyn yn groes i'r polisïau ysgol, rhanbarthol a chenedlaethol ar ataliaeth.

Ni chafodd Plentyn I unrhyw archwiliad meddygol na chorfforol yn dilyn y digwyddiad, ac ni chynghorwyd gwneud hynny, a chafodd ceisiadau'r rhiant i'r ysgol am gwnsela eu hanwybyddu, yn groes i'r canllawiau cenedlaethol a amlinellir uchod. Rhoddodd y fam wybod ddiwedd mis Rhagfyr 2021 nad oedd Addysg wedi ateb ei chais ffurfiol am wybodaeth o hyd.

Adeg y digwyddiad, ni atgyfeiriodd yr ysgol y mater at GPaTh ALI1, ni chafodd y plentyn ei archwilio am anafiadau ac ni chymerwyd unrhyw gamau diogelu. Aeth dros fis heibio cyn i Swyddog Diogelu Data'r ysgol wneud atgyfeiriad, ar ôl adolygu'r fideo TCC y gwnaeth y rhiant gais amdano, a ysgogodd brosesau Rhan 3, adran 47 ac Adran 5. Roedd yr oedi hwn yn allweddol yn ystyriaeth HGC yn y Drafodaeth Adran 5 ac yn rhesymeg ddiweddarach Cadeirydd y Llywodraethwyr am benderfynu peidio ag atal Foden o'i waith dros dro.

Wrth ddod â'r broses adran 47 ar y cyd i ben, nodwyd nad oedd unrhyw dystiolaeth bod Plentyn I wedi dioddef unrhyw niwed sylweddol na pharhaol, ond roedd pryderon sylweddol am ymddygiad Foden a'i staff o hyd. Nid oedd HGC o'r farn bod yr ataliaeth yn gyfystyr ag ymosodiad troseddol, gan adael dim ond y pryderon am drothwy swydd gyfrifol i'w trafod, ynghyd â'r cwestiwn cysylltiedig o ran '*addasrwydd i weithio gyda phlant'*.

Cafwyd Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 yn dilyn hyn, ar 11 Ionawr 2022 - Pwyntiau allweddol: Cyflwynodd Foden ddatganiad yn amddiffyn ei hun i'w ddefnyddio yn y Cyfarfod Strategaeth ar ddefnyddio dulliau atal ar Blentyn I. Ynddo, mae'n dewis dyfyniadau dethol o *Adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006*[16]*, dogfen*

[16] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/40/section/93

*ganllawiau Llywodraeth Cymru 097/2013*[17] a pholisi ei ysgol ei hun fel cyfiawnhad dros ei ddefnydd o arferion cyfyngol yn yr achos hwn o atal disgybl, gan nodi bod yr UDRh yn cefnogi ei weithredoedd.

Mewn perthynas â'r trothwy swydd gyfrifol, myfyriodd Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO), sef Cadeirydd y Cyfarfod Strategaeth Adran 5, ar ddatganiad Foden, gan nodi eu bod o'r farn ei bod yn

> *'anodd iawn dadlau y byddai ymddygiad Foden yn ei gwneud yn amhriodol iddo weithio gyda phlant, gan fod Foden wedi nodi'n glir ei fod wedi dilyn polisi adeg y digwyddiad'*.

Mae hyn yn dangos lefel gwbl annigonol o graffu ar y safbwynt gwyrdroëdig a gyflwynodd Foden o'r polisi a'r canllawiau cenedlaethol yn ei ddatganiad ei hun. Mae nodi bod y '*Polisi Grym Rhesymol yn dod o fewn systemau Addysg'* ac egluro'n amwys ei fod yn '*rhoi awdurdod i athrawon mewn rhai amgylchiadau i ymyrryd yn y modd hwn'*, yn awgrymu nad oedd gan Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) amgyffrediad digonol o'r mater. Cafwyd anghytundeb ymysg y rhai a oedd yn bresennol ynglŷn â'r pwynt hwn - a wnaed gan Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) - yn enwedig o ystyried bod ymchwiliad yn cael ei gynnal ar yr un pryd mewn perthynas â defnydd Foden o ddulliau atal tebyg ar Blentyn J, Ysgol 2, ac atgyfeiriad dan Adran 5 yn ystyried pryderon am Blentyn G, y byddai Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) ac Arweinydd Tîm GPaTh ALI1 yn ymwybodol ohonynt i gyd ar y pryd. Nid oedd pawb a oedd yn bresennol wedi gweld y fideo o'r digwyddiad, a gellid dadlau nad oedd ganddynt y wybodaeth angenrheidiol i fynegi barn.

Cododd Arweinydd Tîm GPaTh ALI1 gwestiynau am y ffaith na wnaed unrhyw ymdrech i ddilyn camau mwy pwyllog i ddatrys y mater cyn defnyddio grym. Cwestiynodd HGC yr angen i Foden droi'r plentyn oddi ar ei gadair i'r llawr. Roedd Gweithiwr Cymdeithasol o'r farn nad oedd y dull yn briodol nac yn ddiogel. Roed Add2 wedi mynegi anfodlonrwydd cryf tuag at ymddygiad Foden, gan nodi bod y gyfraith yn annelwig o ran diffinio grym rhesymol a phryd y gellir ei ddefnyddio. Fodd bynnag, nododd Add2 y dylid adolygu polisi enghreifftiol y sir o ystyried y pryderon a godwyd yn yr achos hwn. Nodwyd hefyd nad oedd Ysgol Friars yn dilyn polisi ALI1 ar Ymyriad Diogel o ran rhoi gwybod am y defnydd o rym rhesymol, drwy beidio â chyflwyno ffurflenni HS11 i'r AALl. Mae polisi enghreifftiol ALI1 hefyd yn cynnwys ffurflen adrodd am ddigwyddiadau i'w defnyddio ochr yn ochr â'r ffurflen HS11, y gallai'r UDRh fod wedi'i defnyddio, ond na wnaethant hynny. Mae'n cynnwys rhestr wirio gynhwysfawr:

- *A gymerwyd camau lliniaru digonol/priodol?*
- *A oedd yr ymyriadau corfforol yn gwbl angenrheidiol?*
- *A oedd sail ar gyfer defnyddio ymyriad corfforol?*
- *A ddefnyddiwyd ymyriad corfforol yn rhesymol?*
- *A ddefnyddiwyd ymyriadau corfforol a gymeradwywyd?*
- *A oedd yr ymyriad corfforol a ddefnyddiwyd yn gymesur â'r digwyddiad?*
- *A gymerwyd camau priodol/digonol ar ôl y digwyddiad?*

[17] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/ymyriad-diogel-ac-effeithiol-defnyddio-grym-rhesymol-a-chwilio-am-arfau.pdf

- *A yw'r broses adrodd wedi'i chwblhau ac yn gynhwysfawr?*

Mae barn broffesiynol am y pwyntiau hyn yn allweddol mewn achos o gŵyn neu honiad o gam-drin. Nid oedd y wybodaeth hon ar gael i GPaTh ALl1 wrth asesu hyn na'r atgyfeiriadau eraill a oedd yn ymwneud â defnyddio prosesau cyfyngol gan staff yn Ysgol Friars.

Wrth grynhoi, rhoddwyd pwyslais cadarn ar ddatganiad Foden a'r amwysedd cyfreithiol o ran yr hyn a ystyrir yn rym rhesymol a'i ddefnydd derbyniol. Mae ystyriaeth ar y lefel hon o fanylder i ddehongli deddfwriaeth yn tynnu sylw oddi wrth yr egwyddor gyffredinol o atal, cymesuredd, a defnyddio dull sy'n ystyriol o drawma ac yn canolbwyntio ar y plentyn wrth ddelio â materion amddiffyn plant. Mae *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, 2022* yn nodi'r canlynol:

> '*Er mwyn ei ystyried yn gyfreithlon, byddai'n rhaid i'r grym fod yn gymesur â'r canlyniadau y bwriedir iddo eu hatal. Maint y grym a ddefnyddir fydd y lleiaf sydd ei angen i sicrhau'r canlyniad a fwriedir.*'

Mae'r *Fframwaith ar gyfer Lleihau Arferion Cyfyngol, 2022*[18] yn ceisio sicrhau mai fel dewis olaf yn unig y mae unrhyw arferion cyfyngol yn cael eu defnyddio. Mae'r Adolygwyr yn dadlau y dylid bod wedi rhoi mwy o ystyriaeth i asesu'r angen am y math hwn o ymyriad.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Yn y pen draw, mater i'r llysoedd yw dehongli deddfwriaeth, a chydnabyddir hyn mewn nodyn a atodwyd i gofnodion y cyfarfod. Fodd bynnag, mae'r Adolygwyr o'r farn bod y canllawiau cenedlaethol y cyfeirir atynt uchod ar ba bryd y dylid defnyddio arferion cyfyngol, ac i ba raddau, yn eglur.

Wrth gasglu na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach, nododd Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO), sef y Cadeirydd, mai '*dyma'r oll y gallwn ni ei wneud…cyfrifoldeb y corff llywodraethu fydd…delio â materion yn drylwyr'.* Ychwanegodd y byddai methiant ar eu rhan nhw yn tynnu sylw Estyn yn ystod eu harolygiadau. Yn benodol, argymhellwyd bod Cadeirydd y Llywodraethwyr yn adolygu'r digwyddiad, eu trefn lywodraethu a'u cydymffurfiad mewn perthynas â Pholisi Grym Rhesymol yr ysgol, a'r galw am hyfforddiant staff. Dylai hyn gynnwys hyfforddiant pellach ar gyfer Foden.

Roedd argymhelliad pellach yn gofyn i Add ALl1 ystyried defnydd staff o ffonau i ffilmio digwyddiadau o'r fath, a'r angen am adolygiad cenedlaethol o'r defnydd o rym rhesymol. Roedd hyn yn groes i argymhelliad Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) fis ynghynt wrth ddod i gasgliad ar y mater yn ymwneud â Phlentyn J, ac mae'n dangos cydnabyddiaeth o ddiffyg eglurder a fyddai wedi effeithio ar y penderfyniad a wnaed, ac o bosib ar yr asesiad o'r risg barhaol i blant gan Foden ac aelodau gwrywaidd ei UDRh Craidd.

[18] https://www.llyw.cymru/fframwaith-ar-gyfer-lleihau-arferion-cyfyngol-html

Gwnaeth y Cadeirydd, sef Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO), argymhelliad ehangach, sef bod angen rhoi ystyriaeth ofalus i eiriad y gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r trothwy ar gyfer ystyried rhywun yn anaddas i weithio gyda phlant, er na ddyrannodd y cam gweithredu hwn i unrhyw unigolyn nac asiantaeth benodol.

Anfonodd Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO) lythyr at Foden a Chadeirydd y Llywodraethwyr yn nodi eu canfyddiadau. Yn ei ymateb, nid oedd Foden yn cytuno bod cyfiawnhad i unrhyw rai o'r pryderon. Dylai hyn fod wedi codi pryderon a dwysau'r ffocws ar yr angen i fonitro ymddygiad Foden o hyn ymlaen, ond ni ddigwyddodd hynny.

Ni thrafodwyd unrhyw broses ddisgyblu amgen er cryfder y teimladau am anghymesuredd ymateb Foden i'r digwyddiad, ac er nad oedd yn cyrraedd trothwyon Adran 5. Gallai cyngor cyfreithiol fod wedi helpu yn y broses hon, yn enwedig o ystyried ADY Plentyn I.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Nid oes unrhyw gofnod o ymateb gan Gadeirydd y Llywodraethwyr nac o unrhyw gamau pellach a gymerwyd mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed i'r Corff Llywodraethu, nac o unrhyw waith monitro dilynol. Dengys cofnodion y Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 nad oedd Cadeirydd y Llywodraethwyr yn bresennol, felly ni fyddai wedi bod yn ymwybodol o'r ymchwiliad hwn ar y pryd, nac am drafodion a chwynion am ddigwyddiadau eraill tebyg yn ymwneud â Foden ar yr un pryd. Gan mai Foden oedd y Pennaeth, dylai Cadeirydd y Llywodraethwyr fod wedi cael gwybod am, a bod yn rhan o bob cyfarfod o'r fath.

Dylid nodi hefyd bod Cadeirydd y Llywodraethwyr, ar yr adeg hon a gyda'r diffyg gwybodaeth hwn, wedi gweithredu ar ei ben ei hun gydag awdurdod amheus i wneud hynny (gweler Thema 5: Llywodraethu a Chwynion), wrth wrthdroi argymhelliad gan Gyfarwyddwr GPaTh ALI1, Pennaeth Addysg 1 ALI1, Pennaeth GPaTh ALI1, Cyn Gyf Cor ALI1 a Swyddog Cyfreithiol ALI1 y dylai Foden gael ei atal o'i waith dros dro tra'r oeddent yn aros am ganlyniad yr ymchwiliad cyfredol. Gweithredodd Cadeirydd y Llywodraethwyr ar ei farn bersonol '*nad oedd y digwyddiad yn unrhyw beth o bwys go iawn'*, a thrafodaethau gyda Phennaeth Addysg 1 ALI1, nad oedd ond wedi *gweld clip* o'r fideo, a Foden. Yn ei dro, drafftiodd Foden lythyr i Gadeirydd y Llywodraethwyr ei anfon i Bennaeth Addysg 1 ALI1 yn ei enw ei hun, yn nodi'r dewis o ddull disgyblu roedd y Corff Llywodraethu'n ei ffafrio.

Yn ogystal â'r achosion a gofnodwyd o ddefnyddio dulliau atal a rannwyd gyda'r Adolygwyr, mae'r Adolygiad wedi gweld gohebiaeth e-bost a chlywed gan rieni ar ôl hynny am achosion eraill o ddefnyddio dulliau atal yn Ysgol Friars. Mae un achos yn arbennig yn peri pryder sylweddol yn y ffaith ei fod yn dangos diwylliant yr ysgol a'r UDRh tuag at ddigwyddiadau o'r fath, effaith y rheiny ar aelodau staff eraill yn yr ysgol, y diffyg gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban, neu'r diffyg gwybodaeth amdanynt, yn ogystal â'r diffyg craffu gan ALI1. Mae'r dystiolaeth wedi'i seilio ar negeseuon e-bost a rannwyd ym mis Rhagfyr 2021 rhwng Foden, UDRh Craidd 1 ac UDD2, eu

cynrychiolwyr undeb priodol a Phennaeth Addysg 1 ALI1 ac Add3 ALI1, gyda GPaTh ALI1 yn rhan o'r trafodaethau hyn.

Mae'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth o ddealltwriaeth ar y cyd ymysg yr UDRh mai Foden, fel Pennaeth, oedd yn gyfrifol am benderfynu a ddylid gwneud atgyfeiriadau i GPaTh ALI1 pan fo staff wedi defnyddio arferion cyfyngol ar ddisgyblion. Roedd y ddealltwriaeth hon wedi'i seilio ar y cam-ddehongliad roedd Foden wedi'i rannu o amwyseddau yn y canllawiau a'r polisi. Mabwysiadwyd y polisïau *de facto* gan yr UDRh Craidd, a aeth ati yn eu tro i ddefnyddio eu dulliau atal eu hunain ar ddisgyblion (UDRh Craidd 1 ac UDD2). Mae'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth o anfodlonrwydd ymysg yr unigolion hyn pan ganfuwyd bod materion o'r fath wedi cael eu trafod rhwng Pennaeth Addysg 1 ALI1 ac Add3 ALI1 heb eu cynnwys nhw.

Dyma'r achos pan ddefnyddiodd UDRh Craidd 1 ac UDD2 ddulliau atal ar ddisgybl gan beri braw i aelodau staff eraill yr ysgol, nad oeddent yn teimlo y gallent godi eu pryderon drwy lwybrau diogelu Ysgol Friars, fel y nodir ym mholisi'r ysgol, oherwydd bod yr unigolion hynny a oedd yn gyfrifol am ddiogelu yn Ysgol Friars yn cyflawni ac yn cefnogi'r ymddygiad dan sylw. Yn hytrach, cododd yr aelod staff y pryder gyda'u rheolwr atebol a roddodd wybod i Add3 ALI1 amdanynt. Cynghorwyd yr aelod staff a fynegodd bryder i wneud atgyfeiriad i dîm Diogelu'r ysgol, er mai UDD yr ysgol a gyflawnodd yr ymddygiad a oedd yn destun y pryder. Roedd y pryder gwreiddiol yn *brin o fanylion ac yn rhoi cyfrif ail law*, gan arwain Add3 ALI1 i geisio mwy o eglurder. Yn y pen draw, penderfynodd Add3 nad oedd y pryder yn cyfiawnhau atgyfeiriad at GPaTh ALI1, a chyfeiriodd yr achos yn ôl at Foden i'w ddatrys yn fewnol, gan nodi bod hyn yn unol â pholisi'r ysgol.

Mae'r Adolygwyr wedi gweld gohebiaeth helaeth rhwng Pennaeth Addysg 1 ALI1, Foden, yr unigolion a gyhuddwyd o'r defnydd amhriodol o ddulliau atal a'u cynrychiolwyr undeb llafur, yn ceisio cadarnhau pa aelod staff a gododd y pryder yn y lle cyntaf. Yn y negeseuon e-bost hyn, cafodd yr athrawon a leisiodd y pryder y tu allan i brosesau Ysgol Friars eu henwi. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i'r angen i drin y mater hwn gyda chyfrinachedd y broses Chwythu'r Chwiban. Nododd cynrychiolydd undeb llafur un o'r aelodau staff a gyhuddwyd mewn llythyr i'w haelod, UDRh Craidd 1, mewn perthynas â'r honiad o ddefnyddio dulliau atal, eu bod yn *cymryd nad yw hyn yn cael ei godi fel pryder disgyblu [gan Foden]*.

Mae'r Adolygiad wedi gweld neges e-bost a ysgrifennwyd gan Foden yn nodi

> *'Nid yw'n fwriad gen i gymryd unrhyw gamau mewnol gan fy mod yn gweld, ar ôl darllen yr adroddiadau atal, nad yw'r staff wedi ymddwyn yn amhriodol'*.

Byddai'r penderfyniad hwn wedi dwysau ymdeimlad cyffredinol o ddrwgdybiaeth ymysg staff, ac roedd yn galluogi ac yn *cyfiawnhau* ymhellach, yn eu golwg nhw, y defnydd o ataliaeth gan Foden a'i gydweithwyr agos gwrywaidd ar yr UDRh, ac yn tynnu grym oddi ar yr aelodau staff eraill a oedd eisiau ymyrryd neu leisio eu pryder. Mae hyn hefyd yn dangos methiant amlwg i gydnabod yr angen i roi gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban ar waith.

Ni soniwyd am y disgybl o gwbl yn unrhyw ran o'r ohebiaeth hon, na mynegi pryder am eu lles, gan ddangos tystiolaeth glir bod polisi Ysgol Friars a'i weithrediad yn rhoi

blaenoriaeth i amddiffyn ei staff ei hun dros les y disgyblion. Ym Mholisi Ymddygiad Disgyblion Ysgol Friars, anogir staff i roi gwybod i'w cynrychiolydd undeb llafur am fanylion achosion o ddefnyddio dulliau atal, yn hytrach na llenwi ffurflen HS11 a'i chyflwyno i'r Awdurdod Lleol, sef disgwyliad a nodir ym mholisi enghreifftiol ALl1.

Yn 2015, nodwyd bod angen rhoi sylw i lywodraethu'r defnydd o rym rhesymol a rhyngweithio â gweithdrefnau amddiffyn plant yn Add ALl1. Comisiynwyd adroddiad mewnol i'r diben hwnnw, a wnaeth argymhellion a dderbyniwyd gan y Panel Diogelu Corfforaethol fel rhan o'i gynllun gwaith. Derbyniwyd camau gweithredu mewn perthynas â'r Gwasanaeth Addysg gan Bennaeth Addysg ALl1 ar y pryd. Gan nad yw'n dod o fewn Cylch Gorchwyl yr Adolygiad hwn, nid yw'r Adolygwyr wedi gweld yr adroddiad hwn, ond maent yn sicr bod angen mynd i'r afael â bylchau o ran llywodraethu arferion cyfyngol o hyd.

Dylai cydymffurfio â chanllawiau sirol a chenedlaethol ar y materion hyn fod yn fater o sicrhau ansawdd ar gyfer trefniadau diogelu corfforaethol. Mae'n anodd deall pam y byddai Corff Llywodraethu'n dewis awdurdodi gwyriad o'r fath oddi wrth ganllawiau mor llym, a pham nad aeth yr Awdurdod Lleol i'r afael â hyn.

## Thema 5: Llywodraethu a Chwynion

Yn ystod y cyfnod dan Adolygiad, cadeiriwyd y Corff Llywodraethu yn wirfoddol gan unigolyn a gyflogwyd fel Prif Arolygydd gyda HGC. Roedd wedi bod ar y Corff Llywodraethu ers 2007 ac yn Gadeirydd y Llywodraethwyr ers 2016. Cwnstabl yr Heddlu gyda HGC oedd yn gwirfoddoli fel Is-gadeirydd Llyw2, ac roedd y Corff Llywodraethu dan arweinyddiaeth sefydledig. Roedd rhai Llywodraethwyr o'r farn bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gan Foden, Cadeirydd y Llywodraethwyr a Llyw2 ar y cyd, gyda'r Corff Llywodraethu dim ond yn rhoi sêl eu bendith arnynt. Mae'r Adolygwyr yn herio'r farn honno. Mae'r Adolygwyr yn dadlau mai Foden ar ei ben ei hun oedd yn gwneud y penderfyniadau.

Roedd Foden yn manteisio'n gyhoeddus ar y statws o gael dau Swyddog HGC fel Llywodraethwyr i gymeradwyo ei benderfyniadau, er yn cydnabod i Gadeirydd yr AYP eu bod angen iddo eu *hannog* i wneud penderfyniadau. Roedd y ddibyniaeth hon yn rhoi rheolaeth i Foden dros ei gyflogwr. Mae'r Adolygwyr wedi clywed gan Lywodraethwyr blaenorol, ac roedd un ohonynt, o herio'r *status quo* a chodi materion o bryder difrifol am reolaeth ehangach yr ysgol a'i threfniadau llywodraethu gyda'r Cyfarwyddwr Addysg ar y pryd dan weithdrefnau Chwythu'r Chwiban, yn teimlo bod Foden wedi ei gwneud yn anghynaladwy iddo barhau i fod yn rhan o'r Corff Llywodraethu yn fuan iawn wedyn, i'r pwynt iddo deimlo ei fod wedi cael ei orfodi i roi'r gorau iddi.

Bu i 'Gyfaill Beirniadol' a gyflogwyd gan yr AALl i eistedd ar gyfarfodydd, hyfforddi a goruchwylio gweithrediadau'r Corff Llywodraeth yn 2020 ganfod ei fod yn gweithredu'n bennaf dan gyfarwyddyd Foden. Mae tystiolaeth a welwyd ac a glywyd gan yr Adolygwyr yn cefnogi'r farn hon, gyda nifer o benderfyniadau'n cael eu gwneud cyn i'r Corff Llywodraethu gyfarfod, polisïau'n cael eu llunio a'u diwygio gan Foden, ychydig iawn o heriau arwyddocaol yn cael eu codi gan aelodau a'r heriau hynny'n cael eu

diystyru neu eu hanwybyddu i raddau helaeth. Roedd ymdeimlad bod rhaid i'r aelodau gytuno neu nad oedd croeso iddynt. Mae'r Adolygiad wedi gweld nifer o enghreifftiau lle mae Foden wedi drafftio llythyrau i Gadeirydd y Llywodraethwyr eu hanfon yn ei enw ei hun ar faterion na ddylai fod wedi cael eu trafod gyda Foden yn y lle cyntaf. Mae tystiolaeth bod Cadeirydd y Llywodraethwyr wedi dibynnu'n helaeth ar wybodaeth a chyfarwyddiadau gan Foden a'r UDRh Craidd, a bod Foden hyd yn oed wedi cael ei gomisiynu gan Gadeirydd y Llywodraethwyr i lunio adroddiad Llywodraethwyr ar eu rhan.

Clywodd yr Adolygiad bod presenoldeb Uwch Reolwyr Ysgol Friars yn anghymesur o uchel yng nghyfarfodydd y Llywodraethwyr. Dyma'r unigolion y cyfeirir atynt fel yr UDRh Craidd, sef grŵp o dri o gymheiriaid, yr oedd nifer o'r staff o'r farn eu bod wedi cael eu dethol gan Foden ac felly'n ddylanwadol ac yn anodd eu herio. Roedd penodiadau'n aml yn cael eu gwneud yn anffurfiol, ac roedd trefniadau gwaith agos rhwng Cadeirydd y Llywodraethwyr, Llyw2 a Foden.

Mae dyletswydd statudol ar Gorff Llywodraethu ysgol i sefydlu polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer meysydd statudol Cwynion, Disgyblu a Gwahardd Disgyblion, Diogelu ac Amddiffyn Plant, a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae ALl1 yn darparu polisïau enghreifftiol y gellir eu defnyddio neu eu haddasu i'w defnyddio gan yr ysgolion. Roedd gan ALl1 hefyd Swyddogion ar gael i ysgolion a oedd eisiau cyngor pellach am weithdrefnau a sut i'w rhoi ar waith. Nid oes gan Gadeirydd y Llywodraethwyr unrhyw bŵer i weithredu ar ran y Corff Llywodraethu heb gytundeb penodol ymlaen llaw gan y Corff, a hynny ond mewn amgylchiadau prin pan fyddai oedi er mwyn galw cyfarfod y Corff Llywodraethu yn amharu'n ddifrifol ar fuddiannau'r ysgol (cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar *Weithdrefnau Cyrff Llywodraethu 2021*[19]). Mae'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth i benderfyniadau allweddol gael eu gwneud y tu allan i'r trefniant hwn, mewn trafodaeth â Foden, a chael eu derbyn heb eu herio.

Dylai Awdurdod Lleol ei fodloni ei hun bod gan yr ysgol bolisïau digonol ar waith a pharhau i oruchwylio bod ysgol wedi dilyn ei gweithdrefnau i ddiogelu a hybu lles plant. Roedd ALl1 yn ymwybodol bod yr ysgol yn gweithredu dan ei pholisïau ei hun a oedd, ar adegau, yn gwyro'n sylweddol oddi wrth bolisïau enghreifftiol ALl1 a rhai Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys hepgor ac ychwanegu pwyntiau allweddol mewn rhai meysydd, na heriwyd yn ôl pob golwg, ond a ddyfynnwyd yn aml gan Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) i amddiffyn Foden, ac a dderbyniwyd yn ystod Cyfarfodydd Strategaeth Proffesiynol Adran 5 wrth ystyried pryderon a oedd yn ymwneud â Foden.

Yn ystod ymchwiliadau i arferion cyfyngol er enghraifft, nododd Foden fel amddiffyniad ei fod wedi dilyn polisi a chanllawiau. Derbyniwyd hyn heb graffu allanol digonol, gan ei gwneud yn '*anodd iawn dadlau y byddai ymddygiad Foden yn ei gwneud yn amhriodol iddo weithio gyda phlant'*, a rhoi'r baich ar y Llywodraethwyr i '*ymdrin yn drylwyr â materion'*. O gael ei gwestiynu, honnodd Foden eu bod fel ysgol yn defnyddio polisïau'r Awdurdod Lleol yr oedd yna'n eu *haddasu*. Gall ysgolion ddewis defnyddio'r polisïau enghreifftiol neu beidio ac maent yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n gywir. Y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cael

[19] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/2021-pennod-2-cyrff-llywodraethu-eu-pwerau-eu-dyletswyddau-au-cysylltiadau-ag-eraill.pdf

eu rhoi ar waith. Mae'r UDD hefyd yn chwarae rhan hanfodol o ran sicrhau diogelwch a lles disgyblion, ac yn gyfrifol am sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith ac yn cael eu dilyn. Yn eu tro, rhaid i Uwch Swyddogion Addysg yr Awdurdod Lleol eu bodloni eu hunain a'r Awdurdod bod y polisïau hyn yn ddigonol ac yn cyd-fynd â'u gweithdrefnau nhw.

Wrth fodloni eu cyfrifoldeb am fonitro cydymffurfiad, dylai Cyrff Llywodraethu gynnal adolygiad blynyddol o bolisïau a gweithdrefnau sy'n cynnwys ystyried sut y cyflawnwyd eu cyfrifoldebau. Byddai hyn yn cynnwys monitro sut yr ymdrinnir â chwynion ac ymddygiad diffygiol yn dilyn rhoi gweithdrefnau Amddiffyn Plant ar waith. Nid yw'r Adolygwyr wedi gweld unrhyw dystiolaeth o waith monitro o'r fath.

Rhaid i'r Llywodraethwyr wybod digon am ddiogelu i allu herio polisi ac arferion diogelu'r ysgol yn ddigonol, a'u bodloni eu hunain bod y gweithdrefnau diogelu'n gadarn. Cafodd Corff Llywodraethu Ysgol Friars eu sicrhau gan sylwadau a wnaed yn Arolwg 2017 Estyn, sef:

> *'Mae llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Maent yn rhoi lefel addas o her a chymorth i'r ysgol'*

gan ddyfynnu hyn pan heriwyd eu cymhwysedd yn nes ymlaen (gweler Cwynion yn erbyn y Llywodraethwyr, isod).

Mewn perthynas â honiadau o gam-drin a wneir yn erbyn Pennaeth, Cadeirydd y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am gysylltu ag asiantaethau statudol a sicrhau y dilynir y broses briodol. Mae hyn wedi'i gynnwys yn Thema 2: Rheoli Honiadau. Ond yn aml, nid oedd Cadeirydd y Llywodraethwyr yn cael gwybod am honiadau o'r fath, nac yn cael ei gynnwys wrth eu hystyried, a dim ond wrth dderbyn llythyr yn amlinellu canlyniadau Cyfarfod Adran 5 yr oedd yn cael gwybod am bryder yn aml.

Ym mis Ebrill 2019, gwnaeth UDRh Craidd 1 benderfyniad bwriadol i beidio â rhoi gwybod i Gadeirydd y Llywodraethwyr na Llyw2 am ei bryderon ynglŷn ag ymddygiad Foden mewn perthynas â Phlentyn A, gan ei fod yn teimlo bod yna sensitifrwydd mewn perthynas â'u rôl fel Llywodraethwyr a'u proffesiwn. Ni wnaed unrhyw ymdrech i gynnwys aelod arall o'r Corff Llywodraethu gyda chyfrifoldeb am ddiogelu, ac aeth UDRh Craidd 1 â'i bryderon yn syth at Add1 ALl1.

Mae'r canllawiau'n nodi'n glir mai Corff Llywodraethu'r Ysgol sydd â'r cyfrifoldeb terfynol am faterion staffio a disgyblu sy'n ymwneud â'r Pennaeth, ac y dylent hefyd roi ystyriaeth i unrhyw gyngor a gânt gan yr Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, nid oes gan Gadeirydd y Llywodraethwyr unrhyw bŵer i weithredu ar ran y Corff Llywodraethu heb gael cyfarwyddyd ysgrifenedig penodol ymlaen llaw, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol neu mewn argyfwng. Rhaid cytuno ar amgylchiadau o'r fath a'u cofnodi yn un o gyfarfodydd y Corff Llywodraethu. Nid yw'r Adolygiad wedi gweld tystiolaeth o gofnod o unrhyw gyfarwyddyd o'r fath. O ran materion pryder sy'n ymwneud â'r Pennaeth, dylai prosesau o'r fath gael eu dilyn heb gynnwys y Pennaeth ei hun.

Tynnwyd sylw'r Adolygiad at ddau achlysur lle gallai'r Corff Llywodraethu fod wedi cymryd camau gweithredu pendant:

1. CGA/PCA: y penderfyniad disgyblu ar ôl i CGA ganfod Foden yn euog. Medi 2020
2. Argymhelliad a wnaed i Gadeirydd y Llywodraethwyr gan Uwch Swyddogion ALI1 y dylent atal Foden o'i waith dros dro ym mis Tachwedd 2021.

## Adroddiadau CGA/PCA

Ym mis Medi 2017, aeth aelod staff â'u cyflogwr, Ysgol Friars, i dribiwnlys cyflogaeth am honiad o driniaeth annheg. Ym mis Ionawr 2018, dyfarnodd y tribiwnlys o'u plaid. Ym mis Mai 2018, gwnaeth yr aelod staff gŵyn ffurfiol yn erbyn Corff Llywodraethu cyfan Ysgol Friars am eu rôl gysylltiedig yn y mater. Comisiynwyd ymchwilydd annibynnol i gynnal ymchwiliad, a argymhellodd adolygiad annibynnol ffurfiol o ansawdd llywodraethu Ysgol Friars. Ym mis Mawrth 2019, comisiynodd ALI1 ymchwiliad gan Banel Cwynion Annibynnol (PCA), a ystyriodd y cwynion gwreiddiol, ond a ymchwiliodd hefyd i drefniadau Llywodraethu'r Ysgol, gan gyflwyno eu canfyddiadau ym mis Mehefin 2019, cyn i CGA gwblhau eu hymchwiliad i'r mater hwn.

Dyma ganfyddiadau'r PCA:

- *Nid oedd y Corff Llywodraethu'n deall y materion o'u blaenau ac roeddent yn dibynnu'n ormodol ar farn y Pennaeth neu'r Uwch Aelodau Staff.*
- *Nid oedd y Pennaeth na'r Corff Llywodraethu'n ymwybodol nad oedd gwefan yr ysgol yn cynnwys rhestr o enwau a rolau dynodedig y Llywodraethwyr.*
- *Nid oedd gan y Llywodraethwyr lawer o ddealltwriaeth o faterion llywodraethu yn ôl pob golwg.*

Dyma argymhelliad y PCA:

> *'os na chymerir camau sylweddol a phendant i ymateb i'r adroddiad erbyn diwedd Tymor yr Hydref 2019, dylai'r AALl gyhoeddi rhybudd i'r Corff Llywodraethu yn unol â'i bwerau ymyrryd dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013[20] a Chanllawiau Llywodraeth Cymru 222/2017[21]'.*

Cytunodd Pennaeth Addysg 1 ALI1 a'r *Awdurdod Lleol* bod angen sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu o fewn yr amserlen hon, gan gynnig cymorth yr ALI i'r ysgol yn ôl yr angen. Rhannodd Pennaeth Addysg 1 ALI1 y disgwyliad pendant hwn gyda Foden a Chadeirydd y Llywodraethwyr. Eglurwyd yn glir iawn y byddai bodloni'r terfyn amser hwn yn dirymu'r angen am ymyrraeth bellach.

Yn dilyn canfyddiad CGA yn nhymor yr Hydref 2020, cafwyd cyfnod o ddwy flynedd pan oedd yn hysbys i lawer bod Foden wedi cael ei ganfod yn euog o Gamymddwyn Proffesiynol mewn perthynas ag aelod staff Ysgol Friars, ond roedd yn dal i fod yn gyflogedig gan ALI1 fel Pennaeth. Mae'r Adolygwyr yn ymwybodol fod Cynghorydd wedi gwneud sawl ymholiad i Adran Addysg ALI1 am unrhyw gamau a oedd wedi neu a fyddai'n cael eu cymryd o ystyried y canfyddiad hwn, ond ni chafodd wybod am

[20] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/1/contents/welsh
[21] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/ysgolion-sy%27n-peri-pryder-canllawiau-statudol-i-ysgolion-ac-awdurdodau-lleol.pdf

unrhyw gamau gweithredu. Parhaodd y Cynghorydd i gysylltu ag Adran Addysg ALl1, gan gynrychioli nifer o etholwyr a oedd wedi mynegi'r un siom nad oedd unrhyw beth i'w weld yn cael ei wneud, ac na chafodd Foden ei gosbi o ganlyniad i ganfyddiad CGA.

Yn anfoddog, a dan bwysau gan Bennaeth Addysg 1 ALl1, derbyniodd Foden, Cadeirydd y Llywodraethwyr a Llyw2 argymhellion yr Adroddiad a dechrau llunio cynllun gweithredu. O'r diwedd, anfonwyd hwn at Bennaeth Addysg 1 ALl1 yn hwyr ym mis Hydref 2019, yn agos at y terfyn amser a osodwyd gan y PCA ac ALl1. Byddai'r cynllun gweithredu hwn yn gweld yr AALl yn penodi Cyfaill Beirniadol i eistedd ar y Corff Llywodraethu a chynnig hyfforddiant i Foden ac aelodau'r Corff Llywodraethu, ac i oruchwylio diweddariadau i wefan Ysgol Friars a fyddai'n cynnwys manylion y Corff Llywodraethu llawn yn ôl enw a rôl. Roedd camau gweithredu ychwanegol yn y cynllun hwn yn ymwneud ag ystyriaethau cyflogaeth a disgyblu a'r camau y dylai'r Corff Llywodraethu eu cymryd pe byddai ymchwiliad CGA yn canfod Foden, a oedd wedi'i gyflogi ganddynt, yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol.

Mae cofnodion cyfarfod nesaf y Llywodraethwyr ar 15 Gorffennaf 2019 yn dangos barn gyffredinol ddiystyriol Foden, Cadeirydd y Llywodraethwyr a Llyw2 o ganfyddiadau adroddiad y PCA – yn nodi eu bod yn credu bod ganddynt ddealltwriaeth dda a rheolaeth o'r materion a godwyd, gan adlewyrchu bod '*adroddiad Estyn [wedi canfod] yn groes i'r pwyntiau sydd yn yr adroddiad'.* Mae cofnodion hefyd yn nodi i Foden egluro i'r Corff Llywodraethu, pe bai'n cael ei ganfod yn euog gan CGA, *'y byddai'n rhaid i'r achos ddod yn ôl ger bron y Corff Llywodraethu i benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau yn erbyn [Foden]'.* Cafodd hyn ei ailadrodd mewn nodiadau yn dilyn cyfarfod y Llywodraethwyr ar 21 Hydref 2019.

Ym mis Medi 2020, cafwyd Foden yn euog gan CGA o Gamymddwyn Proffesiynol a chael cyfnod ceryddu o 2 flynedd a fyddai'n dod i ben ym mis Medi 2022. Ar ôl i CGA ganfod Foden yn euog, yng nghyngor AD ALl1 i Bennaeth Addysg 1 ALl1, a fynegwyd yn ei dro ganddo ef mewn llythyr i Gadeirydd y Llywodraethwyr, gofynnwyd i Gadeirydd y Llywodraethwyr ystyried a fyddai'r Llywodraethwyr yn dilyn:

- Gweithdrefnau ffurfiol, neu
- Weithdrefnau anffurfiol, gan gyflwyno cyngor proffesiynol i Foden.

Nododd AD ALl1 a Phennaeth Addysg 1 ALl1 eu bod yn ystyried mai'r ail ddewis fyddai'r ymateb priodol.

Ychwanegodd AD ALl1 mewn nodyn i Bennaeth Addysg 1 ALl1,

> '*Hoffwn nodi fy mod yn dyfynnu'r Polisi/Weithdrefn Ddisgyblu rydym wedi'i chymeradwyo ar gyfer ysgolion – ni wn a yw Ysgol Friars wedi derbyn y polisi hwn yn ei gyfanrwydd/wedi'i addasu neu wedi llunio rhywbeth eu hunain.'*

Nid yw'r Adolygwyr wedi gweld unrhyw dystiolaeth i hyn gael ei ystyried ymhellach.

Fodd bynnag, mae'r Adolygwyr wedi gweld tystiolaeth yn negeseuon e-bost Foden ar 28 Medi 2020 ohono'n cyfeirio at *sgwrs nos Wener* rhwng Pennaeth Addysg 1 ALI1 a Foden ynglŷn â bwriad Foden i anfon ei *gynllun gweithredu* i Gadeirydd y Llywodraethwyr.

Honnodd Foden fod Pennaeth Addysg 1 ALI1, yn ystod y sgwrs ffôn anffurfiol yr olwg hon, wedi egluro '*nad oedd yn bwriadu cymryd unrhyw gamau'* ar ôl i CGA gael Foden yn euog, ond ei fod eisiau bod yn barod. Nid yw'r AYP wedi gweld unrhyw dystiolaeth mai dyma oedd yr achos, ond roedd yn amlwg na chymerwyd unrhyw gamau pellach pan gafwyd Foden yn euog gan CGA.

Aeth Foden ati i gynghori Cadeirydd y Llywodraethwyr i anfon neges e-bost at Bennaeth Addysg 1 ALI1, gan gopïo'r Cyfaill Beirniadol (a gyflogwyd gan yr ALI i eistedd ar y Corff Llywodraethu) yn y neges honno. Yn y neges e-bost hon, cyfarwyddwyd Cadeirydd y Llywodraethwyr gan Foden i ofyn a oedd rhaid dilyn argymhelliad y PCA am wrandawiad gan yr Is-bwyllgor Disgyblu (gweithdrefnau ffurfiol), ac os nad oedd rhaid gwneud hynny, nododd ei bod yn gyfreithlon iddo ef, fel Cadeirydd y Llywodraethwyr, '*benderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau pellach'*.

Yn ei gyngor i Gadeirydd y Llywodraethwyr ar yr hyn y dylai'r neges e-bost hon ei chynnwys, mae Foden yn mynd ati i ddisgrifio'r corff helaeth o dystiolaeth y byddai'n rhaid i Gadeirydd y Llywodraethwyr ei gasglu pe bai'n penderfynu dilyn y cyntaf o'r ddau ddewis, h.y. camau ffurfiol. Sicrhaodd Foden Gadeirydd y Llywodraethwyr, pe bai'r Undeb yn gwrthwynebu ei benderfyniad (gan dybio bod Cadeirydd y Llywodraethwyr yn dewis dilyn y gweithdrefnau anffurfiol), y gellid diystyru sail yr Undeb dros gwyno yn ddi-lol, gyda Foden yn mynd ati i restru sefyllfaoedd posib a'r seiliau y gallai Cadeirydd y Llywodraethwyr eu defnyddio i ddiystyru pob un yn ei dro.

Cyhoeddwyd adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan ALI1 yn ddiweddar [Gorffennaf 2025], ac mae'n amlwg nad oedd yr awdur yn ymwybodol o'r sgwrs ffôn anffurfiol ar y nos Wener, nac o gyfraniad helaeth Foden at ddrafftio'r llythyr ynglŷn â dewis pa brosesau disgyblu i'w dilyn ar ôl i CGA ei gael yn euog.

Erbyn 15 Hydref 2020, roedd Cadeirydd y Llywodraethwyr wedi cael ymateb i'r neges e-bost a luniwyd ac a anfonwyd i Bennaeth Addysg 1 ALI1 a'r Cyfaill Beirniadol, fel y cyfarwyddodd Foden.

Bu i Gadeirydd y Llywodraethwyr rannu'r ymateb ar unwaith â Foden dros e-bost, gan dorri cyfrinachedd, ac ychwanegu *Er gwybodaeth yn unig ac yn GYFRINACHOL*, ***Gallwn <u>ni</u> drafod yn nes ymlaen (yn fuan), llunio cynllun gweithredu a <u>symud ymlaen</u>*** (mae'r pwyslais yma wedi'i gynnwys fel yn y neges e-bost gwreiddiol).

Torrwyd cyfrinachedd wrth rannu'r amrywiol negeseuon e-bost a oedd yn amlinellu'r dewisiadau disgyblu ar gyfer delio â Foden. Gwelwyd bod Foden ei hun yn rhan o'r, os nad yn dylanwadu'r trafodaethau allweddol, hyd yn oed pan ofynnodd Cadeirydd y Llywodraethwyr i Bennaeth Addysg 1 ALI1 a oedd yna drydydd dewis - *gwneud dim*. Dywedodd Pennaeth Addysg 1 ALI1 nad oedd hyn yn cael ei ffafrio.

Cynhaliwyd cyfarfod arall ar 6 Tachwedd 2020 rhwng Cadeirydd y Llywodraethwyr, Llyw2 a Foden i drafod y materion hyn. Nid oedd AD ALI1 na Phennaeth Addysg 1

ALI1 yn ymwybodol o'r cyfarfod hwn ar y pryd. Daeth i'r amlwg ar ôl gweld y cofnodion hyn yn nes ymlaen, eu bod yn cynnwys, braidd yn gamarweiniol,

> *'yr ymgynghorwyd â'r ALl cyn y cyfarfod ynglŷn â'n camau gweithredu arfaethedig a chanlyniad y cyfarfod, ac <u>mae'n cefnogi ein dull a'n penderfyniad</u>. Ni fydd unrhyw gamau yn cael eu cymryd yn erbyn [Foden] ac mae'r mater bellach wedi dod i ben'.*

Mae'r casgliad hwn yn mynd yn groes i argymhelliad yn adroddiad y PCA y dylai Is-bwyllgor Disgyblu ystyried y mater drwy weithdrefnau ffurfiol, a bod AD ALI1 a Phennaeth Addysg 1 ALI1 yn disgwyl y byddai Foden yn cael arweiniad proffesiynol, y byddai cyfnod o fonitro yn dilyn a rhybudd yn nodi '*os byddai unrhyw beth tebyg yn digwydd eto, y byddai'n rhaid i ni ystyried camau mwy llym'*.

Yn wir, nid oedd y Llywodraethwyr wedi gweithredu o gwbl ar gynnig yr ALl o gymorth neu arweiniad ac nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i chofnodi eu bod wedi trafod cynnydd y gwaith monitro yn erbyn y cynllun gweithredu. Bu i AD ALI1 gydnabod y berthynas wael rhwng Ysgol Friars a'r *Sir* fel y cyfeiriwyd atynt yn gyffredin.

Mae yna fylchau sy'n peri pryder yng nghofnodion cyfarfod y Corff Llywodraethu am yr hyn a rannwyd, gyda phwy a phryd. Gellir crynhoi na rannwyd gwybodaeth a chynnwys allweddol gyda'r Corff Llywodraethu, gan fynd yn groes i ddisgwyliad arnynt i fod wedi gwneud hynny er mwyn bod yn dryloyw ac yn atebol, a bod y penderfyniad wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar sgwrs dair ffordd rhwng Foden, Cadeirydd y Llywodraethwyr a Llyw2, er bod Foden wedi egluro ynghynt i'r Corff Llywodraethu, pe bai CGA yn ei gael yn euog… '*y byddai'n rhaid i'r achos ddod yn ôl ger bron y Corff Llywodraethu i benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau ai peidio'.* Nid yw hyn i'w weld wedi digwydd, ac nid yw'r Adolygwyr wedi gweld tystiolaeth bod y Llywodraethwyr eraill yn ymwybodol o hyn nac wedi'i herio. Nid yw'r mater yn ymddangos ar raglenni cyfarfodydd y Corff Llywodraethu wedi hynny.

Aeth y Corff Llywodraethu yn groes i argymhelliad adroddiadau CGA a'r PCA a'u cynllun gweithredu eu hunain wrth ddod â materion i gasgliad y tu allan i weithdrefnau disgyblu ffurfiol, a fyddai wedi cael eu cynnal ger bron panel Gwrandawiad Disgyblu. Yn hytrach, penderfynwyd ar y materion rhwng Foden, Cadeirydd y Llywodraethwyr a Llyw2. Bu iddynt hefyd herio AD ac Addysg ALI1 drwy **beidio** â rhoi cyngor proffesiynol i Foden fel y cynghorwyd yn amlinellol gan ALI1 pe bai materion yn cael eu penderfynu y tu allan i weithdrefnau ffurfiol.

Wrth adrodd yn ôl i'r AALl yn dilyn cyfnod penodedig fel Cyfaill Beirniadol ar Gorff Llywodraethu Ysgol Friars, rhannwyd y canlynol:

- Roedd y Llywodraethwyr yn *dibynnu llawer ar yr Awdurdod Lleol – nid oeddent i'w gweld yn deall y cyfrifoldeb oedd ganddynt fel Corff Llywodraethu – nid yr ALl oedd y corff cyfrifol, ond y Corff Llywodraethu.*
- Mae'r *[Corff Llywodraethu] yn parhau i fod yn grŵp dan arweiniad y Pennaeth i raddau helaeth.*

- *Roedd y Corff Llywodraethu'n amharod i ymyrryd mewn unrhyw ffordd. Mae [Foden] yn gymeriad cryf ac roeddent yn tueddu i blygu i'w drefn.*
- *Er gwaethaf gosod disgwyliad clir ar y grŵp a gafodd y dasg o lunio camau gwella ar gyfer y Corff Llywodraethu i adolygu a monitro eu cynnydd, nid oedd y Grŵp wedi cael ei benodi [pan adawais i] ac ni welais unrhyw dystiolaeth ei fod wedi cael ei lunio. Roedd y camau yn dal heb eu cyflawni pan ddychwelais i lunio adroddiad ym mis Gorffennaf 2021.*

Mae'n amlwg nad yw gwaith monitro cynllun gweithredu'r Llywodraethwyr wedi bod yn gadarn; yr arwydd gweladwy mwyaf amlwg o hyn yw bod manylion y Llywodraethwyr ar wefan yr ysgol yn dal i fod yn anghywir hyd yn oed yn ystod yr Adolygiad hwn, bedair blynedd ar ôl gwneud yr arsylwadau a restrir uchod.

Cafodd hyfforddiant ar faterion llywodraethu naill ai eu hanwybyddu neu roeddent yn annigonol; gwelir hyn drwy gydymffurfiad gwael â rhai o bolisïau'r ysgol a'r ffaith nad yw'r polisïau yn dal i fod yn ddigonol nac yn gyson â'r gofynion a nodir gan ALl1 a Llywodraeth Cymru.

Heb weld y dystiolaeth, ni all yr Adolygwyr wneud sylwadau ar y dulliau a roddwyd ar waith i fonitro canlyniadau'r cynllun gweithredu, ond mae'n ymddangos na chafodd pob cam gweithredu eu cwblhau er gwaethaf y disgwyliadau a roddwyd ar yr ysgol.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

## Atal o'r Gwaith Dros Dro

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2021, cytunodd Uwch Swyddogion yr Awdurdod Lleol, GPaTh 1, Pennaeth Addysg 1 ALl1, y Gwasanaethau Corfforaethol a GPaTh 2 y dylai Foden gael ei atal o'i waith dros dro tra'r oeddent yn aros am ganlyniad ymchwiliad i ddefnyddio dulliau atal ar Blentyn I. Roedd y Swyddogion hyn wedi synnu nad oedd Cadeirydd y Llywodraethwyr eisoes wedi gwneud hyn ar sail *Polisi Atal Dros Dro, Rhan 7, llawlyfr Llywodraethwyr* ALl1 (mae hwn wedi cael ei dynnu oddi ar y rhyngrwyd ers hyn). Bu i Bennaeth Addysg 1 ALl1 gyfleu'r penderfyniad hwn i Gadeirydd y Llywodraethwyr. Mae'n ymddangos bod Cadeirydd y Llywodraethwyr wedi gweithredu'n annibynnol wedyn wrth benderfynu peidio ag atal Foden dros dro ond yn hytrach, ar 15 Tachwedd 2021, ei gyfarwyddo i weithio gartref. Byddai penderfyniad i atal Pennaeth dros dro fel arfer yn benderfyniad ar gyfer y Corff Llywodraethu cyfan.

Yn ystod ymchwiliad dilynol Cadeirydd y Llywodraethwyr i'r mater hwn, cafwyd gohebiaeth e-bost helaeth rhwng Foden, UDD2 a Chadeirydd y Llywodraethwyr mewn perthynas â'r honiad o ddefnyddio grym afresymol i atal Plentyn I. Sefydlwyd nad oedd hyfforddiant diogelu Foden yn gyfredol ac nad oedd y canllawiau MAPA cysylltiedig (gweler atodiad 1), yng ngeiriau Foden, '*yn cynghori peidio ag atal disgyblion awtistig*'. Nid oedd y drafodaeth hon yn ystyried yr egwyddorion cyffredinol

a nodir yn y canllawiau cenedlaethol a rhanbarthol, na chanllawiau *Deddf Cydraddoldeb 2010*[22] i'r gwrthwyneb.

Mae gan yr Adolygwyr dystiolaeth o negeseuon e-bost rhwng UDD2 a Foden mai ei agwedd tuag at yr hyfforddiant hwn oedd '*ei fod mor gyfyngedig ei ddefnydd â'i berthnasedd mewn ysgol uwchradd fel na wnaeth ei ail-wneud'*. Pan gafodd ei gyfweld ar gyfer yr Adolygiad hwn gan Gadeirydd yr AYP, nododd Foden fod rhywfaint o'r hyfforddiant yn y Gymraeg, gydag ychydig iawn o gyfieithu, ac nad oedd y staff yn ei ddeall yn ei farn ef. Mynegodd cyn Lywodraethwr yr un farn.

Nododd UDD2 hefyd mewn gohebiaeth â Chadeirydd y Llywodraethwyr, bod y dulliau a ddefnyddiwyd i atal '*yn bendant yn unol â pholisi a chyngor yr ysgol'* er eu bod wedi torri gofyniad y polisi '***na*** *ddylai* (dyma'r pwyslais a ddefnyddir yn nogfen Bolisi Ymddygiad Disgyblion yr ysgol) *staff ddal disgybl mewn ffordd sy'n cyfyngu ar eu gallu i anadlu'*. Ystyrir bod Foden wedi gwneud hyn. Hefyd, rhoddodd UDD2 yr Ysgol gyfrif anghyflawn, ac felly anonest, o'r dulliau atal a ddefnyddiwyd i Gadeirydd y Llywodraethwyr, ynghyd â sicrwydd na wnaed unrhyw niwed emosiynol parhaus i Blentyn I er na chynhaliwyd unrhyw archwiliadau lles arno. Er bod y rhiant wedi gofyn am gefnogaeth barhaus i'w phlentyn yn unol â'r gofyniad a amlinellir yn y canllawiau cenedlaethol yn dilyn digwyddiadau atal o'r fath, ni ddarparwyd hyn, a gwelwyd nad oedd hyn wedi'i gynnwys ym mholisi Ymddygiad Disgyblion nac Amddiffyn Plant yr ysgol.

I gloi, ar ôl i Gadeirydd y Llywodraethwyr gael cyfle i fyfyrio ar faterion yn ymwneud â'r digwyddiad, anfonodd lythyr at Bennaeth Addysg 1 ALl1, a ddrafftiwyd iddo gan Foden, yn amddiffyn gweithredoedd Foden fesul pwynt, ac yn dyfynnu gwybodaeth ychwanegol na chraffwyd arni ar ganllawiau ataliaeth a gafwyd gan UDD2. Yn y llythyr hwn, nododd Cadeirydd y Llywodraethwyr ei fod '*wedi'i argyhoeddi nad oedd [Foden] yn peri unrhyw risg i unrhyw ddisgyblion'…*ac nad oedd yna '*…unrhyw broblemau diogelu'*, a'i bod felly'n briodol i Foden ddychwelyd i'w waith yn yr ysgol. Anfonodd Cadeirydd y Llywodraethwyr neges e-bost at Foden o fewn wythnos i ofyn iddo weithio gartref, yn nodi bod y cyfyngiadau bellach wedi'u codi, a bod croeso iddo ddychwelyd i Ysgol Friars *yfory* (22 Tachwedd 2021).

Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, roedd Cadeirydd y Llywodraethwyr wedi ystyried gwybodaeth anghyflawn ac anghywir mewn perthynas â'r dulliau atal a ddefnyddiwyd ar Blentyn I gan Foden. Wrth wneud hyn, diystyrodd gyngor pendant Cyfarwyddwr GPaTh ALl1, Pennaeth Addysg 1 ALl1, Pennaeth GPaTh ALl1, Cyn Gyf Cor ALl1 a Swyddog Cyfreithiol ALl1, a oedd wedi seilio eu hargymhelliad ar gryn dipyn mwy o fanylion nag oedd ar gael i Gadeirydd y Llywodraethwyr. *Mae Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, 2022*[23] yn nodi'r canlynol:

> *'Er bod gan gyrff llywodraethu rôl i'w chwarae drwy arfer eu swyddogaethau disgyblu yng nghyswllt honiadau amddiffyn plant yn erbyn aelod o staff, ni fydd ganddynt rôl i'w chwarae wrth ystyried achosion penodol'.*

Yn wir, roedd Cadeirydd y Llywodraethwyr wedi ystyried y mater hwn ar sail gwybodaeth annigonol ac anghywir a ddarparwyd iddo am achos unigol. Mae'r

[22] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents
[23] https://www.llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel

Adolygwyr yn dadlau na ddylai fod wedi bod yn bosib i Gadeirydd y Llywodraethwyr fod wedi gwneud penderfyniad ar sail unigol gyda chyfres o ffeithiau annigonol heb eu craffu. Dylai fod penderfyniad mor arwyddocaol fod yn galw am ymgynghoriad tryloyw llawn gyda chymaint o ffeithiau cyflawn a chywir ag a oedd ar gael ar y pryd. Ni ddylai'r penderfyniad allweddol hwn fod wedi cael digwydd.

Roedd hwn yn gyfle a gollwyd

Yn hanfodol, ac yn ychwanegol at yr uchod, roedd penderfyniad Cadeirydd y Llywodraethwyr wedi'i seilio ar y dybiaeth anghywir '*nad oedd unrhyw ddigwyddiadau eraill tebyg wedi codi mewn perthynas â [Foden]*'. Roedd hyn yn ffeithiol anghywir. Pe bai Pennaeth Addysg 1 ALl1 neu Uwch Reolwr GPaTh ALl1 (LADO) wedi rhoi gwybod i Gadeirydd y Llywodraethwyr am y ddau achos arall o ddefnyddio dulliau atal a oedd yn cael eu hymchwilio ar y pryd, neu pe bai Cadeirydd y Llywodraethwyr wedi cael ei hysbysu am yr honiadau hyn yn erbyn y Pennaeth pan fu iddynt godi, byddai wedi bod mewn sefyllfa i wneud penderfyniad cytbwys. Dylai Cadeirydd y Llywodraethwyr hefyd fod wedi cael gwybod am yr ymchwiliad a oedd ar y gweill i ymddygiad Foden gyda Phlentyn G.

Roedd pob un o'r achosion a'r ymchwiliadau hyn wedi digwydd yn ystod y cyfnod ceryddu o ddwy flynedd ar ôl i CGA gael Foden yn euog o gamymddwyn proffesiynol mewn perthynas ag aelod staff. Hefyd, gwnaeth Cadeirydd y Llywodraethwyr y penderfyniad i beidio ag atal Foden o'i waith dros dro bron i ddau fis cyn casgliad ymchwiliad ffurfiol GPaTh ALl1 i achos Plentyn I.

Dylai amharodrwydd Foden i dderbyn casgliad y Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 ar ddefnyddio dulliau atal ar Blentyn I, a'r camau gweithredu a argymhellwyd yn dilyn y casgliad hwnnw, fod wedi hoelio sylw ar ei ymddygiad o hynny allan. Ond mae'n ymddangos na ddigwyddodd hynny, gan nad yw'r Adolygiad wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod Cadeirydd y Llywodraethwyr wedi gweithredu ar yr argymhellion nac wedi monitro unrhyw weithredoedd na disgwyliadau.

## Cwynion Eraill

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n nodi y gall unrhyw un sydd â chysylltiad â'r ysgol fynd â chwynion am yr ysgol a'r cyfleusterau y mae'n eu darparu at un o Lywodraethwyr yr ysgol, ond mai'r Pennaeth sy'n bennaf gyfrifol am reoli'r ysgol o ddydd i ddydd. Yn ôl y gyfraith, rhaid i'r Corff Llywodraethu ystyried cwynion ffurfiol, gan gynnwys cwynion am benderfyniad y mae'r Pennaeth wedi'i wneud neu gwynion a wneir yn erbyn y Pennaeth. Rôl Llywodraethwr yw egluro a chyfeirio'r achwynydd at y Polisi Cwynion, ac os oes angen, cyfeirio'n ôl at y Pennaeth i ddatrys y broblem - ac eithrio pan fo'r Pennaeth yn destun y gŵyn.

Os na chaiff ei ddatrys, gall Cadeirydd y Llywodraethwyr gyfeirio'r mater at Banel o Lywodraethwyr i'w ystyried (gyda chymorth yr Awdurdod Lleol i sicrhau gwrthrychedd), ac mae'n arferol gwahodd yr achwynydd i gyfarfod y Panel. Rhaid i'r Llywodraethwyr

roi ystyriaeth i ganllawiau Llywodraeth Cymru wrth sefydlu eu gweithdrefnau eu hunain. Mae Polisi Cwynion Ysgol Friars yn gwyro'n sylweddol oddi wrth ganllawiau Llywodraeth Cymru (trafodir hyn yn Thema 4: Arferion Cyfyngol).

Nid yw Llawlyfr Llywodraethwyr ALI1 (nad yw bellach yn cael ei ddefnyddio) yn cynnwys darpariaeth ar gyfer methu â datrys cwynion, ac mae'n anghyson â pholisi Llywodraeth Cymru o ran beth i'w wneud os na chaiff cwynion eu datrys gan Banel Cwynion y Llywodraethwyr. Dylai Cadeirydd y Llywodraethwyr, neu aelod arall o'r Corff Llywodraethu a ddewisir ganddo, ymchwilio i gwynion a wneir am y Pennaeth, onid ydynt yn ymwneud â materion sy'n dod o dan weithdrefnau eraill.

Pan edrychodd yr Adolygwyr ar wefan Ysgol Friars, roedd yn dangos Polisi Cwynion a oedd yn hen, yn cynnwys enwau aelodau staff a oedd wedi gadael dros 2 flynedd ynghynt, yn cyfeirio at y Pennaeth fel *Ef/Fo* (er bod y Pennaeth presennol yn fenywaidd) ac yn cynnwys rhai adrannau a oedd wedi'u golygu gyda llinell drwyddynt, fel pe baent ar ffurf ddrafft. Awgrymir terfyn amser o 10 diwrnod ar gyfer codi cwyn yr ymdrinnir â hi'n anffurfiol fel a ganlyn:

- Y Pennaeth Blwyddyn (cam A);
- Yn ffurfiol (cam B) gyda Swyddog Cwynion yr Ysgol (cam ychwanegol, sy'n ymwneud â'r hyn a gynghorir yn y canllawiau cenedlaethol ac yn nodi bod '*cwyn y mae'r Pennaeth yn ymdrin â hi* (cam C*) yn mynd i ymddangos yn ddifrifol iawn ac felly gallai fod yn anodd ei datrys yn anffurfiol)'*,
- neu, os na ellir datrys y mater drwy gamau A a B, Cam C gyda'r Pennaeth, a fydd yn ceisio ymateb o fewn 10 diwrnod.
- Byddai pedwerydd cam a amlinellir ym Mholisi Cwynion Ysgol Friars yn gofyn i'r gŵyn cael ei phasio ymlaen i'r Corff Llywodraethu, a ddylai gydnabod bod y gŵyn wedi dod i law o fewn 5 diwrnod a threfnu cyfarfod i'w datrys o fewn 15 diwrnod. Mae gan y Pennaeth hefyd hawl i fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn yn groes i Ganllawiau Cenedlaethol, a gan beryglu gwrthrychedd. Mae'r canllawiau hyn yn nodi '*na ddylai'r Pennaeth fod yn aelod o'r pwyllgor cwynion oherwydd eu cysylltiad blaenorol'*.

Mae'r Adolygwyr yn ymwybodol bod Ysgol Friars wedi torri eu polisi cwynion eu hunain fel mater o drefn. Nid oedd gweithdrefnau cwyno'n cael eu dilyn bob tro ac ni ymatebwyd i gwynion a wnaed o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno, a chafodd rhai eu hanwybyddu'n gyfan gwbl. Nid oedd cwynion a gyfeiriwyd at y Corff Llywodraethu, ond a gyflwynwyd drwy'r ysgol (am nad oedd manylion y Llywodraethwyr ar gael ar wefan Ysgol Friars) bob amser yn cael eu pasio ymlaen i'r Llywodraethwyr. Mae trefn gofnodi cwynion Ysgol Friars yn wael ac yn anghyson.

Os nad oedd yr achwynwyr yn fodlon ag ymateb Ysgol Friars i gŵyn, ac yn uwchgyfeirio eu cwyn i'r Llywodraethwyr ac ALI1, roedd rhai'n cael eu diystyru fel bod yn flinderus neu'n *fympwyol* eu hagwedd. Dywedwyd wrth yr achwynwyr na fyddai cwynion ganddynt yn y dyfodol yn cael eu hystyried. Roedd eu hymateb yn unol â pholisi cwynion yr ysgol, sy'n rhestru 12 rheswm pam y gallai'r Ysgol ddiystyru cwyn neu achwynydd. Os na chafodd cwynion eu datrys, ni hysbyswyd yr achwynwyr pa ddewisiadau eraill a oedd ar gael iddynt yn unol â gofynion y canllawiau cenedlaethol.

## Polisi Amddiffyn Plant

Y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phob agwedd ar Amddiffyn Plant, gan gynnwys delio â honiadau o gam-drin a wneir yn erbyn aelodau staff. Roedd bylchau allweddol yn niffiniad Polisi Ysgol Friars o gam-drin, yn fwyaf brawychus o ran ymddygiad sy'n meithrin perthynas amhriodol.

Ym mis Chwefror 2021, wrth roi adborth ar ei hyfforddiant diogelu diweddar, ymateb Foden i UDD2 oedd bod hyfforddiant ALl1 yn anghywir, ac aeth yn ei flaen i roi cyfarwyddiadau i'w UDRh ymddwyn i'r gwrthwyneb. Wrth wneud hynny, diystyrodd Foden ganllawiau hyfforddiant ALl1 a oedd yn nodi y dylid atgyfeirio unrhyw fater a oedd yn ymwneud ag Amddiffyn Plant at y Gwasanaethau Plant. Yn hytrach, dywedodd Foden y dylai materion o'r fath gael eu hymchwilio gan y Pennaeth, gan roi'r cyfrifoldeb am benderfynu atgyfeirio ai peidio arno ef ei hun yn unig (oni bai bod y pryderon yn ymwneud ag ef, pan ddylid eu cyfeirio at Gadeirydd y Llywodraethwyr).

Wrth restru'r pedwar achos a fyddai'n gofyn am atgyfeiriad ar yr asesiad cychwynnol, a pham na fyddai angen gwneud atgyfeiriad mewn rhai amgylchiadau, aeth Foden ati i restru achosion **na** fyddai angen atgyfeiriad, gan ddyfynnu adran 550A Deddf Addysg 1996, sydd bellach wedi'i diddymu. Roedd yn dibynnu'n helaeth ar adrannau o'r canllawiau sy'n galw am ddehongliad goddrychol, e.e. beth sy'n cael ei ystyried yn rym rhesymol, ymddygiad amhriodol / arfer gwael gan aelod staff a sut i ddiffinio niwed sylweddol. Wrth ddefnyddio ei ddehongliad ei hun o'r dogfennau canllawiau, yn eithriadol, rhoddodd Foden yr awdurdod arno ef ei hun i ddiystyru'r canllawiau ar y gofynion i atgyfeirio pryderon diogelu, gan danseilio diwylliant o ddiogelu cadarnhaol. Trafodir canlyniadau hyn yn Thema 4: Arferion Cyfyngol.

## Gwaharddiadau

Ysgol Friars yw'r Ysgol Uwchradd fwyaf yn ALl1, yn cynrychioli tua 25% o ddisgyblion uwchradd ALl1. Mae gwaharddiadau parhaol yn Ysgol Friars yn gyson anghymesur o uchel o'i gymharu â maint yr ysgol. Dengys data Addysg mai yma oedd y nifer uchaf o waharddiadau ar draws y sir rhwng 2017 a 2023, yn cyfrif am 31.7% o waharddiadau parhaol ysgolion ALl1.

Yn ôl y gyfraith, rhaid i Is-bwyllgor Disgyblu'r Llywodraethwyr gyfarfod i ystyried gwaharddiadau dros dro hirdymor (dros 15 diwrnod ysgol yn unrhyw un tymor[24]) ac i gadarnhau gwaharddiadau parhaol. Gwahoddir y rhieni i wneud sylwadau yn y gwrandawiadau hyn ar ran y plentyn. Nid yw'r Adolygwyr yn gwybod a ddilynwyd y polisi hwn bob tro, ond maent yn gwybod bod y gyfradd waharddiadau uchel yn Ysgol Friars wedi bod yn destun trafod gyda'r Adran Addysg ers rhai blynyddoedd.

Mater mwy pryderus yw'r diffyg data am y nifer anghymesur o ddisgyblion ag ADY / ADHD (Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd) sydd wedi dioddef wrth

[24] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/gwahardd-o-ysgolion-unedau-cyfeirio-disgyblion.pdf

ddefnyddio agwedd *tri rhybudd ac allan* Polisi Disgyblu'r Ysgol, ac sydd wedi cael eu '*hannog i adael* er mwyn *gwarchod eu cofnod academaidd* ac *osgoi cael gwaharddiad yn erbyn eu henw'*, ac wrth wneud hynny, drwy ddiffiniad, gwarchod yr ysgol hefyd rhag cael eu gweld â nifer gormodol o waharddiadau.

Mae'r Adolygwyr wedi clywed gan staff bugeiliol Ysgol Friars a staff Add ALl1 bod rhai plant yn cael eu targedu'n bwrpasol dro ar ôl tro, gyda materion yn cael eu huwchgyfeirio'n fwriadol gan Foden a'r UDRh Craidd er mwyn cyrraedd y trothwy ar gyfer gwahardd yn gyflym. Yn ôl un aelod staff a gyfrannodd i'r Adolygiad, '*O fewn un diwrnod, gallai eu haddysg uwchradd fod drosodd'.*

Hyd yn oed ar ôl i Foden gael ei arestio, ar adeg o bryder a dryswch mawr pan oedd angen cefnogaeth ar gymuned yr ysgol, dywedodd UDRh Craidd 1 wrth y disgyblion mewn gwasanaeth, wrth rannu neges y cytunwyd arni gan yr UDRh Craidd, y byddent yn cael eu gwahardd pe baent yn cael eu dal yn siarad am faterion yn ymwneud â'r arestio. Roedd hwn yn ymateb amhriodol i gymuned mewn sioc a thrawma.

Mae'r Adolygiad wedi gweld a chlywed am amryw o achosion amlwg o dorri prosesau, polisïau a gweithdrefnau, lle mae rhoi gwybod am bryderon wedi cael ei gam-reoli ac wedi arwain at gynnydd yn y risg i ddiogelu disgyblion, yn ogystal â gofid i'r gweithwyr. Yn ystod y broses hon, mae'r Adolygwyr wedi clywed gan aelodau staff a oedd naill ai ddim yn gwybod bod gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban yn bodoli, neu ddim yn gwybod pryd a sut y dylid neu y gellid rhoi gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban ar waith.

Dylai pob aelod staff wybod sut i godi pryderon yn ddiogel am unrhyw ymddygiad neu arfer mewn ysgol y maent yn ei ystyried yn amhriodol neu'n anniogel, a gallu gwneud hynny heb fod ofn ôl-effeithiau neu ddial. Rhaid i bob aelod staff fod yn hyderus y bydd rhywun yn gwrando ar eu pryderon ac yn mynd i'r afael â nhw'n briodol. Mae angen rhoi gwybod i bob aelod staff yn ddi-oed am y dewis i chwythu'r chwiban pan maent yn teimlo dan fygythiad wrth godi'r pryderon hyn drwy'r llwybrau diogelu arferol, am ba reswm bynnag. Mae gwybodaeth ar gael yng nghanllawiau *Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Enghreifftiol, 2007*[25] Llywodraeth Cymru.

## Thema 6: Cynllunio ar gyfer Argyfwng ac Ymateb mewn Argyfwng

Bu i ymateb Ysgol Friars, a GPaTh ALl1 ac asiantaethau statudol eraill wedi hynny, i'r datgeliad a wnaeth Plentyn D ar 6 Medi 2023 dynnu sylw at y ffaith nad oedd gan yr un sefydliad gynllun ymateb mewn argyfwng cydgysylltiedig.

Mae angen i Uwch Arweinwyr sy'n rheoli diogelu mewn ysgolion, sefydliadau eraill, gwasanaethau statudol a'r Awdurdod Lleol fod wedi sefydlu cyfarwyddyd clir, gan gynnwys cynllun cyfathrebu, i ddelio ag unrhyw argyfwng yn yr ysgol, gan gynnwys cam-drin plant.

[25] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/gweithdrefnau-chwythu%E2%80%99r-chwiban-mewn-ysgolion-a-pholisi-enghreifftiol.pdf

Cadw'r plentyn neu'r plant yn ddiogel ddylai gael blaenoriaeth wrth ymateb i argyfwng, ac er mwyn gwneud hynny, rhaid i'r staff fod yn gwbl ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau eraill a'r llwybrau adrodd. Mae angen rhoi arweiniad iddynt ar reoli'r cyfryngau, yn enwedig os yw'r achos yn ymwneud ag unigolyn neu grŵp amlwg neu adnabyddus.

Rhaid rhoi blaenoriaeth i ofalu am y dioddefwyr mewn modd sy'n ystyriol o drawma, ond rhaid i asiantaethau hefyd gydnabod eu dyletswydd i ofalu am y gweithwyr a deall y bydd y ddyletswydd hon yn un barhaus ac yn debygol o fod angen adnoddau ychwanegol, yn bobl ac yn arian.

Pan godwyd pryderon am Foden yn 2019, ni chafodd yr ymateb ei gydlynu'n ffurfiol ac ni chofnodwyd y penderfyniadau a wnaed am y camau i'w cymryd yn ffurfiol. Mae hyn wedi bod yn destun trafodaeth a dadl drwy gydol yr Adolygiad, ac nid oes amheuaeth iddo olygu bod plant yn wynebu risg o gam-drin pellach gan Foden. Mae hefyd wedi gadael ALI1 yn agored i feirniadaeth gan y cyfryngau, y gymuned a'r ysgol.

Ar 6 Medi 2023, ni chafwyd ymateb cydgysylltiedig unwaith eto gan yr asiantaethau a oedd yn delio â'r mater hwn. Dangosodd dadansoddiad manwl o'r camau a gymerwyd ar ddiwrnod y datgeliad bod angen proses y mae pob asiantaeth yn ei deall ac y gellir ei rhoi ar waith yn gyflym mewn argyfwng, fel yn yr achos hwn, pan oedd nifer o aelodau staff mewn sioc.

Am tua 09:00 ar 6 Medi 2023, siaradodd Plentyn D ag aelod o staff bugeiliol Ysgol Friars, gan ddatgelu ei bod wedi bod '*mewn perthynas ramantus'* gyda Foden. Yn ddiweddarach, dangosodd dystiolaeth o negeseuon o natur rywiol ar ei ffôn symudol i'r DUDD. Er bod manylion Foden wedi'u cadw dan ffugenw, gwelwyd mai o'i rif ffôn ef yr anfonwyd y negeseuon. Roedd y cynnwys yn dangos yn amlwg bod trosedd wedi'i chyflawni.

Nid oedd UDD2 yn yr ysgol ar ddiwrnod y datgeliad, a cheisiodd y DUDD gyngor dros y ffôn gan ddesg flaen GPaTh ALI1 gan ddisgrifio cynnwys y negeseuon. Cofnododd GPaTh ALI1 y cawsant wybod am hyn am 10:45. Ni ddilynodd y DUDD bolisi'r ysgol a oedd yn nodi bod angen rhoi gwybod i Add ALI1 neu Swyddog Diogelu Dynodedig y Sir, ac ni lwyddodd chwaith i gael gafael ar Gadeirydd y Llywodraethwyr nes yn gynnar yn y prynhawn, er ei fod wedi ceisio gwneud hynny. Credir fod UDRh Craidd 1 wedi cysylltu â Phennaeth Addysg 1 ALI1, ond nid oedd hynny'n rhan o ymateb cydgysylltiedig ac nid oes unrhyw gofnodion sy'n cyfateb â hyn.

Pan gysylltodd y DUDD â desg flaen GPaTh ALI1 roedd hefyd yn dal i geisio cadw Plentyn D yn ddiogel. Cuddiwyd Plentyn D mewn cwpwrdd mawr ar y safle am rai oriau. Adeg yr atgyfeiriad, nid oedd y DUDD wedi cysylltu â HGC, ni ofynnodd GPaTh ALI1 iddynt a oeddent **wedi** ffonio HGC, ac ni chawsant eu cynghori y **dylent** ffonio HGC ar unwaith. Yn hytrach, gofynnwyd i'r DUDD lenwi ffurflen atgyfeirio safonol ac anfon copïau o'r negeseuon WhatsApp a gafwyd oddi ar ffôn Plentyn D. Tra'r oedd y DUDD wrthi'n llenwi'r ffurflen atgyfeirio, gyda Phlentyn D yn dal i fod yn y cwpwrdd, ceisiodd Foden fynd ati, ond cafodd ei rwystro'n gorfforol rhag gwneud hynny gan y DUDD.

Ni wnaed unrhyw asesiad risg uniongyrchol ar gyfer Plentyn D. Ni chafodd mynediad Foden at systemau TG yr ysgol ei atal na'i rewi ac ni chafodd y caledwedd ei ddiogelu.

Ni chafwyd unrhyw drafodaeth am y posibilrwydd y gallai Foden fod wedi bod yn gweithio gyda rhywun arall, nac y gallai dioddefwyr eraill fod yn yr ysgol y gallai gael gafael arnynt yn ystod y cyfnod hwn. Ni ddilynwyd gweithdrefnau amddiffyn plant sylfaenol i gadw'r plentyn yn ddiogel, diogelu tystiolaeth nac atal y cyflawnwr honedig ar unwaith gan yr ysgol na GPaTh ALI1, gan achosi mwy o drawma i'r dioddefwr/goroeswyr.

Pan dderbyniodd GPaTh ALI1 y ffurflen atgyfeirio wedi'i llenwi am 11:19, a'r dystiolaeth ategol am 11:55, cynghorodd GPaTh ALI1 y DUDD i ffonio HGC, ac fe wnaethant hynny am 12:21. Yna, cynhaliwyd Trafodaeth Strategaeth gyda HGC am 12:54 ac o ganlyniad i hwnnw, penderfynwyd y dylai HGC fynd i'r ysgol. Am 13:17, cofnodwyd cadarnhad bod HGC a GPaTh ALI1 hefyd wedi cynnal Cyfarfod Strategaeth adran 47. Yn y cyfamser, roedd Foden wedi bod yn yr ysgol ac yn ei swyddfa. Yn ystod yr amser hwnnw, llwyddodd i ddileu gwybodaeth oddi ar ei ddyfeisiau electronig. Llwyddodd HGC i adfer y wybodaeth honno wedyn.

Roedd y gweithwyr proffesiynol a dderbyniodd y datgeliad mewn sioc, a byddent wedi elwa ar gael cynllun clir i'w ddilyn; nid oedd eu hymateb wedi'i gydgysylltu ac felly nid oedd yn effeithlon.

Tra bod y DUDD wrthi'n atgyfeirio'r mater ac yn siarad gyda GPaTh ALI1, roedd rhywfaint o wybodaeth wedi cyrraedd Pennaeth Addysg 1 ALI1 a oedd mewn cyfarfod gydag Uwch Swyddogion ALI1. Ar ddiwedd y cyfarfod, gofynnodd i'r Swyddogion aros ar ôl er mwyn iddo gael eu hysbysu am y sefyllfa yn Ysgol Friars, a chadarnhaodd bod GPaTh ALI1 yn ymwybodol bod yr heddlu '*ar y ffordd'*.

Nid oedd unrhyw gynllun ffurfiol ar gael i'r UDRh ei ddilyn ac nid oes unrhyw gofnod o bwy gysylltodd â Chadeirydd y Llywodraethwyr (na phryd y cysylltwyd ag ef), er yr ymddengys ei fod wedi cael gwybod am y sefyllfa cyn cael unrhyw hysbysiad ffurfiol gan Bennaeth Addysg 1 ALI1 na GPaTh  Nid yw'n hysbys a ddaeth yn ymwybodol o'r sefyllfa drwy ei rôl broffesiynol gyda HGC ai peidio; roedd Uwch Reolwr GPaTh ALI1 (LADO), a hysbyswyd am y mater, yn bryderus '*nad oedd hyn yn dilyn y broses'*.

Pan gysylltodd y DUDD â HGC am 12:21, awgrymodd y manylion a ddarparodd nad oedd [Plentyn D] yn wynebu unrhyw risg uniongyrchol, a oedd yn dangos diffyg dealltwriaeth o'r risg ac effaith aros ar y safle ar Blentyn D. Yn ogystal, roedd y DUDD wedi awgrymu nad oedd Foden yn ymwybodol o'r honiad. Fodd bynnag, er bod posib nad oedd Foden wedi cael manylion y datgeliad, roedd eisoes wedi ceisio mynd at Blentyn D ac o fethu gwneud hynny, roedd wedi llwyddo i gael gafael ar gyfarpar TG. Arweiniodd hyn at i HGC gofnodi '*nad oedd unrhyw awgrym gan y galwr bod yna risg uniongyrchol a oedd yn galw am ymateb brys'*. Fodd bynnag, uwchgyfeiriwyd y mater at Grŵp Arian HGC ar y pwynt hwn.

Daeth Swyddogion HGC mewn dillad arferol i'r ysgol am tua 14:00 ac arestiwyd Foden. Roedd Plentyn D wedi aros ynghudd yn yr ysgol drwy gydol y cyfnod hwn ac yn dal i fod yn cuddio ar safle'r ysgol hyd yn oed ar ôl i Foden gael ei arestio, nes y daeth gweithwyr proffesiynol GPaTh ALI1 i siarad â hi.

Heb unrhyw gynllun rheoli argyfwng ar waith i ymateb i'r sefyllfa hon, roedd pryderon am '*gael pethau'n anghywir*,' peidio â dilyn prosesau, diffyg trafodaeth agored rhwng adrannau a gwleidyddoli penderfyniadau oll yn chwarae rhan mewn gadael i bethau

lithro ac oedi cyn arestio Foden. Dylai HGC a GPaTh ALI1 fod wedi cael eu galw i'r ysgol ar unwaith pan gafwyd yr atgyfeiriad.

Nid yw'r Adolygwyr wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod cynllun cyfathrebu neu gefnogi clir na chydgysylltiedig wedi cael ei roi ar waith gan yr Ysgol nac Add ALI1 ar ôl i Foden gael ei arestio.

Ar 10 Medi 2023, anfonodd yr UDRh Craidd neges (y mae copi ohoni isod) at bob aelod o staff yr ysgol yn eu cynghori ar sut i ymateb i rieni a disgyblion. Ni wnaed hyn mewn dull a oedd yn ystyriol o drawma ac ychydig iawn o ddealltwriaeth a ddangoswyd o'r effaith y byddai datgelu'r ffaith bod Foden wedi bod yn cam-drin disgyblion yn ei chael ar gymuned ehangach yr ysgol.

**Anfonwyd:** 10 Medi 2023 21:17
**At:** [enwau wedi'u dileu gan yr Adolygwyr]
**Testun:** Neges gan yr UDRh

*Annwyl bawb,*
*Rydym yn sylweddoli bod hwn wedi bod amser pryderus a llawn straen i bawb a'ch bod yn parhau i geisio prosesu eich emosiynau a'ch ymateb i'r cyhoeddiad ddydd Gwener. Bydd gennym dri chwnselydd ar y safle o ddydd Llun ymlaen os oes unrhyw un yn teimlo eu bod angen siarad â rhywun. Cysylltwch â [x] ac mi wnaiff hi drafod apwyntiadau gyda DUDD a'r tîm cwnsela a gweld os [gallant] drefnu i rhywun ofalu am eich dosbarth i'ch rhyddhau chi ar gyfer apwyntiadau cychwynnol. Mae drws yr UDRh Craidd hefyd ar agor bob amser. Fe arall, gallwch gysylltu â Medra, Education Mutual (y cwmni absenoldeb salwch athrawon) neu Education Support (gwasanaeth cefnogi arbenigol i staff mewn addysg).*

*Ddydd Llun, byddwn yn cynnal cyfres o wasanaethau gyda phob grŵp blwyddyn. Byddant yn cael gwybod sut mae modd iddynt gael cwnsela a chefnogaeth. Byddant yn cael eu sicrhau eu bod yn ddiogel yn yr ysgol. Fodd bynnag, byddant yn cael gwybod na all y staff siarad am yr achos felly nad ydynt yn cael eu holi amdano. Byddant yn cael gwybod y gallent gael eu gwahardd o'r ysgol neu eu cyfweld gan yr heddlu os byddant yn lledaenu straeon ar y cyfryngau cymdeithasol.*

*Rydym yn awgrymu eich bod yn defnyddio'r sgript a ganlyn os bydd disgyblion yn trafod y mater yn y dosbarth, ac yn dilyn polisi arferol yr ysgol am beidio â gwrando ar rybudd:*

*'Alla i ddim siarad am yr achos, felly mi wnawn ni barhau â'r wers.'*

Os byddant yn parhau i godi'r mater:

*'Fe gefaist ti wybod yn y gwasanaeth nad wyt ti'n cael holi am yr achos. Alla' i ddim siarad am yr achos. Os byddi di'n parhau i holi am y mater neu'n ei drafod ar ôl i mi dy rybuddio, bydd rhaid i mi drin hyn fel dy fod yn fy herio ac fe allet ti gael dy atgyfeirio at yr uwch dîm rheoli a chael dy wahardd.'*

*Diolch am eich holl gefnogaeth.*

*UDRh*

Aeth y neges e-bost ymlaen fel a ganlyn:

*Dyma drawsgrifiad o'r negeseuon y bydd UDRh Craidd 1 ac UDD2 yn eu cyflwyno yn ystod y gwasanaeth:*

*<u>UDRh Craidd 1</u>*
*'Efallai eich bod wedi gweld neu glywed ar y newyddion bod Mr Foden wedi cael ei gyhuddo o droseddau difrifol iawn ddydd Gwener.*

*Yn ôl y gyfraith, mae unigolyn yn ddi-euog nes cael ei ganfod yn euog. Bydd hynny'n cael ei benderfynu yn llys y goron ymhen ychydig wythnosau neu fisoedd.*

*Mae'r heddlu'n parhau i ymchwilio. Ni all staff yr ysgol siarad am yr achos felly ni chewch chi eu holi amdano.*

*Bydd yr ysgol yn parhau i gael ei rhedeg fel arfer. Mae rheolau'r ysgol yn parhau i gael eu gweithredu, gan gynnwys yr un am beidio â chamddefnyddio technoleg fodern.*

*Ddylech chi ddim lledaenu straeon na thrafod yr achos mewn unrhyw ffordd, yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol neu unrhyw wasanaeth negeseuon. Os byddwch yn gwneud hynny, gallech gael eich gwahardd o'r ysgol ac efallai y bydd yr heddlu yn eich cyfweld fel rhan o'u hymchwiliad.*

*Os ydych chi'n gwybod unrhyw beth allai helpu'r heddlu, dylech siarad gyda'ch Pennaeth Blwyddyn, Pennaeth Cyfnod Allweddol, UDD2 neu DUDD cyn gynted ag y bo modd ar ôl y gwasanaeth hwn. Gallwch siarad efo UDRh Craidd 3 hefyd.*

*Mae Friars yn ysgol wych. Y llynedd, roedd ein canlyniadau arholiadau yn golygu mai ni oedd yr ysgol uwchradd orau yng Ngogledd Cymru. Eleni, roedden nhw cystal os nad gwell. Mae hynny o'ch herwydd chi a'ch athrawon a'r hyn rydych chi'n ei wneud yn y dosbarth ac fel gwaith cartref. Ni fydd hynny'n newid.*

*Bydd UDD2 yn eich atgoffa chi rŵan o beth y gallwch chi ei wneud os ydi'r newyddion yma wedi effeithio arnoch chi'.*

UDD2
*'Oherwydd y digwyddiadau y mae UDRh Craidd 1 wedi'u disgrifio, rydym wedi trefnu cefnogaeth ychwanegol i chi yn yr ysgol ond hefyd roeddem ni eisiau eich hatgoffa chi am y gefnogaeth sydd eisoes ar gael i chi yn yr ysgol.*

*Yr wythnos hon, rydym wedi trefnu i dri chwnselydd ychwanegol fod ar gael yn yr ysgol ar gyfer staff a disgyblion. Mae hyn yn ychwanegol at y rhai sydd ar*

*gael drwy apwyntiad yn ystod yr wythnos. Mae staff bugeiliol ac amddiffyn plant ar gael hefyd, ac mi wna' i eich hatgoffa chi pwy ydyn nhw mewn eiliad. Os ydych chi wedi cael eich effeithio gan y digwyddiadau yr wythnos diwethaf, ewch i weld eich Pennaeth Blwyddyn (neu gyfatebol) i ddechrau ac mi wnawn nhw gysylltu gyda'r rheolwr swyddfa os ydyn nhw'n teimlo y byddai gweld cwnselydd neu aelod o'r tîm amddiffyn plant yn fwy priodol. Yn ystod gwersi, os ydych yn teimlo eich bod angen cefnogaeth, gofynnwch i'ch athro/athrawes anfon neges e-bost at eich Pennaeth Blwyddyn.*

*Rydw i wedi cynnwys ychydig o rifau cyswllt ar gyfer cymorth iechyd meddwl y tu allan i'r ysgol hefyd ac mi wna' i arddangos y cyflwyniad hwn o amgylch yr ysgol.*

*Dyma pwy ydi'r Tîm Amddiffyn Plant: Fi ydi swyddog diogelu arweiniol yr ysgol ac X yw'r Dirprwy Unigolyn Diogelu. Rydym ni'n dau ar gael i'ch gweld chi unrhyw bryd, os ydych chi neu unrhyw un rydych chi'n ei adnabod yn wynebu risg o niwed.'*

Ar 8 Medi 2023, galwyd Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru mewn perthynas â Foden. Nid oedd Cadeirydd y Llywodraethwyr yn bresennol, ac roedd wedi enwebu UDD2 i fod yno yn ei le. Nid oedd hwn yn ddirprwy priodol a dylai hyn fod wedi cael ei drafod â'r Is-gadeirydd neu aelod enwebedig arall o'r Corff Llywodraeth a oedd yn bresennol.

Ar 11 Medi 2023, galwyd cyfarfod Uwch Swyddogion ALI1 (gweler tudalen 28 i gael y manylion).

Nododd cofnod o gyfarfod eithriadol y Corff Llywodraethu a gynhaliwyd ar 14 Medi 2023 yn yr ysgol bod y wasg wedi dod yn ymwybodol o'r sefyllfa, a bod negeseuon ar led ar y cyfryngau cymdeithasol cyn i'r datganiad y bwriadwyd ei wneud gael ei gyhoeddi.

## Thema 7: Hyfforddiant a'r Cwricwlwm

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022*[26], yn nodi bod dyletswydd gyfreithiol ar bob ysgol a choleg yng Nghymru i amddiffyn a hybu lles plant. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys y gofyniad i benodi UDD (Unigolyn Diogelu Dynodedig) sydd â'r prif gyfrifoldeb am reoli materion amddiffyn plant yn yr ysgol

Un o ofynion *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022* yw bod rhaid i'r Pennaeth benodi nifer addas o UDD a Dirprwyon ar gyfer eu lleoliad, a sicrhau eu bod yn cael y lefel ofynnol o hyfforddiant a chymorth i ymgymryd â'r rôl, gan gynnwys hyfforddiant diogelwch ar-lein. Nid oes rhaid i'r UDD fod yn athro/athrawes, ond rhaid iddo/iddi fod yn Uwch Aelod Staff a dylai fod â'r un statws a chael yr un hyfforddiant.

[26] https://www.llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel

Nododd yr Adolygiad (Thema 1: Effaith Statws, Enw Da a Diwylliant) bod Foden wedi mynd ati'n fwriadol i greu diwylliant lle'r oedd swyddogaethau diogelu a bugeiliol Ysgol Friars yn wan ac roedd y staff yn dibynnu arno ef am gyfarwyddyd, cyngor a phenderfyniadau.

Er bod proses briodol ar waith ar gyfer penodi staff i Ysgol Friars, llwyddodd Foden i drechu a rheoli'r broses hon a recriwtio'n dactegol ac yn strategol i benodi darpar ymgeiswyr yr oedd yn eu hystyried yn deyrngar, yn hawdd eu trin ac yn wan, yn ogystal ag osgoi mewnbwn aelodau staff a Llywodraethwyr eraill a fyddai fel arfer â mwy o ran yn y broses recriwtio. Ymddengys mai dyma amgylchiadau penodi UDD2. Yn ystod yr Adolygiad, mynegodd rhai aelodau o'r UDRh eu bod wedi'u synnu gan rai o'r unigolion a benododd Foden pan nad oedd ymgeiswyr mwy addas wedi bod yn llwyddiannus.

Pan benododd Foden UDD2, nid oedd wedi cwblhau'r lefel ofynnol o hyfforddiant diogelu ar gyfer y swydd. Bu i Foden hefyd ddyrchafu'r rheolwr swyddfa yn DUDD er nad oedd ar yr Uwch Dîm Arwain nac wedi cael yr hyfforddiant digonol. Gellir dadlau nad oedd penodi un UDD ac un DUDD, hyd yn oed pe byddai ganddynt yr hyfforddiant a'r profiad priodol, yn ddigonol ar gyfer ysgol o 1400 o ddisgyblion.

Nid oedd unrhyw gofnod o hyfforddiant yn yr ysgol er bod *Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022* yn nodi'n glir bod

> '***rhaid** i'r UDD gadw cofnod o'r holl hyfforddiant staff, gan gynnwys y dyddiadau, manylion y darparwr a chofnod o bresenoldeb staff*',

a dywedodd UDRh Craidd 1 nad oedd wedi cael unrhyw hyfforddiant Amddiffyn Plant ar wahân i'r hyfforddiant gloywi a gyflwynir bob blwyddyn gan y Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu Plant mewn Addysg.

Mae *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022* hefyd yn nodi y dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau bod yr UDD, y llywodraethwr diogelu dynodedig a Chadeirydd y Llywodraethwyr yn cael hyfforddiant ar weithio rhyngasiantaethol a ddarperir gan y BDP (BDPGC yn yr achos hwn), yn ogystal â hyfforddiant gloywi er mwyn cadw eu gwybodaeth a'u sgiliau'n gyfredol, yn ychwanegol at hyfforddiant diogelu sylfaenol. Nid yw'r Adolygwyr wedi gweld tystiolaeth o unrhyw gofnod hyfforddiant yn yr ysgol na gan yr Awdurdod Lleol.

Roedd Foden yn un da iawn am ddylanwadu ac yn ogystal â meithrin perthynas amhriodol gyda'r dioddefwyr, llwyddodd i feithrin amgylchedd gwaith a'i galluogodd i guddio ei ymddygiad troseddol drwy gynnig *cwnsela* a gofal bugeiliol i ddisgyblion benywaidd yr oedd yn gwybod eu bod yn ddiamddiffyn. Nid oedd gan Foden unrhyw gymhwyster na hyfforddiant i wneud y gwaith hwn ar wahân i'w gred *ei fod yn dda am ei wneud*. Golygodd diffyg hyfforddiant staff ynghyd â diffyg cadw cofnodion na chafodd patrymau ymddygiad Foden eu hadnabod na'u cofnodi.

Mae diffyg dealltwriaeth o safonau proffesiynol, gweithdrefnau diogelu a hyfforddiant diogelu, hyd yn oed ar lefel Uwch Aelodau Staff a Swyddogion, yn un o themâu

allweddol yr Adolygiad hwn. Dywedodd UDRh Craidd 1 a Phennaeth Addysg 1 ALl1 (a oedd yn arfer bod yn Bennaeth yn yr Awdurdod) nad oeddent wedi cael hyfforddiant diogelu a oedd yn gymesur â'r swyddi. Serch hynny, y gofyniad sefydlog yw bod pob aelod staff yn cael hyfforddiant gloywi bob dwy flynedd, ac y dylai'r hyfforddiant hwnnw gynnwys sut i adnabod ac ymateb i achosion o gam-drin a sut i roi gwybod am bryderon.

Gwrthododd Foden ei hun fynychu cwrs diogelu yr oedd yn rhagweld '*na fyddai'n dysgu unrhyw beth newydd iddo'*. Yn dilyn marwolaeth UDD1, adroddwyd bod bylchau yn yr hyfforddiant diogelu. Agwedd Foden pan heriwyd ef am hyn gan y Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu Plant mewn Addysg oedd gofyn '*beth sydd gennych chi i'w ddysgu i fy staff na alla' i ei ddysgu a'i basio ymlaen iddynt?'* Ni ddeliwyd â'r her hon ar y pryd ac ni ddarparwyd hyfforddiant.

Dylai'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu Plant mewn Addysg (Add3 ALl1) sicrhau bod pob ysgol yn dilyn canllawiau statudol, bod athrawon a llywodraethwyr ysgolion yn cael yr holl hyfforddiant, cefnogaeth a chyngor sydd ei angen arnynt, a bod pob aelod staff wedi cael hyfforddiant diogelu cyfredol. Fel y nodir yn *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022*:

> '*bydd y Swyddog Arweiniol yn adnabod ac yn cefnogi UDD a llywodraethwr diogelu dynodedig pob ysgol ac yn sicrhau bod gan bob ysgol bolisïau a chamau ar gyfer ymdrin â materion, gan gynnwys honiadau yn erbyn staff, a bod ysgolion yn gwneud y gwiriadau cyflogaeth cywir, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd*'.

Ni chyfeiriodd unrhyw aelod staff yn unrhyw asiantaeth nac adran Awdurdod Lleol y siaradwyd â nhw yn ystod yr Adolygiad hwn at y rôl hon na'r gefnogaeth y gallent ei chynnig, ac mae tystiolaeth bod polisïau'r ysgol yn gwyro oddi wrth bolisïau enghreifftiol ALl1 mewn ffordd a oedd yn galluogi Foden i reoli'r broses ddiogelu. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod Uwch Swyddogion Addysg ALl1 wedi goruchwylio hyn.

Yn ogystal â diffyg hyfforddiant, roedd dealltwriaeth staff yr ysgol o'u cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau diogelu wedi'i seilio ar gymysgedd ddryslyd o bolisïau ysgol a oedd yn anghyson neu'n gwrthddweud y rhai a gynhyrchwyd gan ALl1 a Llywodraeth Cymru. Ar ben hynny, fel y gwelir drwy gydol yr Adolygiad hwn, roedd Foden yn amlwg yn diystyru'r polisïau hynny yr oedd ef ei hun wedi'u llunio beth bynnag.

Roedd cymeradwyaeth y Llywodraethwyr ar gyfer polisïau'r ysgol, gan gynnwys y polisi diogelu, hefyd yn cael ei reoli a'i gyfarwyddo'n fanwl gan Foden, a oedd yn cael ei weld yn arbenigwr ar y maes. Llwyddodd Foden i dwyllo ei staff drwy wneud newidiadau i bolisïau a pheidio eu rhannu â nhw nes ei bod yn dod yn amlwg bod rhywun wedi eu torri – bryd hynny, gallai Foden ddisgyblu'r unigolyn yn gyhoeddus.

Thema arall a nodwyd gan yr Adolygiad hwn oedd nad oedd gan staff yr ysgol y sgiliau i ddeall *modus operandi* troseddwyr rhyw nac adnabod pan oedd troseddwr rhyw yn meithrin perthynas amhriodol. Drwy gymryd rôl fugeiliol arweiniol yn yr ysgol,

roedd Foden wedi ei roi ei hun mewn sefyllfa lle'r oedd ganddo reswm amlwg i gael cyfarfodydd 1:1 gyda rhai o'r disgyblion mwyaf diamddiffyn yn yr ysgol ar wedd cynnig cefnogaeth fugeiliol. Fel troseddwr soffistigedig, roedd Foden wedi llwyddo i gyflyru'r oedolion o'i amgylch ac wedi cael gwared â'r rhai hynny a allai fod wedi amddiffyn ei ddioddefwyr. Roedd Foden wedi normaleiddio ei ymddygiad, gan weithredu dan drwynau ei UDRh Craidd, ei staff addysgu a gweinyddu a'i ddisgyblion. Roedd y ffaith ei fod yn gweld disgyblion benywaidd diamddiffyn ar eu pennau eu hunain yn ei ystafell yn *gyfrinach agored*.

Ni sylweddololdd gweithwyr proffesiynol a oedd yn gweithio yn Ysgol Friars nac yn ALI1 bod ymddygiad Foden yn meithrin perthnasoedd amhriodol chwaith, a phan godwyd pryderon am y ffordd yr oedd yn rhyngweithio â disgyblion, ni ystyriwyd y rhain o safbwynt perygl posib i blentyn, dim ond o'r safbwynt y gallai'r plentyn neu'r plant fod yn gwneud honiadau maleisus neu ffug yn erbyn Foden. Ni wnaeth gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys y rheiny a oedd yn gweithio ar lefel uwch ac mewn swyddi arbenigol mewn nifer o asiantaethau, edrych yn wrthrychol ar ymddygiad Foden na gofyn cwestiynau myfyriol iddynt eu hunain nac eraill, fel:

- *pam fod Pennaeth gwrywaidd ysgol yn mynd i apwyntiadau meddygol gyda phlentyn benywaidd?*
- *a yw Foden wedi cael hyfforddiant i gynnig sesiynau cwnsela?*
- *pam mai dim ond i ddisgyblion benywaidd diamddiffyn y mae Foden yn cynnig sesiynau cwnsela 1:1 - pam nad yw'n eu cynnig i ddisgyblion gwrywaidd diamddiffyn?*
- *sut bod gan Bennaeth ysgol fawr amser i gael cymaint o gyfarfodydd 1:1 gyda disgyblion benywaidd diamddiffyn?*
- *pam fod Foden yn diystyru'r rheolau - yn cynnal cyfarfodydd 1:1 yn ei ystafell gyda'r drws ar gau, y golau i ffwrdd a'r bleinds ar gau, ac yn mynd â disgyblion benywaidd yn ei gar?*

Galluogodd diffyg chwilfrydedd proffesiynol syml i Foden barhau i gam-drin yng ngolwg pawb. Roedd hwn yn gyfle a gollwyd.

Enghraifft bellach yw'r disgrifiad o sut roedd Foden yn rhyngweithio gyda Phlentyn F, yr adroddwyd amdano gyntaf gan yr oedolion a oedd yn ei chefnogi, ac a ailadroddwyd yn ei disgrifiad ei hun o'i ryngweithio. Disgrifiwyd hyn yn gynharach yn yr Adolygiad hwn ac mae'n dangos dulliau clasurol troseddwyr rhyw o feithrin perthynas amhriodol. Fodd bynnag, er bod Plentyn F wedi disgrifio yn ei geiriau ei hun bod cofleidiad a gafodd gan Foden wedi gwneud iddi deimlo'n anghyfforddus, gofynnwyd i Blentyn F ddangos sut gofleidiad oedd hwn, a chafodd ei diystyru wedyn gan weithwyr

proffesiynol a oedd yn asesu'r risg, a ddywedodd *nad oedd yn amhriodol*. Methwyd â sylwi ar *batrwm* o ymddygiad tebyg gyda nifer o ddisgyblion benywaidd diamddiffyn (er enghraifft, gafael llaw plant, sylwadau Plentyn G a Phlentyn F am gofleidiad anghyfforddus), yn ogystal â'r ffaith amlwg ei bod yn anaddas i oedolyn cyfrifol fod yn cyffwrdd plentyn. Dim ond gwaethygu graddfa'r methiant wnaeth y ffaith i'r holl bryderon y rhoddwyd gwybod amdanynt gael eu trin ar wahân, heb ystyried cyd-destun ehangach na phatrwm ymddygiad.

Mae'n hanfodol cael gwybodaeth ymarferol am y '*Finklehor Four Pre-conditions Model'* a gallu deall ac adnabod ymddygiad a allai fod yn arwydd bod oedolyn yn ceisio ynysu a meithrin perthynas amhriodol â phlentyn neu blant, er mwyn lleihau'r cyfleoedd i oedolion fel Foden gam-drin plant yn rhywiol.

## Y Cwricwlwm

Mae yna awgrym bod rhai o ddioddefwyr cam-drin rhywiol Foden wedi dechrau deall y gallai ei ymddygiad tuag atynt olygu ei fod yn ceisio meithrin perthynas amhriodol â nhw. Roedd yna si a chynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol i'r perwyl hwn, a thystiolaeth bod un o'r dioddefwyr/goroeswyr wedi bod yn chwilio am wybodaeth ar y rhyngrwyd yn defnyddio termau chwilio a oedd yn ymwneud â deall meithrin perthynas amhriodol. Roedd gan rai dioddefwyr/goroeswyr ffrindiau a oedd wedi eu rhybuddio bod ymddygiad Foden yn amhriodol, ac roedd gan o leiaf un ffrind a oedd wedi eu hannog i siarad ag oedolyn.  Nid yw addysg am feithrin perthynas amhriodol wedi'i gynnwys yn Fframwaith y Cwricwlwm newydd i Gymru ar hyn o bryd, ac nid oedd yn cael ei addysgu yn y cwricwlwm blaenorol, sydd wrthi'n cael ei ddirwyn i ben.

Mae *Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru*[27] sydd wrthi'n cael ei gyflwyno'n raddol ledled Cymru (2022-2027) yn cael ei bennu'n genedlaethol ac yn cynnwys gofynion mewn perthynas â'r cwricwlwm a nodir mewn deddfwriaeth ac amrywiaeth o ganllawiau statudol ategol a gyhoeddwyd dan *Adran 71 Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021*[28]. Mae'r canllawiau'n ddatganiad clir o'r hyn sy'n bwysig wrth gyflwyno addysg eang a chytbwys i ddisgyblion ledled Cymru. Y bwriad yw bod pob ysgol yn dylunio eu cwricwlwm eu hunain ar sail gofynion y Fframwaith, gan ei addasu'n benodol i fod yn berthnasol ac ennyn diddordeb eu disgyblion, yn unol â chyd-destun eu bywydau. Mae cyfres o ddeunyddiau a ddatblygwyd ar y cyd ar gael fel adnodd i ysgolion eu defnyddio a'u haddasu yn ôl yr angen. Datblygwyd y rhain gan ymarferwyr yng Nghymru er mwyn gweithio gyda phobl ifanc, ac mae'n broses a arweiniwyd gan arbenigwyr ar sail tystiolaeth.

Rhennir y Fframwaith yn fras yn 6 maes dysgu a phrofiad, gydag Iechyd a Lles yn un o'r rhain, a Pherthnasoedd Iach yn dod o dan y maes hwn. Mae'r pwnc hwn yn rhoi

[27] https://www.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru-fframwaith
[28] https://www.legislation.gov.uk/cy/asc/2021/4/contents/welsh

ystyriaeth i'r '*angen [i ddysgwyr] sylweddoli pan nad yw perthynas yn un iach a bod yn ymwybodol o sut i gadw'n ddiogel a cheisio cymorth iddynt eu hunain ac eraill'.*

Nid oes unrhyw gylch gorchwyl penodol o fewn hyn sy'n cynnwys addysgu a dysgu am ymddygiad sy'n ceisio meithrin perthynas amhriodol. Rhaid mynd i'r afael â hyn ar unwaith, yn ddiogel ac yn effeithiol, a dylai ddibynnu ar arbenigedd sydd eisoes yn bodoli. Mae'r Adolygwyr wedi siarad â'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol (y Ganolfan CSA), sef asiantaeth genedlaethol y DU sy'n canolbwyntio ar wella dealltwriaeth ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Nod y Ganolfan yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy well prosesau atal ac ymateb, ac mae ar flaen y gad o ran ymchwil yn y maes hwn. Byddai'r Ganolfan mewn sefyllfa dda i allu cefnogi datblygiad deunyddiau o'r fath.

**Gwella Systemau ac Ymarfer**

Er mwyn hyrwyddo'r hyn a ddysgwyd yn sgil yr achos hwn, nododd yr Adolygiad y camau gweithredu a ganlyn ar gyfer y Bwrdd a'i asiantaethau yn ogystal â’r deiliannau gwelliant a ragwelir:

## Trosolwg

**Rhaid i bob asiantaeth gydnabod dewrder llwyr plentyn i herio unigolyn pwerus sy’n cam-drin a chael eu clywed a’u credu.**

**Mae Argymhellion yr Adolygiad hwn yn berthnasol i bob Ysgol, bob Awdurdod Lleol a phob Asiantaeth Statudol sy’n gweithio gyda phlant yng Nghymru. Dylai’r sefydliadau a’r asiantaethau hynny ystyried a myfyrio ar eu hymarfer yng nghyd-destun y canfyddiadau hyn.**

Er bod yr Adolygiad wedi adrodd am ei ganfyddiadau o dan benawdau thematig mewn perthynas â cham-drin yn yr ysgol hon, mae’r Argymhellion a nodir isod yn rhai trawsbynciol ac yn darparu fframwaith ar gyfer gwella y gellid ei ystyried yn genedlaethol yn ogystal ag yn lleol.

Dyluniwyd yr Argymhellion i fod yn ymarferol ac yn bosib eu cyflawni, er bod angen newid canllawiau cenedlaethol am ddiogelu a llywodraethu ysgolion er mwyn cyflawni rhai ohonynt.

## Thema gyffredinol - gwrando ar Lais y Plentyn

Mae’r Adolygiad hwn yn dangos na chafodd ymddygiad plant ei ystyried drwy lens ddiogelu gan y gweithwyr proffesiynol a oedd yn gweithio â nhw bob amser, na wnaeth unrhyw un wrando arnynt pan godwyd pryderon, ac na chawsant lais yn y broses a ddyluniwyd i’w cadw’n ddiogel.

**Mae’r Adolygiad yn argymell**

1. Bod rhaid i bob sefydliad sy’n gweithio gyda phlant sicrhau bod eu polisïau mewn perthynas â gwrando ar lais y plentyn yn cael eu hadolygu, eu gweithredu’n llawn ac yn adlewyrchu’r hyn a ddysgwyd o’r Adolygiad hwn
2. Bod rhaid i sefydliadau allu dangos tystiolaeth i’w Bwrdd a’u Rheoleiddwyr proffesiynol bod ganddynt broses ar gyfer gwrando ar blant a’i bod wedi’i gwreiddio ac yn weithredol yn y sefydliad
3. Bod pob asiantaeth yn sicrhau bod eu staff yn cael eu hyfforddi i ganfod a chofnodi newid mewn ymddygiad plentyn a allai nodi bod oedolion yn meithrin perthynas amhriodol gyda nhw ac/neu eu bod yn cael eu cam-drin
4. Mewn ysgolion, rhaid i’r newidiadau hyn gael eu cofnodi ar system reoli data electronig
5. Pan fo atgyfeiriad yn cael ei wneud dan Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru, rhaid ystyried yr holl wybodaeth ddiogelu ar gofnod y plentyn ar y system reoli data wrth asesu risg a pha mor ddiamddiffyn ydynt
6. Pan fo atgyfeiriad yn cael ei wneud gan drydydd parti dan Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru, rhaid i swyddog o’r gwasanaeth gofal cymdeithasol plant siarad â’r

plentyn sy'n cael ei enwi yn yr atgyfeiriad, hyd yn oed pan nad yw wedi datgelu unrhyw beth ei hun

7. Y dylai ALI1 ymgynghori gyda disgyblion i ganfod y ffordd orau o'u galluogi i gael gafael ar unigolyn neu wasanaeth y tu allan i'r ysgol er mwyn rhoi gwybod am bryderon. Dylid arddangos manylion cyswllt yn amlwg ym mhob ysgol
8. Bod Llywodraeth Cymru yn datblygu'r cwricwlwm i sicrhau bod disgyblion yn meddu ar y wybodaeth i ddeall ymddygiad oedolion sy'n meithrin perthnasoedd amhriodol ac yn gwybod sut i roi gwybod am hyn yn ddiogel i oedolyn
9. Dylai Awdurdodau Lleol ddangos tystiolaeth o sut maent yn cefnogi ac yn eirioli dros ddioddefwyr trawma, fesul achos, pan fo'u gallu i gael addysg wedi cael ei gyfyngu oherwydd eu profiadau. Byddai hyn yn cynnwys sicrhau bod dioddefwyr yn cael mynediad at addysg bellach ac uwch, a'r arian sydd ei angen i wneud hynny, pan nad yw'r gofynion o ran graddau a phresenoldeb wedi'u bodloni oherwydd y trawma a gawsant

# Rheoli honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant - ymateb amlasiantaeth

## Trefniadau Adran 5

Mae *Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019*[29] wrthi'n cael ei adolygu ac mae'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr adolygiad o weithdrefnau Adran 5 yn cael ei lywio gan yr hyn a ddysgwyd o'r Adolygiad hwn ac yn cael eu profi yn erbyn yr achos hwn.
Mae'r adolygiad hwn wedi amlygu gwendidau yn y system a ddyluniwyd i ddiogelu plant, gydag anghysondebau o ran

- defnyddio'r meini prawf trothwy ar gyfer ymyrryd,
- diffyg dealltwriaeth gyffredin am '*addasrwydd*' i weithio gyda phlant, a'r
- hyn sy'n ymddygiad proffesiynol derbyniol i oedolion mewn swydd gyfrifol a phwerus

Gadawyd plant yn wynebu risg o gael eu cam-drin a'u niweidio oherwydd hyn.

**Mae'r Adolygiad yn argymell**

10. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr adolygiad o weithdrefnau Adran 5 yn cael ei lywio gan yr Adolygiad hwn ac yn rhoi ystyriaeth i'r hyn a ddysgwyd ohono
11. Bod y gweithdrefnau diwygiedig yn nodi bod rhaid i lais y plentyn gael ei glywed, hyd yn oed os nad yw'r plentyn wedi gwneud unrhyw ddatgeliad
12. Ei bod yn ofynnol bod penderfyniadau am drothwy defnyddio'r gweithdrefnau yn cael eu gwneud mewn cyfarfod amlasiantaeth ac nid gan y LADO yn unig, a'u bod yn ystyried pryderon, cwynion a honiadau blaenorol

[29] https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c5/

13. Bod Byrddau Diogelu yn cael sicrwydd bod swyddogion LADO eu hardaloedd yn cael hyfforddiant a goruchwyliaeth yn rheolaidd
14. Bod Byrddau Diogelu yn cael ac yn craffu ar adroddiadau Awdurdodau Lleol am reoli honiadau o leiaf unwaith y flwyddyn, a bod adrodd am yr honiadau yn dod yn rhan o ofynion rheoleiddio Estyn ac AGC
15. Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddatblygu 'Polisi Ymddygiad Oedolyn sy'n Peri Pryder' (a elwir yn '*Low-level Concerns Policy*' yn Lloegr), ac yn ystyried darparu canllawiau ar arferion gweithio diogel

Cyn bo hir, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Strategaeth 10 mlynedd rhwng 2025 a 2035 (daeth y cyfnod ymgynghori i ben ym mis Hydref, 2025) ar gyfer atal cam-drin plant yn rhywiol (sy'n datblygu ar y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol, Gorffennaf 2019). Nododd yr Adolygiad wendidau systemig a effeithiodd ar effeithiolrwydd gwaith rhyngasiantaethol wrth ddiogelu plant.

**Mae'r Adolygiad yn argymell**

16. Bod y Strategaeth newydd yn cael ei phrofi yn erbyn canfyddiadau'r adolygiad hwn a bod unrhyw beth a ddysgwyd yn cael ei ymgorffori yn y strategaeth newydd

## Yr angen am hyfforddiant - meddwl y 'gwaethaf posib' a deall y 'gallai ddigwydd yma'

Mae'r adolygiad wedi amlygu, yn syml, na wnaeth yr un oedolyn proffesiynol a oedd yn gweithio gyda phlant ystyried bod disgyblion yn cael eu cam-drin yn rhywiol gan Bennaeth eu hysgol. Mae angen newid diwylliannol wrth ymateb i bryderon am unigolyn sy'n gweithio gyda phlant. Wrth ystyried y fframwaith hyfforddiant diogelu cyfredol, amlygodd yr Adolygiad nad yw'r hyfforddiant yn canolbwyntio llawer ar ganfod camdriniaeth a'r risg o niwed gan oedolion sy'n gweithio mewn swydd gyfrifol mewn ysgolion a sefydliadau eraill. Bu posib i Foden fanteisio ar fylchau yn y fframwaith cyfredol, gan ddibynnu ar ddiffyg dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o *modus operandi* troseddwyr rhyw a sut maent yn meithrin perthynas amhriodol nid yn unig gyda'u dioddefwyr ond hefyd yn yr amgylchedd maent yn gweithio ynddo.

Drwy hyfforddiant a datblygiad proffesiynol, mae'n rhaid annog gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant, i '*feddwl y gwaethaf posib*' a deall y '*gallai ddigwydd yma*'. Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol ddysgu ymdrin â phryderon a godwyd drwy ddiwylliant a safbwynt sy'n ystyried '*beth os ydw i'n gywir*' yn hytrach na '*beth os ydw i'n anghywir*' a deall y llwybrau sy'n eu galluogi i roi gwybod yn ddiogel am bryderon i'r Awdurdod Lleol.

**Mae'r Adolygiad yn argymell**

17. Bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adnodd hyfforddiant yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Adolygiad hwn, i'w ddefnyddio gan bob ysgol yng Nghymru. Dylai bod

modd ei addasu er mwyn i asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda phlant allu ei ddefnyddio

18. Bod pob aelod staff, gwirfoddolwr (gan gynnwys swyddogion gweinyddol a chyfleusterau) a Llywodraethwr ysgol yn cael hyfforddiant am *modus operandi* troseddwyr rhyw a'u dulliau o feithrin perthnasoedd amhriodol gan ddefnyddio model Finklehor
19. Bod sicrwydd yn cael ei roi i Fyrddau Diogelu bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei gyflwyno i swyddogion Gwasanaethau Addysg, Plant ac Adnoddau Dynol yr Awdurdod Lleol, sy'n arwain ar reoli pryderon neu'n ymateb i bryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant
20. Bod y Bwrdd Diogelu yn cael sicrwydd bod gan Awdurdodau Lleol bolisïau Chwythu'r Chwiban clir, y tynnir sylw atynt,a bod pob aelod staff yn gallu eu defnyddio'n ddiogel

## Llywodraethu Ysgolion yng Nghymru

Mae'r Adolygiad hwn wedi amlygu'r gwendidau a'r risgiau cynhenid sy'n gysylltiedig â'r ffordd y mae ysgolion yng Nghymru yn cael eu llywodraethu.

**Mae'r Adolygiad yn argymell**

Bod Llywodraeth Cymru yn cychwyn adolygiad o drefniadau llywodraethu mewn ysgolion ledled Cymru, sy'n:

21. Amlinellu'n glir beth yw cyfrifoldebau Llywodraethwr er mwyn newid o ganolbwyntio'n bennaf ar reolaeth ariannol a deilliannau i sefyllfa lle derbynnir mai diogelu, iechyd a lles yw'r sylfaen briodol ar gyfer dysgu a ffynnu

22. Cefnogi datblygiad a gweithrediad dangosfwrdd hawdd ei ddeall sy'n darparu gwybodaeth syml am iechyd a diwylliant ehangach yr ysgol

23. Gofyn i'r Llywodraethwyr gadw cofnodion cywir am benderfyniadau a wnaed mewn perthynas â materion diogelu ac yn adrodd amdanynt i'r Awdurdod Lleol, yn enwedig pan nad yw'r penderfyniad a wnaed yn dilyn canllawiau'r Awdurdod Lleol

24. Sicrhau bod yr Unigolion Diogelu Dynodedig a'u dirprwyon yn destun goruchwyliaeth allanol gan Weithwyr Cymdeithasol cymwys o'r awdurdod lleol perthnasol

## Arferion Cyfyngol

Nododd yr Adolygiad bod arferion cyfyngol yn cael eu gorddefnyddio ac wedi'u gwreiddio yn niwylliant yr ysgol

Mae'r Adolygiad yn argymell

25. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi atodiad i ganllaw y *Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol 2022* sy'n ymwneud ag oedolion yn ffilmio digwyddiadau ac yn rhoi arweiniad am gyfnod cadw priodol fideos o'r fath

## Rheoli Argyfwng

Er bod digwyddiadau difrifol fel hyn yn brin, mae angen ymateb strategol wedi'i gydlynu i ymdrin â nhw.

Mae'r Adolygiad wedi amlygu nad oedd gan yr Ysgol, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd na Gwasanaethau Addysg yr Awdurdod Lleol gynlluniau asiantaeth unigol nac amlasiantaeth mewn grym i ymateb ar unwaith i ddigwyddiad difrifol mewn ffordd effeithiol a threfnus.

**Mae'r Adolygiad yn argymell**

26. Bod Llywodraeth Cymru yn cael ei sicrhau bob gan bob Awdurdod Lleol gynllun digwyddiadau difrifol strategol sy'n nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn ymateb yn amlasiantaethol ar unwaith ac ar y cyd.
    a. Bod y cynllun yn cynnwys trefniadau ar gyfer gofalu am y dioddefwr, diogelu tystiolaeth a rheoli'r troseddwr honedig
    b. Bod y cynllun yn cynnwys protocol swyddogol ar gyfer rhannu gwybodaeth gydag Awdurdodau Lleol eraill a allai gael eu heffeithio
    c. Bod cynllun strategol mewn grym i gael cefnogaeth hawdd cael ati ar y safle ar gyfer plant ac oedolion mewn sefydliadau lle bu digwyddiad trawmatig arwyddocaol
    d. Mewn digwyddiad difrifol fel hwn, ystyried symud gweithiwr cymdeithasol i weithio ar secondiad gyda thîm archwilio'r Heddlu er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth a'r wybodaeth yn cael eu hystyried o safbwynt diogelu yn ogystal ag o safbwynt troseddol

## Argymhellion ar gyfer y Partneriaid Diogelu

**Mae'r Adolygiad yn argymell**

27. Bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
    a. Yn ystyried rhannu data CAMHS di-enw gydag Awdurdodau Lleol i nodi mannau â galw uchel a phryderon thematig
    b. Yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn ceisio cyngor diogelu pan fo plentyn yn cyrraedd apwyntiad gyda thrydydd parti heb ganiatâd rhiant

Datganiad gan yr Adolygwr (Adolygwyr):

| Datganiad annibyniaeth i ymwneud â’r achos<br>Datganiad cymhwyster at ddibenion sicrhau ansawdd | Datganiad annibyniaeth i ymwneud â’r achos<br><br>Datganiad cymhwyster at ddibenion sicrhau ansawdd |
|---|---|
| Rwy’n cyflwyno’r datganiad a ganlyn, cyn i mi ddod yn rhan o’r adolygiad dysgu hwn:<br><br>• Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â’r plentyn na’r teulu nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.<br>• Nid wyf wedi bod yn rheolwr atebol uniongyrchol ar yr ymarferwr/wyr dan sylw.<br>• Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig, y wybodaeth, y profiad a’r hyfforddiant priodol i ymgymryd â’r adolygiad.<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol a bu iddo ddadansoddi a gwerthuso’r materion yn drwyadl, yn unol â’r hyn a nodir yn y Cylch Gorchwyl. | Rwy’n cyflwyno’r datganiad a ganlyn, cyn i mi ddod yn rhan o’r adolygiad dysgu hwn:<br><br>• Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â’r plentyn na’r teulu nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.<br>• Nid wyf wedi bod yn rheolwr atebol uniongyrchol ar yr ymarferwr/wyr dan sylw.<br>• Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig, y wybodaeth, y profiad a’r hyfforddiant priodol i ymgymryd â’r adolygiad.<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol a bu iddo ddadansoddi a gwerthuso’r materion yn drwyadl, yn unol â’r hyn a nodir yn y Cylch Gorchwyl. |

| ADOLYGWR 1 | ADOLYGWR 2 |
|---|---|
| Enw Jane Foster (Sarre)<br><br>Llofnod<br><br>Dyddiad<br><br>28.08.2025 | Enw Anna Henderson<br><br>Llofnod<br><br>Dyddiad<br><br>28.08.2025 |
| Cadeirydd y Panel Adolygu<br><br>Enw Jan Pickles OBE<br><br>(Llofnod) | |

| |
|---|
| Dyddiad 28.08.2025 |

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl

Atodiad 2: Crynodeb o'r llinell amser

- Dilynwyd y broses gan y Bwrdd a'r gwasanaethau a gynrychiolir ar y Panel Adolygu
- Cynhaliwyd digwyddiad dysgu a nodwyd y gwasanaethau a fynychodd
- Hysbyswyd y dioddefwyr / goroeswyr a'r aelodau teulu a enwyd ganddynt, ceisiwyd a chynrychiolwyd eu barn drwy gydol y digwyddiad dysgu, a rhoddwyd adborth iddynt.

At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig

Dyddiad y daeth y wybodaeth i law ……………………….. Dyddiad anfon llythyr o gydnabyddiaeth at Gadeirydd y Bwrdd ………………………… Dyddiad ei ddosbarthu i'r arolygiaethau/Arweinwyr Polisi perthnasol..............................

Asiantaethau

AGGCC
Estyn
AGIC
Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi Arolygiaeth Prawf ei Fawrhydi

Rheswm

# Atodiad 1: Geirfa

| | |
|---|---|
| AAA | Anghenion addysgol arbennig |

| | |
|---|---|
| AALI | Awdurdod Addysg Lleol |
| ABE | Mae hwn yn cyfeirio at set o ganllawiau ac arferion a nodir yng nghyhoeddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ‘Achieving best evidence in criminal proceedings, 2022’, sydd â’r nod o gasglu’r wybodaeth fwyaf dibynadwy a chynhwysfawr gan dystion diamddiffyn, yn enwedig plant, mewn ymchwiliad troseddol. Yr egwyddor graidd yw cynnal cyfweliadau sy’n lleihau’r risg o ddylanwadu, sicrhau cywirdeb a chynyddu gallu’r tyst i gofio a rhannu manylion am ddigwyddiad. |
| AD | Adnoddau Dynol |
| ADHD | Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd |
| adran 47 | Mae adran 47 Deddf Plant 1989 yn ddarpariaeth gyfreithiol sy’n golygu bod rhaid i awdurdodau lleol ymchwilio os yw plentyn yn dioddef neu’n debygol o ddioddef niwed sylweddol. Mae’r ymchwiliadau hyn, a elwir yn ymholiadau adran 47 neu Ymholiadau Amddiffyn Plant, yn cynnwys asesiad amlasiantaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a chyrff eraill i bennu pa gamau gweithredu sydd eu hangen i ddiogelu lles y plentyn. Mae’r broses yn cynnwys casglu gwybodaeth ac asesu risgiau, a gall arwain at gael cefnogaeth i’r teulu, Cynadleddau Amddiffyn Plant neu weithrediadau gofal. |
| Adran 5 | Mae Adran 5 Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (AWCPP) 2020 newydd yn mynd i’r afael â honiadau neu bryderon diogelu am ymarferwyr a’r rhai sydd â swyddi cyfrifol. |
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| Addasrwydd i weithio gyda phlant | Yng nghyd-destun amddiffyn plant, mae’n ymwneud ag asesu addasrwydd a chymhwyster unigolyn i weithio gyda phlant, gan sicrhau bod modd iddynt greu amgylchedd diogel a gofalgar a chyflawni eu cyfrifoldebau diogelu. Mae’r asesiad hwn yn cynnwys amryw wiriadau ac ystyriaethau er mwyn penderfynu a yw’r unigolyn yn peri risg i les plant. |
| BDP | Bwrdd Diogelu Plant |
| BDPGC/ BDGC | Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru/ Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru |
| CA3/4 | Cyfnod Allweddol 3 – blynyddoedd ysgol 7-9; Cyfnod Allweddol 4 – blynyddoedd ysgol 10-11 |
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc |
| CBAC | Cyd-bwyllgor Addysg Cymru |
| CDU | Cynllun Datblygu Unigol |
| CGA | Cyngor y Gweithlu Addysg, rheoleiddiwr annibynnol, proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru |

| | |
|---|---|
| CID16 | Ffurflen asesu ac atgyfeirio gyfun yw CID16, a gaiff ei galw hefyd yn Ffurflen Asesu Bregusrwydd. Caiff ei defnyddio gan dimau gorfodi'r gyfraith yng ngogledd Cymru wrth ddelio â digwyddiadau sy'n ymwneud ag unigolion diamddiffyn, yn enwedig mewn achosion cam-drin domestig. Mae'n ddogfen strwythuredig a ddefnyddir i gasglu gwybodaeth berthnasol, asesu risgiau ac arwain swyddogion wrth ddarparu ymyriadau diogelu uniongyrchol. |
| CSA | Ymosodiad Rhywiol ar Blentyn |
| Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol Adran 5 | Caiff Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol ei alw pan fo pryderon diogelu am unigolion, yn enwedig rhai â swyddi cyfrifol sy'n dod i gyswllt â phlant neu oedolion diamddiffyn. Nod y cyfarfod yw cydlynu gweithdrefnau amddiffyn plant, amddiffyn oedolion, troseddol a chyflogaeth. Mae'n cynnwys rhannu gwybodaeth, asesu risgiau a chynllunio camau angenrheidiol er mwyn amddiffyn unigolion sy'n wynebu risg. |
| DUDD | Dirprwy Unigolyn Diogelu Dynodedig |
| GDG | Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd |
| HGC | Heddlu Gogledd Cymru |
| HS11 | Ffurflen yr Awdurdod Lleol ar gyfer cofnodi manylion digwyddiadau ataliaeth a'i chyflwyno i'r adran Addysg (yn ALI1) |
| LADO | Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol. Mae'r rôl hon yn rhan o'r broses o ddiogelu plant ac mae'n canolbwyntio ar reoli honiadau o gamymddwyn yn erbyn unigolion sy'n gweithio gyda phlant. Prif gyfrifoldeb LADO yw goruchwylio honiadau i sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg a phriodol, gan ddiogelu lles y plentyn a hawliau'r unigolyn sy'n cael ei gyhuddo. |
| MAPA | Rheoli Ymddygiad Ymosodol Gwirioneddol a Phosib, rhaglen hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar roi sgiliau i unigolion er mwyn iddynt allu delio â sefyllfaoedd ymosodol neu dreisgar posib a'u tawelu |
| MASH | Y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol, mae'r cyfarfodydd yn cynnwys trafodaethau ar y cyd rhwng amryw asiantaethau er mwyn asesu a mynd i'r afael â risgiau i unigolion diamddiffyn, yn enwedig plant |
| NSPCC | Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant |
| PCA | Pwyllgor Cwynion Annibynnol (Panel) |
| Plentyn sy'n Derbyn Gofal | Mae plentyn "sy'n derbyn gofal" yn golygu eu bod yng ngofal awdurdod lleol neu fod awdurdod lleol yn darparu llety iddynt. |
| Rhan 4 AWCPP (2008) | Roedd Rhan 4 Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (AWCPP) 2008 yn canolbwyntio ar honiadau a phryderon diogelu am ymarferwyr, ac mae wedi'i disodli bellach gan ganllawiau cenedlaethol newydd |

| | |
|---|---|
| SARC | Mae’r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn darparu cefnogaeth gyfrinachol ac arbenigol i unrhyw un sydd wedi cael eu treisio, wedi dioddef ymosodiad rhywiol neu wedi cael eu cam-drin. |
| SCHGC | Swyddog Cyswllt Heddlu Gogledd Cymru (ag Ysgolion/ Cymuned) |
| Swydd Gyfrifol | Mae swydd gyfrifol yn cyfeirio at rôl lle mae unigolyn yn dod i gyswllt uniongyrchol â phlant neu oedolion diamddiffyn, a’u bod yn gallu arfer awdurdod neu reolaeth drostynt. Yn aml, mae'r rolau hyn yn cynnwys gofalu, addysgu neu ddarparu cefnogaeth ac fe’u gwelir yn aml mewn lleoliadau fel rhai gofal cymdeithasol, gofal iechyd, addysg a’r system gyfiawnder. Mae camddefnyddio swydd gyfrifol yn drosedd ddifrifol, yn enwedig pan fo’n ymwneud â gweithgarwch rhywiol gyda pherson ifanc dan oed, hyd yn oed os yw’r person ifanc hwnnw yn hŷn nag oedran cydsynio. |
| TCC | Teledu Cylch Caeëdig |
| Trafodaeth Strategaeth Adran 3 | Mae fframwaith Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (AWCPP) yn amlinellu’r gofynion diogelu a lles y mae’n rhaid i ddarparwyr eu bodloni, yn ogystal â’r camau y mae’n rhaid i leoliad eu cymryd i sicrhau diogelwch a lles plant. Mae’r adran hon yn pwysleisio pwysigrwydd cadw plant yn ddiogel ac yn iach, ac mae’n nodi’r gofynion a’r camau gweithredu penodol y mae’n rhaid i leoliadau eu dilyn er mwyn cyflawni’r cyfrifoldeb hwn. |
| UAC | Yr Undeb Addysg Cenedlaethol |
| UDRh | Uwch Dîm Rheoli |
| UDRh arall | Staff nad ydynt yn rhan o’r UDRh craidd/ Penaethiaid Cynorthwyol â chyfrifoldebau ategol yn yr ysgol |
| UDRh Craidd | Uwch Dîm Rheoli craidd yr ysgol |
| UDD | Unigolyn Diogelu Dynodedig |

# Atodiad 2: Myfyrio ar argymhellion Adroddiad Ymchwiliad Clywch

Thema a welwyd yn ystod yr Adolygiad Ymarfer Plant hwn oedd na chafodd argymhellion mewn perthynas â rhyngweithiadau Foden gyda disgyblion eu dilyn, neu pan roddwyd cyngor neu gyfarwyddyd iddo, ni chafodd ei ymddygiad neu ei gydymffurfiaeth â'r materion a godwyd gydag ef eu monitro.

Cymharwyd argymhellion yr Adolygiad cyfredol gyda'r argymhellion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ugain mlynedd yn ôl yn Adroddiad Clywch yn 2004. Hyd yn oed pe bai pob un o argymhellion Adroddiad Clywch wedi'u rhoi ar waith ar y pryd, mae'n annhebygol y byddai hyn yn unig wedi atal Foden rhag troseddu. Fodd bynnag, efallai y byddai wedi bod yn anoddach iddo droseddu dan drwynau pawb a pheidio â chael ei ddal.

Mae'r Adolygiad wedi ystyried argymhellion Adroddiad Clywch yn ofalus ac yn nodi argymhellion Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant yn Sir Benfro (2011) a Southbank International School Serious Case Review (England 2014).

Mae'n ddychrynllyd bod Argymhellion yr Adolygiad cyfredol hwn yn adlewyrchu'r rhai a welwyd yn Clywch, a'u bod mor debyg, ac nad oes camau wedi'u cymryd i weithredu ar y materion allweddol na'u datrys 20 mlynedd yn ddiweddarach. Mae'n hanfodol bod argymhellion yr Adolygiad hwn yn cael eu gweithredu'n llawn a bod hynny'n cael ei wneud yn effeithiol ac yn brydlon.

## Clywch a'r Argymhellion thematig yn yr Adolygiad hwn

Isod, nodir dyfyniadau o argymhellion Adroddiad Clywch o dan benawdau thematig, a gellir eu defnyddio i gymharu gyda'r argymhellion sy'n deillio o'r Adolygiad hwn. Mae pob dyfyniad yn cychwyn gyda rhif y paragraff yn Adroddiad Clywch.

# Thema Gyffredinol: Gwrando ar Lais y Plentyn:

## Yn 2004, argymhellodd Adroddiad Clywch

9.18
Mewn unrhyw ymchwiliad amddiffyn plant, argymhellaf y dylid canfod dymuniadau a barn y plentyn ar y modd y cynhelir y cyfweliad, gan gynnwys eu dymuniadau o ran natur y gefnogaeth a fyddai orau ganddynt, mewn modd sensitif a'u cofnodi, gan ffurfio rhan o'r broses o gynllunio'r cyfweliad ac y dylid diwygio Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn unol â hynny o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

21.2
Argymhellaf y dylai'r heddlu ystyried hysbysu'r plentyn ei hun o ganlyniad ymchwiliad gan yr heddlu bob amser, gan ofalu eu bod yn esbonio'r hyn a ddigwyddodd ac y caiff Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan eu diwygio yn unol â hynny o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Thema 3: Adrodd am Bryderon, Rheoli Honiadau a Gwneud Atgyfeiriadau - Systemau a Phrosesau

### Yn 2004, argymhellodd Adroddiad Clywch

21.7 – diweddaru canllawiau
Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau ar sut y dylid ymchwilio i honiadau o gam-drin plant a wneir yn erbyn staff sy'n addysgu a staff nad ydynt yn addysgu o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn. Dylai'r canllawiau ystyried:
(i) Cyd-ganllawiau NEOST/Undebau Athrawon, sef *Education Staff and Child Protection: Staff Facing an Allegation of Abuse*
(ii) *Practice Guide to Investigating Allegations of Abuse against a Professional or Carer in Relation to Looked After Children*
(iii) Gweithdrefnau Amddiffyn Plant PAAP Cymru gyfan.
(iv) Canllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant'.

21.19 – adolygu gweithdrefnau a mewnbwn gan arbenigwyr
O fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn argymhellaf y dylai cadeiryddion pob PAAP yng Nghymru adolygu eu gweithdrefnau presennol sy'n ymwneud â Honiadau yn Erbyn Pobl Broffesiynol er mwyn sefydlu ymatebion clir wrth ymdrin â honiadau o'r fath. Dylai polisïau, gweithdrefnau ac arferion fod yn eglur, yn realistig ac ni ddylent wrthdaro â gweithdrefnau asiantaethau lleol neu genedlaethol.
Argymhellaf y dylai cadeiryddion pob PAAP yng Nghymru adolygu gweithdrefnau presennol

21.8 – os cychwynnir ymchwiliad, dylai un o swyddogion personél arbenigol yr awdurdod lleol ei gynnal a dylai'r swyddog hwnnw hefyd gyflwyno'r achos oni chyfarwyddir cyfreithiwr neu gwnsler.

21.9 – gwaith rhyngasiantaethol
Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu grŵp gorchwyl o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, gyda chynrychiolwyr o bob parti â diddordeb yn gyfrifol am gyflwyno cyfres o gynigion i weithredu'r argymhelliad yr wyf wedi ei wneud o ran tribiwnlysoedd disgyblu ysgolion. Dylai'r partïon â diddordeb gynnwys:
(i) holl undebau llafur athrawon
(ii) cynrychiolwyr o blith y llywodraethwyr
(iii) swyddogion yr awdurdod addysg lleol
(iv) arbenigwyr amddiffyn plant ac arbenigwyr cyfreithiol
(v) plant a phobl ifanc
(vi) cynrychiolwyr o'r Cyngor Addysgu Cyffredinol
(vii) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
(viii) yr heddlu

Ymhlith y materion y dylai'r grŵp gorchwyl eu hystyried mae'r trothwy ar gyfer cyfeiriadau, apeliadau, rheolau tribiwnlys, y cydberthnasau ag ymchwiliadau'r heddlu a chofnodi ymchwiliadau ar ffeiliau athrawon ac aelodau o'r staff nad ydynt yn addysgu.

21.24 – cadw cofnodion
Argymhellaf y dylai cadeiryddion PAAPau sicrhau y caiff Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan eu diwygio o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn er mwyn rhoi canllawiau ar gadw a storio dogfennau a fyddai'n caniatáu i achosion gael eu hadolygu fel y bo'n briodol dros gyfnod maith.

## Thema 3: Gwaith Rhyngasiantaethol

Mae gwaith rhyngasiantaethol wedi newid yn sylweddol dros yr 20 mlynedd diwethaf ac nid oedd yn thema benodol yn Adroddiad Clywch. Fodd bynnag, mae argymhellion Adroddiad Clywch a oedd yn sôn am CBAC yn parhau i fod yn berthnasol, ac ar y pryd, roedd y rhain yn argymhellion blaengar.

Er bod Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer Plant ac Oedolion sy'n wynebu Risg o Gamdriniaeth ac Esgeulustod wedi symud ymlaen o'r sefyllfa lle tybiwyd y byddai asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd i sefyllfa lle nodir bod hyn yn ddyletswydd, mae'n amlwg o'r Adolygiad hwn nad yw hyn yn cael ei ymgorffori'n gyson.

21.11 – atgyfeiriadau, swyddogaethau a gweithdrefnau
Dylai'r polisi a'r gweithdrefnau gyfeirio at y canlynol:
(i) Canllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant' a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
(ii) atgyfeirio i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu
(iii) rhannu gwybodaeth
(iv) cofnodi a storio gwybodaeth am bryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant
(v) yr angen am rôl cydlynydd amddiffyn plant penodedig a chylch gorchwyl ar ei chyfer
(vi) hyfforddiant amddiffyn plant
(vii) y rhyngberthynas rhwng ymchwiliadau amddiffyn plant a gweithdrefnau disgyblu
(viii) monitro ac adolygu'r trefniadau

# Thema 5 Llywodraethu a chwynion / chwythu'r chwiban

## Yn 2004, argymhellodd Adroddiad Clywch

21.5 - llywodraethwyr
Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn er mwyn ei gwneud yn ofynnol bod gan lywodraethwyr pob ysgol, boed yn ysgol gymuned, yn cael ei rhedeg â chymorth gwirfoddol, wedi'i rheoli'n wirfoddol, yn ysgol sylfaen neu'n ysgol annibynnol, a choleg addysg bellach, bolisi datgelu cyfrinachau ar waith ac y rhoddir gwybod i'r holl athrawon a staff nad ydynt yn addysgu ynglŷn â'r modd y'i

gweithredir.

21.6 – chwythu'r chwiban
Argymhellaf y dylai pob athro ac aelod o staff nad ydynt yn addysgu, o gael ei benodi mewn unrhyw ysgol neu goleg addysg bellach yng Nghymru, dderbyn cyfarwyddyd ysgrifenedig ac ar lafar ar weithdrefnau datgelu cyfrinachau a'r modd i'w gweithredu. Dylid atgyfnerthu hyn yn rheolaidd wedi hynny.

21.22 (iii) hyfforddiant Llywodraethwyr
[Argymhellaf] y dylai pob Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Addysg yng Nghymru … gynnal archwiliad o bob ysgol i nodi'r llywodraethwr enwebedig ar gyfer amddiffyn plant. Ar ôl i'r wybodaeth hon gael ei chasglu, dylid rhoi rhaglen ar waith i sicrhau y caiff llywodraethwyr enwebedig gyfle i fynychu unrhyw hyfforddiant amddiffyn plant, sy'n cynnwys hyfforddiant i ymdrin â honiadau yn erbyn staff sy'n addysgu a staff nad ydynt yn addysgu. Yn ogystal, dylid rhoi cyfle i bob llywodraethwr fynychu hyfforddiant amddiffyn plant.

21.25 - cwynion
Argymhellaf y dylai 'Canllawiau ar Weithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Chwynion i Gyrff Llywodraethu' Llywodraeth Cynulliad Cymru gael eu diwygio i gynnwys canllawiau eglur a phendant ar gyfrifoldebau'r partïon perthnasol os bydd cwyn yn codi pryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant

21.26 – gweithdrefnau cwyno
Argymhellaf y dylid diwygio 'Canllawiau ar Weithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Chwynion i Gyrff Llywodraethu' Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn ei gwneud yn glir bod gan Gomisiynydd Plant Cymru bwerau, o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, i adolygu'r gweithdrefnau cwyno mewn ysgolion ac adolygu achosion unigol.

21.27 – cwynion yn ymwneud â disgyblion
Dengys 'Canllawiau ar Weithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Chwynion i Gyrff Llywodraethu' Llywodraeth Cynulliad Cymru ymwybyddiaeth o'r anawsterau a wynebir o ran sicrhau annibyniaeth ddigonol ym mhob cam o'r broses o ymchwilio i gŵyn, ac o ran dyfarnu mewn ysgolion, ... Serch hynny, credaf y dylid rhoi'r cyfle i'r trefniadau arfaethedig, ar ôl eu diwygio fel yr awgrymwyd gennyf, gael eu profi ac felly y dylent, ynghyd â 'Cwynion yn Ymwneud â Phlant' gael eu cyhoeddi fel canllawiau statudol yn ddi-oed.

21.30 – eirioli dros blant
Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru o fewn 3 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn ei gwneud yn ofynnol i bob corff llywodraethu ysgol sicrhau bod plant yn cael eu hysbysu yn eu hysgol o argaeledd a phwrpas gwasanaethau perthnasol, gan gynnwys ChildLine, Llinell Gymorth Amddiffyn Plant yr NSPCC, gwasanaethau cymdeithasol, swyddfa Comisiynydd Plant Cymru a gwasanaethau eirioli

# Thema 7: Hyfforddiant a’r Cwricwlwm

## Yn 2004, argymhellodd Adroddiad Clywch

21.3 – hyfforddi athrawon am aildroseddwyr
Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a’r DfES gymryd camau i sicrhau bod athrawon yn derbyn gwybodaeth arbenigol yn eu rhaglen hyfforddi cymhwyso proffesiynol ynglŷn â’r modd y mae’r rheini sy’n cam-drin yn gweithredu a bod canfyddiadau’r adroddiad hwn yn ffurfio rhan o’r hyfforddiant hwnnw, ac y dylid gweithredu’r argymhelliad hwn o fewn 2 flynedd i gyhoeddi’r adroddiad hwn.

21.4 – hyfforddiant amddiffyn plant awdurdodau lleol
Argymhellaf y dylai awdurdodau addysg lleol a Phwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant ystyried sut y gellir darperir hyfforddiant sefydlu, mewnol a gloywi ym maes amddiffyn plant yn rheolaidd.

21.31 - cwricwlwm
Argymhellaf y dylai ACCAC [cyn gorff asesu’r cwricwlwm], o fewn 12 mis i gyhoeddi’r adroddiad hwn adolygu ei Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol yng ngoleuni fy adroddiad a phenderfynu a oes angen gwneud newidiadau neu ychwanegiadau.

21.22 – hyfforddiant a chadw cofnodion
Argymhellaf y dylai pob Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Addysg yng Nghymru neu’r rhai sy’n cyfateb iddynt, o fewn 3 mis i gyhoeddi’r adroddiad hwn:

(i) sefydlu a chynnal cronfa ddata ar gyfer yr awdurdod cyfan yn ymwneud â phob ysgol, gan nodi enw’r athro cyswllt amddiffyn plant penodedig, lefel yr hyfforddiant a gafwyd a dyddiadau’r hyfforddiant, a
(ii) datblygu cynllun gweithredu a’i roi ar waith er mwyn sicrhau y caiff yr holl staff a gyflogir ym maes addysg a gwasanaethau plant sydd â chysylltiad uniongyrchol â phlant a phobl ifanc a’r bobl hynny sydd â rôl polisi/rheoli, mewn perthynas ag ysgolion a’r gwasanaeth addysg, hyfforddiant amddiffyn plant sy’n gymesur â’u dyletswyddau.

21.23 – sgiliau gofal bugeiliol a chefnogaeth i blant
Argymhellaf y dylai pob Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Addysg yng Nghymru neu’r rhai sy’n cyfateb iddynt benodi cydlynydd amddiffyn plant o fewn 6 mis i gyhoeddi’r adroddiad hwn gyda chyfrifoldeb penodol dros ysgolion, er mwyn gwella gallu awdurdodau lleol i gefnogi a datblygu materion amddiffyn plant sy’n gysylltiedig ag ysgolion a phobl ifanc mewn addysg gan gynnwys darparu cefnogaeth briodol i blant yn ystod prosesau disgyblu, amddiffyn plant, cwynion a gwahardd, o fewn 12 mis i gyhoeddi’r adroddiad hwn.

Dylai’r strategaeth genedlaethol hon hefyd ystyried sgiliau, hyfforddiant a chefnogaeth gofal bugeiliol athrawon a’r priod rolau yng nghyd-destun gofal bugeiliol staff addysgu, cynghorwyr a staff lles addysg.

https://diogelu.cymru/cy/int-i/int-i-i1/i1-p1/

https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Clywch-Cymraeg.pdf

https://www.gov.wales/docs/cssiw/report/110811pemben.pdf

https://www.rbkc.gov.uk/pdf/Southbank%20SCR%20REPORT%2012%201%2016.pdf